

ECO'R WYDDFA

RHIF 57

MAWRTH 1981

Pris: 15c

MEDR AR FEICIAU MODUR



Chwech o hogia moto beic — i gyd o Ysgol Gynradd Bethel — sy'n brysur enwogi eu hunain ym myd y treialon a'r sgramblo. Maent yn aelodau o Glwb Beiciau Modur (lau) Padarn. Y rhai sy'n arddangos eu gwobrau yw, (cefn o'r chwith i'r dde): Gareth Thomas (8 oed — Tecnomoto), Alwyn Thomas (11 oed — C.R. Arrow), Martin Owen (9 oed — Malaguli). Yn eistedd, o'r chwith i'r dde mae Geraint Jones (9 oed — Yamaha), Marcus Griffith (6 oed — Itajet) a John Griffith (8 oed — Yamaha). Llyn: Islwyn Jones.

Dau frawd sy'n aelodau brwd o'r un Clwb yw Henry (9 oed) a Derek Jones (13) o Lanrug — hwythau hefyd yn falch o gael dangos eu gwobrau. Mae'r ddau yn ymarfer mor galed fel eu bod bron wedi aredig un o gaeau eu tad!



HAMDDENA GYDA PHLANT Y FRO

CYNRYCHIOLI CYMRU AR EIRA BWLGARIA



Christopher (16), bron yn hedfan i lawr y llethrau.

Bu'r wythnos Chwefror 14-21 fythgofiadwy i'r ddau frawd Christopher Lloyd a Timothy Lloyd, Pen-y-pas Llanberis.

Yn ystod yr wythnos bu'r ddau sy'n ddisgyblion yn Ysgol Brynrefail Llanrug yn cynrychioli tîm dan 19eg Cymru mewn cystadleuaeth sgîo ryngwladol ym Mwlgaria. Yr oedd pedwar tîm yn y gystadleuaeth — Cymru, Bwlgaria, Iwerddon a Lloegr — a daeth Cymru yn drydydd.

Yr oedd deng aelod ymhob tîm a Chris, sy'n 16 oed, wnaeth orau. Daeth ef yn bedwerydd allan o ddeg yn nhîm Cymru ac yn ddeunawfed allan o ddeugain yn y gystadleuaeth gyfan.

Yn anffortunos disgynnodd Tim yn y ddwy ras, ond gan mai 13 oed yw ef mae ganddo ddyfodol disglair fel sgîwr rhyngwladol.

Tipyn o gamp oedd i'r ddau gael eu dewis a hwythau mor ifanc. — Pob lwc iddynt yn y dyfodol.



Timothy (13) yn dilyn ôl sgîs ei frawd.

'HEN' BLANT BACH



Peth braf, rhywfodd, yw sylweddoli nad yw pob person ifanc y dyddiau hyn wedi mopio ar ddawnsio disgo. Dyma i chwi bedair o enethod o Lanrug sy wedi dewis math o ddawnsio sy'n llawer mwy hamddenol — yr 'hen ddull'. Maent yn arddangos medalau a thystysgrifau a enillwyd ganddynt yn ddiweddar ym mhrawf amatur dawnsio dilyniant yr 'United Kingdom Alliance'. Mae'r genethod, (o'r chwith i'r dde), Wendy Jones (medal arian), Carys Lewis (pres), Llinos Davies (arian) a Nia Wyn Jones (arian) yn ymarfer yn rheolaidd bob nos Wener yn yr ysgol gynradd, Llanrug. Eu hyfforddwyr yw Mr a Mrs Hughes Evans.

ECO'R WYDDFA

Rhif 57
MAWRTH 1981

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside|Thomas, Brony Nant, Pont-
rhythallt, Llanrug, (Caernarfon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun. (Penyllyn 438)

TREFNYDD NEWYDDION

YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515).

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis.
(Llanberis 220)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant (Waunfawr 321).
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669).

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Ian
Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (C'fon
3776).

TRYSORYDD: Gwyn Oliver Jones, 58
Pentre Helen, Deiniolen.

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227).

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Sycharth
(Portdinorwic 726)

BETWS GARMON: Mrs Brenda
Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa,
Brynrefail (Padarn 223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Dafydd Price, Tŷ Capel
(Llanberis 550)

DEINIOLEN: Meirion Jones,
Minafon, Clwt-y-bont (Llanberis 452)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas,
Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel

LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce, Swyn
yr Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, Penisarwaun.

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Waunfawr 355)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn, (Waunfawr 626).

TREFNYDD PLYGU: Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.

TREFNYDD BUSNES: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug.

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg ar
26 MAWRTH
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
erbyn 18 MAWRTH
os gwelwch yn dda.

Llythyrau

ATGOFION

Annwyl Olygydd,

Pleser mawr i mi oedd darllen
llythyr diddorol, o eiddo Mr George
H. Jones o Rochdale. Yn yr amser
y mae yn cyfeirio 'roedd fy mrawd
Owen yn gweithio yn y siediau yng
Nghaer yn glanhau Injans Stêm.

Owen Evans o Benisarwaun
cylch Llanberis, 17 oed oedd o ar y
pryd, mae heddiw ar drothwy ei 80
oed.

Cafodd ei symud i Wigan fel
tanwr ar y trenau, fel mae Mr
Jones yn sôn, bu yno am
flynyddoedd. Wedi gorffen ei yrfa
fel tanwr, cafodd ei symud i
Carslisle fel dreifar ar y trenau, yno
y mae yn awr wedi ymgartrefu ac
ymddeol.

Y 'Royal Scott' oedd y trê dan
ei ofal. Lawer gwaith y byddai yn
sôn wrthym fel y byddai yn dreifio y
Frenhines bresennol o Lundain i
Glasgow. Gobeithio y derbynith
Mr George H. Jones yr Eco am y
mis hwn ac y daw atgof am fy
mrawd iddo.

Yr eiddoch yn gywir,
Mrs Mary Pritchard

21 Lawrence Avenue
Moulton
Northwich.

BRONFA GWOBR GOFFA MISS C. MARION LLOYD

Bu farw Miss C.M. Lloyd, Dirprwy
Brifathro'r Coleg Normal ar Awst
23, 1980. Bu'n aelod o Staff y
Coleg ers 1950, ac yn ystod y
deng mlynedd ar hugain o
1950—1980 bu ei dylanwad ar
fywyd y Coleg yn enfawr. Fel
Pennaeth yr Adran Bioleg,
Warden, Deon y Merched a
Dirprwy Brifathro, bu'n ddiflino
yn ei gwasanaeth. Gwyr ei
chydweithwyr ar y Staff yn dda
am ei harweiniad cadarn a
goleuedig fel Dirprwy Brifathro
yn enwedig yn ystod cyfnod yr
ail-drefnu, a bu ei ffydd diwyro yn
nyfodol y Coleg yn ysbrydoliaeth
i bawb. Fe'i cofir hefyd am ei
safonau uchel, ei gwroldeb a'i
hiwmor, ac yn anad unpeth am ei
gonestrwydd di-dderbyn-wyneb.

Mae cenedlaethau o fyfyrwyr
hefyd sy'n cofio gyda pharch am
Miss Lloyd, fel darlithydd, fel
warden ac fel cyfaill. Yr hyn oedd
yn bwysigaf yn ei golwg hi, yn
ddieithriad, oedd lles y
myfyrwyr; bydd llawer yn cofio'n
annwyl amdani, am ei
chefnogaeth a'i haml
gymwynasau, ei chynngor doeth,
a'i chyfiawnder a'i thegwch yn ei
hymwneud â hwy.

Anodd yw mesur maint ei
chyfraniad i'r Coleg, a theimlir
mai teilwng yw cadw ei henw
mewn cof mewn dull a fuasai'n
gymeradwy ganddi hi ei hun.

Penderfynwyd felly sefydlu
'Gwobr Goffa Miss C. Marion
Lloyd', i'w hennill yn flynyddol
gan y myfyrwr sydd wedi
dangos teilyngdod arbennig naill
ai yn academiaidd neu mewn
gwasanaeth i gymdeithas y
Coleg.

Felly rhoddir y cyfle hwn i
bawb sy'n cofio Miss Lloyd
gyfrannu tuag at y Gronfa hon.
Gwerthfawrogir pob cyfraniad,
boed fach neu fawr.

Cadeirydd,
Beti Wyn Williams

Ysgrifennydd,
E. Wendy O. Davies (Miss)

Trysoryddion:
E. Gwyn Morris
Georgina M. Llewellyn (Mrs)

DYDD AGORED YR URDD

Annwyl Olygydd,

Carwn i chwi roi sylw i'r canlynol
yn y rhifyn nesaf o'ch Papur Bro.

1. Cystadleuaeth Penllanw Porthmeirion 1981.

Cynhelir dydd agored yr Urdd
ym Mhorthmeirion eleni ar
ddydd Sadwrn, Mai 2, a chynigir
gwobr ariannol i'r gangen
fuddugol mewn cystadleuaeth i
ddyfeisio Standin neu gêm
wreiddiol. Bydd yn ofynnol
gosod y standin i fyny ym
Mhorthmeirion i'w beirniadu
rhwng 11-12 fel ei bod ar waith o
hanner dydd ymlaen. Enwau i
law a disgrifiad o'r cynllun a
maint y standin i'r Trefnydd
Stondinau, Coetmor,
Penrhyndeudraeth, erbyn Ebrill
13.

2. Penllanw Porthmeirion

Dydd Agored yr Urdd ym
Mhorthmeirion dydd Sadwrn,
Mai 2. 11-15 Adloniant,
stondinau, chwaraeon a mwy.

Hefyd Dawns yn y Ganolfan
nos Sadwrn, Mai 9. Mwy o
fanylion eto.

Yn ddiolchgar am eich
cefnogaeth.

Yn gywir,
Iola Jones

(Swyddog Datblygu)

Swyddfa'r Urdd,

Swyddfa Addysg,

Dolgellau

Ffôn: Dolgellau 423138

RHOIDDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion
tuag at gostau cynhyrchu'r Eco.

£1.00 - Mr Evie Roberts, 2 Rhes
Minafon, Llanberis; Mrs Mary
Pritchard, Moulton, Norwich; Mr
Dafydd Owen, 7 Brynhyfryd,
Penisarwaun; Mrs Williams, 11 Rhes
Victoria, Llanberis.

£1.50 - Cyfaill; H.E. Davies,
Penybryn, Wern Uchaf, Rhuthun.

£2.00 - Mr a Mrs D.R. Jones, Bron
Myfyr, Dinorwig; Mr a Mrs J.E.
Thomas, Bwlch y Gwynt, Dinorwig;
Mr a Mrs C. Lovell, 4 Bro Glyder, Nant
Peris; Mr a Mrs Morris, 4 Tai Marian,
Deiniolen; Mrs J. Lloyd Jones, Peris
View, Llanberis.

£3.00 - Owen Jones, Llangefni; Miss
Lil Roberts (Maen Gwyn, Dinorwig
gynt), Elm Bank, Ffordd Siliwen,
Bangor Uchaf.

£5.00 - Mr a Mrs Tecwyn Jones, Cae
Rhos, Llanrug.

MWY O GYFLE I CHWARAE SBONCEN

Cwblhawyd 4 cwrt sboncen
ychwanegol a adeiladwyd ar y
cyd gan y Brifysgol a Chynngor
Bwrdeisdref Arfon, ac maent ar
agor i'r cyhoedd erbyn hyn yng
Nghanolfan Chwaraeon y
Brifysgol, Ffordd Ffriddoedd,
Bangor. Golyga hyn fod 7 cwrt
sboncen yn awr ar gael i'r
myfyrwyr a'r cyhoedd. Mae wal
gefn o wydr i un o'r cyrtiau
newydd, - cyfleuster ardderchog
ar gyfer gwylwyr. Trefnwyd i
gynnal dwy gystadleuaeth enwog
ym myd sboncen ym Mangor yn
ddiweddarch eleni a gobeithir
gallu cynnal llawer o
gystadleuthau tebyg i'w dilyn.

Yn ogystal â'r cyrtiau sboncen,
mae llawer o gyfleusterau eraill y
Brifysgol ar agor i'r cyhoedd -
gan gynnwys cyrtiau badminton,
y sauna-solarium, cyrtiau tenis,
ystafell tenis bwrdd, ac ystafell
ymarfer corff aml-adnoddau.
Caiff timau lleol logi Meysydd
Chwarae y Brifysgol ar gyfer
cynnal gemau.

Gobeithir y bydd llawer yn
manteisio ar y cyfleusterau hyn.
Am wybodaeth bellach
amdanynt, holer yn Swyddfa
Addysg Gorfforol, Neuadd
Chwaraeon, C.P.G.C., Ffordd
Ffriddoedd, Bangor.

Ydych chi'n cael eich copi o

SBONCYN

yn rheolaidd?

15c bob mis

Ar gael yn y siopau
canlynol

E.A. Hughes, Deiniolen
Snowdon Stores, Llanrug
Siop Bapurau Newydd, Y
Maes, Caernarfon
Siop y Pentan a Siop Eric
Jones, Caernarfon

Llyfr Arlunio Sboncyn -
50c

20 tudalen o gymeriadau
i'w lliwio

Teulu Jac Do - 25c
2 stori am deulu Tŷ Corn,
ac un am eu cefnder -
Shenan Do, sheriff dewraf
America
Hefyd gêm liwgar tu
mewn!

Cofiwch am
Pyped llaw a thegan Jac
Do
Bathodynau a Chrys-T
Jac Do

LLANRUG

UN NOS OLA LEUAD – Bydd y bws a drefnwyd i fynd i Theatr Gwynedd nos lau, Mawrth 5, yn cychwyn o Dan-y-coed am chwarter wedi chwech, yn mynd o amgylch y pentref ac yn cychwyn yn brydlon o'r Sgwâr am chwarter i saith. Os nad ydych yn bwriadu dod gyda'r bws, a fuasech yn rhoddi gwybod i Mrs Eirlys Pierce, os gwelwch yn dda.

LLONGYFARCHIADAU – i Eilir ac Anwen Williams, 3 Rhedai Minffordd ar enedigaeth merch, Bethan Eilir, chwaer i Catrin.

Dymunent ddiolch i'w perthnasau a'u cyfeillion am lu o anrhegion a chardiau.

I Dafydd Arfon a Rhian, 3 Minffordd ar enedigaeth mab, Meilir Rhys, brawd i Sioned Mair.

Hefyd i Anthony a Maureen Williams, Antmor, Bryn Moelyn, ar enedigaeth merch, chwaer i Dylan.

BEDYDDIO – Yn Eglwys Sant Mihangel, brynhawn Sul, Chwefror 8 bedyddiwyd dwy gyfnither; Ruth Ann, merch fach Eifion a Gwyneth Evans, 18 Glanmoelyn, a Cheryl Ann, merch fach Edwin a Janice Jones, 19 Bro Rhyddallt. Gwasanaethwyd gan y Rheithor, y Parchedig D. Gwynfor Williams.

Pnawn Sul, Ionawr 25 yng Nghapel Pontrhythallt â'r Gweinidog, y Parch W.O. Roberts yn gweinydd, bedyddiwyd Gareth Owen, mab bychan Norman a Carys Wyn Jones, Clydfan, Capel Coch, Llangefni.

PRIODAS – Dydd Sadwrn, Chwefror 7 priodwyd Gareth W. Hughes a Sharon Jones yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen. Mae'r ddau yn aelodau ffyddlon iawn o'r Seindorf. 'Roedd 'guard of honour', sef chwech o aelodau'r Seindorf yn eu disgwyl y tu allan i'r Capel.

NEWYDDION Y SEINDORF – Ar Chwefror 3 cymerwyd rhan mewn cyngerdd yn Theatr Seilo gan grŵp o'r Seindorf. Bydd y grŵp yma yn cynnal noson yn Hafan Elan ar Fawrth 4. Daeth y Seindorf yn wythfed allan o 26 o fandiau yn Neuadd y Dref, Bolton ar Chwefror 15. Ein llongyfarchion iddynt.

Nos Fercher, Mawrth 25 o dan nawdd y Seindorf cynhelir noson o Gawl a Chân yng nghwmni Dafydd Iwan yn yr Ysgol Gynradd am 7 o'r gloch.

Nos lau, Mawrth 26 bydd Cyfarfod Cyffredinol y Seindorf yn Ystafell y Seindorf am 7 o'r gloch.

CYMDEITHAS LENYDDOL, CAPEL MAWR – Nos lau, Ionawr 29 cafwyd noson ddi-fyr ac addysgiadol o dan ofal Mr Vernon Hughes, Llanberis. Dangosodd ffilmiau ar waith yr Awdurdod Dŵr. Llywydd y noson oedd y Parch W.O. Roberts a diolchwyd i Mr Hughes gan Mr J. Nyn Owen a Mrs J. Parry, Morannedd. Yr oedd y te yng ngofal Miss Owen, 3 Hafan Elan a Mrs M. Pritchard, 4 Hafan Elan a Mrs D. Jones, Tegerin.

"Fy Newis I", o dan lywyddiaeth Mrs Nancy Lovatt oedd cyfarfod Chwefror 12. Rhoddodd Mrs Jean Davies, Plas Gwyn a Mr Arwel Jones, Gwên y Wawr, ddetholiad o'u hoff recordiau, gyda'u rhesymau am eu dewisiad. Yr holwr oedd Mr Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol. Diolchwyd i bawb gan Mrs Lola Butler, Haddef yn cael ei chefnogi gan Mrs Dora Jones, Y Fedwen a Mrs Nancy Jones, Madryn.

GWELLHAD BUAN – Anfonwn ein cofion am wellhad buan i Mrs Pritchard, Tŷ Newydd, Mrs Dixon, Bryn Eden a Mr Tom Davies, Llys Alaw sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty.

Da deall bod Euros Lyn, Sycharth, Bryn Moelyn, Mrs Mary Roberts, Bedw Gwynion, Mrs Evelyn Parry,

Talybont, Gwen Williams, Tanygaer a Mrs Eirianwen Thomas, Bron y Nant wedi dod adref. Ein dymuniadau am adferiad buan iddynt hwythau, ac hefyd i Olwen Meredydd Jones, Gwên y Wawr ar ôl damwain. Gobeithio bydd dy fraich yn gwella'n gyflym, Olwen.

CLWB BLODAU'R GRUG – Ein dymuniadau gorau am adferiad llwyr a buan i rai o aelodau'r Clwb sydd yn wael ac mewn gwahanol ysbytai.

Cynhelir cyfarfod ddydd lau, Mawrth 12.

Y GOBEITHLU – Cynhaliwyd tri chyfarfod, a dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Nia Lewis, Dwyfor, Wendy Morris, Clydfan, Siân Jones, 60 Glanffynnon, Lowri Angharad Roberts, Bedw Gwynion, Ceryl Mair Roberts, Elan Wen a Bethan Lloyd Roberts, Meifod. Cymerwyd rhan mewn canu ac adrodd gan nifer fawr o'r plant. Dangoswyd ffilmiau a neges o'r Beibl ynddynt gan Mrs N. Roberts, Anedd Wen, gyda Mr John Williams, Gweledfa yn cynorthwyo. Mrs Mair Jones, Ogwen oedd yn cyfeilio yn y cyfarfodydd.

CANOLFAN HAFAN ELAN – Mwynhawyd noson ddi-fyr yng nghwmni Parti Mr Huxley Thomas, Llanberis.

CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR – Nos lau, Chwefror 5, cafwyd Noson Goffi. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs N. Roberts, Anedd Wen. Anfonwyd cofion at chwiriorydd oedd yn wael gartref ac mewn ysbyty. Diolchwyd am roddion a dderbyniwyd. Gwnaed trefniadau ar gyfer Cyfarfod Gweddi Chwiorydd y Byd a gynhelir ar Fawrth 6 yng Nghapel Tan-y-coed. Cyflwynodd y Trysorydd y fantolen am y flwyddyn a hysbysodd y llywydd fod Mrs Jones yn dymuno cael ei rhyddhau o'i swydd ar ôl wyth mlynedd o wasanaeth gwerthfawr. Diolchodd y llywydd i Mrs Jones, Ogwen am ei gwasanaeth ac hefyd i Mrs Thomas, Gerallt, yr ysgrifenyddes. Etholwyd Mrs Dorothy Jones, Tegerin yn Drysorydd newydd, a dymunwyd yn dda iddi yn y gwaith. Cyflwynwyd rhodd i Drysorydd y Capel o Gronfa'r Chwiorydd. Rhoddwyd y coffi gan Mrs Evans, Lloc a Mrs Owen, Glasgoed. Bydd y Noson Goffi nesaf, ar Fawrth 12 am saith o'r gloch.

CYFARFOD MISOL, ARFON – Dydd Gwener, Ionawr 23 ymwelodd Henaduriaeth Arfon â'r Capel Mawr a chafwyd cyfarfod bendithiol iawn. Cyflwynodd y llywydd, Mr D. Glynne Owen, Pontrhythallt y Gadair i'w olynydd y Parch D. Lloyd Williams, Bangor. Y Siaradwr Gwadd oedd Mr Dafydd Wigley, A.S. Rhoddodd Mr Wigley anerchiad byw ac amserol ar y testun, 'Cenadwri'r Eglwys mewn Cyfnod o Ddirwasgiad'. Croesawyd yr Henaduriaeth yn gynnes ac yn anrhydeddus iawn gan chwiriorydd yr eglwys, Mrs N. Lovatt, Brwynog oedd y cyfeilydd.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL – Nos Fawrth, Chwefror 17 bu'r Mri Iwan Owen a Glyn Jones, yn dangos lluniau o'r golygfeydd a welir wrth deithio ar y trên bach o Borthmadog i Tanygrisiau.

Maent i'w llongyfarch yn fawr am raglen yn cynnwys lluniau ardderchog.

Llywydd y noson oedd Mr Emrys Owen a thalwyd y diolchiadau gan Mrs Williams, Bod Fair a'r Parch W.O. Roberts.

Nos Fawrth, Chwefror 3, daeth Mr Alwyn Owen, Porthaethwy, sy'n ddarlithydd yng Ngholeg y Brifysgol Bangor i roi sgwrs ac eglurhad ar Fyd y Microprosesor.

Llywyddwyd yn deheuig iawn gan Mrs M. Lloyd Williams, a thalwyd

diolch i Mr Owen gan Mr G. Jones-Evans a Mr T.W. Thomas.

TOMBOLA – Cynhelir Tombola o dan nawdd Undeb y Mamau, er budd Pland Dan Anfantais Meddyliol yn yr Ysgol Gynradd ar nos lau, Ebrill 30 am 7 o'r gloch.

UNDEB Y MAMAU – Cynhaliwyd Cyfarfod o Undeb y Mamau yn y Rheithor y pryd y cymerwyd y gwasanaeth agoriadol gan y Rheithor. Mrs Williams, Y Rheithor oedd yn llywyddu dros y cyfarfod busnes. Y siaradwr gwadd oedd Mrs J.E. Watkins, Cwm-y-glo a rhoes sgwrs diddorol ar wyliau a dreuliodd yn Sbaen a Gogledd Affrica. Dangosodd nifer o sleidiau lliwgar o'r daith. Diolchwyd iddi gan nifer o'r aelodau. Y westwraig oedd Mrs D. Pierce, Glan'rafon a diolchwyd iddi hithau gan nifer o'r aelodau. Diweddiwyd y cyfarfod drwy weddi.

MYNWENT SANT MIHANGEL – Mewn cyfarfod o'r Cyngor Plwyfol Eglwysig, penderfynwyd gwneud apêl am gyfraniadau tuag at Gronfa'r Fynwent, a byddwn yn ddiolchgar am bob rhodd boed fawr neu fach. Penderfynwyd hefyd hysbysu am rywun i dorri'r gwair a thaclo'r fynwent. Diolchwn am y rhoddion canlynol: Emyr Jones, Hafan Elan: £2; Di-enw: £2.

LLONGYFARCH – Ein llongyfarchion i John Wyn Griffiths, Tan y Fron ar fod yn llwyddiannus mewn arholiadau ynglŷn â'i waith fel argraffwr. Ymlaen y bo'r nod.

CYDYMDEIMLWN – Â Mr Eلفed Roberts a'r teulu, 24 Glanffynnon, yn eu profedigaeth o golli tad Eلفed.

DIOLCH – Dymuna Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar, ddiolch i Brifathro, Athrawon, Plant a Staff y Gegin, Ysgol Gynradd Llanrug am yr anrhegion a'r dymuniadau da ar ei

hymddeoliad.

MERCHED Y WAWR – Nos Fercher, Chwefror 10, o dan lywyddiaeth Miss Phyllis Ellis, cynhaliwyd cyfarfod o Gangen Llanrug o Ferched y Wawr, yn yr Ysgol Gynradd.

Y gŵr gwadd oedd John Ogwen. Braint a mwynhad oedd cael y cyfle i wrando ar yr actor dawrus hwn yn rhoi cipolwg inni ar ei brofiadau fel actor, ac fel sylwedydd.

Cyflwynodd John Ogwen inni rannau o nofel enwog Caradog Prichard 'Un Nos Ola Leuad'. Hefyd cawsom ganddo beth o gefndir y nofel, cyfraniad o werth arbennig ini fel cangen a ninnau yn edrych ymlaen at weld addasiad llwyfan John Ogwen o'r nofel yn Theatr Gwynedd, Mawrth 5, a John Ogwen ei hun yn chwarae rhan y prif gymeriad.

Diolchwyd i'r gŵr gwadd gan Mrs Ann Evans, (cyd-ddisgybl ag ef yn Ysgol Bethesda) a Mrs Ann Llwyd Jones.

Anfonwyd cyfarchion y gangen i Mrs Jennie Rees Hughes a Mrs Mary Roberts, y ddwy yn yr ysbyty.

Llongyfarchwyd Mrs Rhian Jones, Ystad Minffordd a'i phriod ar enedigaeth eu mab, Meilir.

Croesawyd Mrs Lovatt yn ôl o Ganada a llongyfarchwyd hi ar enedigaeth Shaun William i'w merch yng Nghnada.

Rhoddwyd y te gan Mrs Joan Griffith, Mrs Lola Humphreys, Mrs Nan Jones, Mrs Megan Owen, a Mrs Owen, Glasdy. Diolchwyd iddynt gan Mrs Myfi Roberts.

Bydd y cyfarfod nesaf o'r gangen ar Fawrth 10, pryd yr ymunir â ni gan gangen Bethel o Ferched y Wawr.

Enillydd y raffl oedd Mrs Lovatt. **FAN SGLODION A PHYSGOD** – Bydd y fan yn y pentref bob dydd Mawrth o 6 o'r gloch ymlaen.



Gareth W. Hughes a Sharon Jones ar ôl eu priodas yn ddiweddar. Gweler yr hanes yng ngholofn Llanrug.

PENCAMP WYR DARTIAU HAFAN ELAN



Mr Elwyn Jones (chwith) oedd enillydd pencampwriaeth ddartiau Hafan Elan yn ddiweddar. Derbyniodd ei darian oddi wrth Mr Emrys Owen (canol) trefnydd yr ornest ar ôl curo Mr Cecil Williams (de) yn y rownd derfynol. (Rhoddwyd y darian i'r Ganolfan gan ŵr busnes lleol.)

LLANBERIS

DIOLCH - Dymuna Mr Evie Roberts, 2 Rhes Minafon ddiolch o galon i berthnasau, cyfeillion ac yn arbennig i'r cydmodigion am y nifer o gardiau a phob math o anrhegion a dderbyniodd yn ystod ei arhosiad yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor.

RAS DRAWS GWLAD - Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant yn y ras draws gwlad a gynhaliwyd ym Mangor ddydd Gwener Chwefror 13 - Dan 13: genethod, 2il. Petula Williams. Bechgyn, 7ed. Darren Roberts. Dan 15: 1af. Melanie Sellar, 2. Carol Prydderch.

Llongyfarchiadau hefyd i Melanie Sellars am ddod yn 3ydd mewn ras Draws gwlad dan 15 oed ddydd Sul, Chwefror 15 yng Nghei Connah, ac hefyd i Paul a Jason Roberts am ddod yn 6ed a 7ed o dan 13 yn yr un lle.

Daliwch ati blant, rydych yn dod â chlod i'ch ysgol a'ch pentref.

PWYLLGOR Y GANOLFAN IECHYD - Dymuna'r pwyllgor uchod ddiolch i deulu'r diweddar William Evans, Pen-y-Bwlch, am y rhodd haelionus o £105.00 a dderbyniasant er cof annwyl amdano.

PLAID CYMRU - Nos Iau, Ionawr 15 cafwyd Noson Goffi yn y Ganolfan. Croesawyd Mr Aled Gruffydd, trefnydd newydd Etholaeth Arfon, i'r cyfarfod.

Trafodwyd gweithgareddau'r misoedd sy'n dilyn. Cynhelir Cinio Blyneddol Gŵyl Ddewi yng ngwesty Bron Eryri ar nos Sadwrn, Chwefror 28 am 7.30. Pris y tocynnau fydd £5.50, gan gynnwys adloniant, a byddant ar werth gan Ann Pritchard a Bert Parry.

Ar Fawrth 12 cynhelir Ffair Wanwyn yn y Ganolfan. Telir hanner yr elw tuag at Ysgol Pendalar a'r gweddill tuag at gostau lleol y gangen. Derbynnir rhoddion yn ddiolchgar gan Ann Pritchard, Bert Parry ac aelodau'r pwyllgor. Agorir y noson gan Mrs Catherine Jones, prifathrawes Ysgol Pendalar.

CLWB METHEDIG ERYRI - Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod dan lywyddiaeth Matron Annie May Jones ac i'w chynorthwyo 'roedd Mr Oswyn Rees, Caernarfon, Mrs Babbs, Mrs Griffith Owen a Mrs Helen Roberts. Cyfeiriwyd at amryw o'r aelodau sydd yn cwyno ac yn methu gadael eu cartrefi. Dymunwyd adferiad llwyr yn fuan iawn iddynt oll. Penodwyd Mrs Nellie Williams, 'Baladeulyn', Stryd Newton yn ysgrifennydd a Mr Iorwerth Jones, Maes Eilian yn drysorydd am 1981.

Y SGOWTIAID - Bu deg o sgowtiau Llanberis yn gweryslla ger Aber yng nghwmni sgowtiau o Fangor. Cawsant amser prysur, ond er hynny difyr dros ben. Dyma'r tro cyntaf iddynt fod yn gweryslla, ac er bod y tywydd yn go arw cawsant amser bythgofiadwy, a phob un ohonynt yn dyheu am yr haf pryd y bydd yn bosibl trefnu rhywbeth tebyg eto.

UNDEB Y MAMAU - Ar ddechrau'r mis cyfarfu aelodau Sant Peris a Sant Padarn o Undeb y Mamau dan lywyddiaeth y Canon Alun Jones. Cafwyd cyfarfod difyr pryd y dangoswyd ffilmiau gan y Canon Alun Jones o weithgareddau'r Nadolig - 'Y Pasiant Nadolig' - a'r 'Parti Nadolig. Trefnwyd rhan o'r prynhawn i gynnal y Pwyllgor Blyneddol. Ail-etholwyd y swyddogion am 1981 - a diolchwyd iddynt gan Miss Catherine Gillespie am eu ffyddlondeb cyson yn ystod y flwyddyn a aeth heibio a dymunodd iddynt bob llwyddiant i'r dyfodol.

CYNGERDD - Cynhaliwyd cyngerdd eithriadol o lewyrchus un nos Sul yng Nghapel Coch a'r elw at y Gronfa Leol 'Ymchwil yr Iau ar Blant'. Y llywydd

oedd y Parch John Hugh Hughes ac arweiniwyd y noson gan Stewart Jones. Cymerwyd rhan yn y rhaglen gan Hogiau'r Wyddfa, Trebor Edwards, Rosalind a Myrddin, Seindorf Arian Llanberis, Rhian Owen a Pharti Genethod Llanberis.

YR YSGOL FEITHRIN - Dal i geisio codi arian mae rhieni plant yr Ysgol Feithrin - ac maent yn dra diolchgar i bawb am eu cefnogaeth. Trefnwyd Bingo dan arweiniad Mr William Roberts, a'r enillwyr oedd 1. Mrs Vera Newton, 2. Pete MBZ, 3. Mrs Bolton, Nant Peris; 4. Mrs Sadie Humpherys; 3. Mrs Nellie Morris; 6. Mrs Nan Griffiths.

Dymuna Mrs Eiddwen Thomas, yr ysgrifennydd, ddiolch i bawb am eu presenoldeb, ac i'r cyfeillion hynny a roddodd y gwobrau ac i Mr W. Roberts am ei gyfraniad gwerthfawr.



Plant y Dosbarth tua'r Nadolig. Nid yw'n rhy hwyr i ddangos y plantos yn mwynhau eu hunain gyda Santa.

CLWB YR HENOED - Fel pob blwyddyn bydd Pwyllgor Clwb yr Henoed yn trefnu ar gyfer dathlu 3ŵyl Ddewi, ac yn y pwyllgor diwethaf cafwyd gwybodaeth gan yr ysgrifennydd, Miss Annie Jones, fod Gwesty'r Fictoria yn barod iawn fel arfer i groesawu'r aelodau i giniawa ar bnawn dydd Iau, Mawrth 5, a disgwylir i'r aelodau sydd yn awyddus i fynd, roddi eu henwau i'r aelod o'r pwyllgor sydd yn gofalu am eu rhan hwy o'r ardal, neu i'r ysgrifennydd.

Yn y pwyllgor cyfeiriwyd at ymddiswyddiad Mrs Roberts, Llanrug o'r pwyllgor. Mae ei phriod sy'n Arolygydd yr Heddlu wedi ei symud i Dowyn ac mae'n rhaid cartrefu yno. Dywedodd Mrs Roberts yn ei llythyr gymaint yr oedd wedi mwynhau cydweithio â'i chyfeillion ar y pwyllgor a'r pleser dibendraw a gafodd o geisio rhoi rhyw ychydig fwyniant i'r henoed. Cyfeiriodd y llywydd, Mrs M. Bryn Hughes at ffyddlondeb a gweithgarwch Mrs Roberts hyd yn oed pan symudodd i fyw i Llanrug. Bydd colled fawr i'r pwyllgor ar ei hymadawiad ond dymunir iddi hi a'i theulu bach bob bendith a dedwyddwch yn ei chartref newydd yn Nhywyn.

Cyfeiriodd y llywydd hefyd at y rhoddion a dderbyniwyd yn ddiweddar. Cyflwynwyd siec sylweddol iawn i'r clwb gan Mrs Marian Roberts, sir Fôn, nith y ddiweddar Mrs Rosie Hughes, Llainwen Isaf, fel gwerthfawrogiad o'r pleser a gafodd ei modryb yn y clwb. Hefyd derbyniwyd siec gan bwyllgor y Gymuned at weithgareddau'r clwb.

PRIODAS - Ar Ionawr 10 priodwyd Robert, mab Mrs Williams a'r diweddar Robert Williams, 11 Rhes Victoria, a Ruth, merch Mr a Mrs Morgan Jones, 19 Stryd Garnon, Caernarfon, yn Eglwys y Santes Fair, Caernarfon. Bydd y pâr ifanc yn ymgartrefu yn 24 Caeau Bach, Stad Hendre, Caernarfon.

Bydd colled fawr i ardal Llanberis o gollu Robert. Mae wedi bod mor ffyddlon i'w fam er colli ei dad, ac wedi ymddiddori yn yr achos yng Nghapel Coch yn ddiwyd a ffyddlon



dros y blyneddod. 'Roedd yn uchel ei barch gan bawb.

Dymunir iddo ef a'i briod bob bendith a dedwyddwch yn eu bywyd priodasol.

DIOLCH - Dymuna Elwyn a Helen o Brampton (gynt o Rock Terrace), ddiolch i'r teulu a'u ffrindiau oll, am y llu cardiau a'r anrhegion a gawsant ar enedigaeth eu mab bach, Dylan.

Hefyd, dymuna Mrs R. Williams, 11 Rhes Fictoria, ddiolch am yr holl ddymuniadau da, y cardiau, yr anrhegion a'r cyfarchion caredig ar achlysur priodas ei mab, Robart.

Dymuna Mrs J. Lloyd Jones, Peris View ddiolch am yr holl ddymuniadau da a'r anrhegion a dderbyniodd tra'r oedd yn yr ysbyty ym Mangor yn ddiweddar.

GARTRE - Pleserus iawn yw croesawu cyfeillion gartre wedi ysbaid yn yr ysbyty. Yn ystod y mis dychwelodd y rhai a ganlyn gartre o wahanol ysbytai ac y maent yn gwella yn foddhaol: Mrs Betty Parry, Glan-y-don; Mr Dafydd Roberts, Sŵn y Gwynt; Mrs Meiriona Rowlands, Stryd Siarlot; Mrs Hettie Hughes, Stryd Siarlot; Mrs Garlside, Y Fferyllydd, y Stryd Fawr; Mrs Arthur Roberts, Gwyndy, Dôl Eilian; Mrs Edith Hughes, 'Cadfan', Stryd Goodman.

YN YR YSBYTY - Wedi ei symud o'r ysbyty ym Mangor, i ysbyty Eryri, Caernarfon, mae Mrs Parry-Davies, Pen y Graig.

Yn Ysbyty Gobowen, yn derbyn triniaeth llawfeddygol mae Janet, merch Mr a Mrs Hughes, 'Beech Bank'.

Yn yr ysbyty yn Ninbych mae Miss Hughes, Stryd Tomos.

Dymunir iddynt adferiad llwyr yn fuan iawn.

MARW - Yn ei chartref, Dôl Eilian, bu farw Mrs Mary Thomas. Bu yn fregus ei hiechyd ers amser maith. Roedd yn gymeriad hynod o dawel a charedig, ac wedi ei geni a'i magu yn yr ardal. Cydymdeimlir â'i mab a'i merch, y teulu a'r llu cyfeillion yn eu profedigaeth.

CYMDEITHAS LENYDDOL CAPEL LLANBERIS - Chwefror 2, cawsom gwis diddorol iawn gan Mrs Dilys Baylis, a phawb a fentrodd allan, ar noson mor ofnadwy, wedi dysgu llawer oddi wrth y cwestiynau a ofynnwyd.

Chwefror 16, cafwyd cinio ardderchob yng Ngwesty Bron Eryri i

gloi'r tymor. Diolch yn fawr i'r Parch M.W. Robinson, BD, Mr Hugh R. Jones a Mr Irfon Ellis am ofalu am yr adloniant ar ôl y cinio.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Yn ein cyfarfod mis Ionawr cawsom gwmi y Dr Llŷr Gruffydd, Goruchwyliwr Oriel Eryri, ac ar ôl dangos ychydig o luniau yn dangos effaith Oes yr Iau ar ein hamgylchedd, cawsom ddarlun clir iawn o bwmpas yr Oriel, ac o'r gweithgareddau fydd yn mynd ymlaen yno. Y mae yn amlwg y bydd yr Oriel o fudd mawr i'r ardal, ac yn arbennig i fyfyrwyr a phlant ysgol.

MARWOLAETH - Yn dawel yn ei gwsg, ar Chwefror 14 bu farw Mr Oakley Jones, 6 Stryd yr Wyddfa. Roedd yn 85 oed ac wedi gofalu yn dyner iawn am ei briod oedd yn wael ei hiechyd ers amser maith. Yn wir, roedd ei briod yn dibynnu yn gyfan gwbl arno i'w chynorthwyo i godi o'i gwely, i'w dilladu, a'i helpu i fwyta a'i symud drwy'r dydd. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Nant Peris ar Chwefror 17 gyda'r Parch Alun Jones yn gwasanaethu.

LLONGYFARCHIADAU - Estynnir llongyfarchiadau i Mr a Mrs Dafydd Roberts, Arfryn, ar fod yn nain a thaid unwaith eto. Ganwyd merdh fach, Meleri, i Nerys.

CYDYMDEIMLAD - Deallwn bod Hugh R. Jones, Bryn Pair, Stryd Fawr wedi colli ei frawd a fu yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd am rai wythnosau. Estynnir y cydymdeimlad dwysaf iddo yn ei brofeidgaeth.

DIOLCH - Dymuna Matron, staff a thrigolion Plas Pen Gwaith ddiolch o galon i Mrs Vyrnwy Jones a phawb a gyfrannodd er budd y cartref er cof am Dr Vyrnwy Jones.

FAN SGLDION A PHYSGOD - Bydd fan yn y pentref bob dydd Mercher o 5 o'r gloch hyd 7 o'r gloch; ac o 9 o'r gloch hyd 11 o'r gloch.

PLAID CYMRU - Nos Iau, Mawrth 12, cynhelir Ffair Wanwyn yn y Ganolfan am 7.30 p.m. Eleni, rhennir yr elw rhwng Ysgol Pendalar, Caernarfon, a chostau'r gangen leol. Agorir y ffair gan Mrs Catherine Jones, Prifathrawes Ysgol Pendalar. Derbynnir rhoddion a nwyddau yn ddiolchgar gan Mrs Ann Pritchard, Madryn. Croeso cynnes i bawb.

POSAU DYFRIN Y DEWIN

Aeth dau ffrind am dro i fyny'r Wyddfa. Roedd ganddynt lond tun o sudd oren, un cwpan ac un mwg. Roedd peint o sudd oren yn y tun, ac yr oedd hwnnw'n llawn i'r ymyl. Yn anffodus, ni wyddai'r un o'r ddau faint o sudd a ddaliai'r cwpan a'r mwg. Sut y gallodd y ddau ffrin rannu'r sudd oren fel bod y ddau yn cael hanner peint o sudd oren yr un?

Bistro

45 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: PADARN 278

Pryd gorau'r fro.

TRADDODIAD A CHOEL

gan

'Yr Hen Dderwydd'

Mae cyfnod y Grawys yn cynnwys nifer o Suliau â thraddodiadau arbennig ynglŷn â hwy. Mae'r pedwerydd Sul cyn y Pasg yn cael ei alw'n Gymraeg - 'Sul y Meibion' ond 'Sul y Mamau' yn Lloegr (sef 'Mother's Day'). Dyma, yn ôl traddodiad y Sul pan fyddai gweision a phrentisiaid yn anrhegu eu mamau. Ychydig o gyfeiriadau sydd at y traddodiad hwn yng Nghymru - gan mwyaf yng Ngwent ac ar y gororau'n y de.

Mae dau enw ar y pumed Sul yn y Grawys: 'Sul y Pys' a 'Sul y Gwrychon'; y ddau enw'n cyfeirio at fwyd oedd yn rhan annatod o fwydlen pawb yn ystod y Grawys. Awgrymwyd mai pys oedd gwrychon hefyd; pys wedi eu socian dros nos mewn dŵr, llefrith neu win, ac yna eu berwi a'u bwyta. Credai llawer o'r 'hen bobl' ei bod yn anlwcus bwyta pys cyn y Grawys.

'Sul y Blodau' yw'r Sul cyn y Pasg wrth gwrs, a dyma'r adeg pan gaiff y beddau'n y mynwentydd eu haddurno â blodau. Paratoad ar gyfer gŵyl Basg yr Atgyfodiad yw hyn wrth gwrs, er bod rhai gwyliau eraill yn cael eu cysylltu â rhoi blodau ar feddau; yn fwyaf arbennig Sul y Pasg ei hun a'r Sulgwyn.

Gwyliau eraill sy'n cael eu dathlu, neu sy'n gysylltiedig â mis Mawrth yw 'Gŵyl Ddewi', wrth gwrs ar Fawrth 1 - gŵyl bwysig i Gymry oddi cartref yn hytrach nag yma yng Nghymru mae'n debyg; er bod llawer o giniawa ar ddechrau Mawrth i 'gofio' am Ddewi. 'Gwnewch y pethau bychain' oedd cyngor Dewi a buddiol fyddai cofio hynny heddiw.

Ar Fawrth 12 mae'r Saeson yn dathlu Gŵyl Gregory a ddaeth a Christnogaeth i'r Eingl-Sacsoniaid yn ôl pob hanes. Er mai yn Lladin yr ysgrifennodd Gregory, cafodd llawer o'i weithiau eu cyfieithu i'r Sacsoneg gan y Brenin Alfred.

Daw 'Dydd Gŵyl Sant Padrig' ar Fawrth 17 i gofio am nawddsant Iwerddon. Mae'r feillionen samrog yn cael ei chysylltu â'r sant hwn. Y goel yw fod Padrig wedi defnyddio'r planhigyn i egluro'r Drindod - gan fod tair deilen i'r samrog.

I ddiweddu'r mis daw 'Gŵyl Fair' ar Fawrth 25. Dyma'n draddodiadol y dydd yr ymddangosodd yr angel i Fair Forwyn i'w hysbysu mai hi oedd i roi genedigaeth i Fab a ddeuai'n Waredwr y Byd. Dyma ddydd a oedd hefyd yn nodi diwedd chwarter cyntaf y calendr a byddai llawer o gontractau cyfreithiol yn cael eu harwyddo ar y dydd hwn.

PRIS CINIO YSGOL I GODI - OND YSTYRIAETH ARBENNIG I'R ANGHENUS

Mewn cyd-gyfarfod o Bwyllgor Polisi ac Adnoddau a Phwyllgor Cyllid Cyngor Sir Gwynedd, cytunwyd i argymhell codi pris cinio ysgol i 50c o fis Medi 1981.

Eglurodd y Cadeirydd, y Cyngorydd Tom Jones, Llanuwchllyn, mai polisi'r Cyngor oedd cyfyngu prydau am ddim yn unig i blant o deuluoedd sy'n derbyn un ai Budd-dal Atodol neu Atodiad Incwm Teuluol.

Pwysleisiodd y Cyngorydd Mrs Betty Williams, Is-gadeirydd

y Pwyllgor Gwasanaethau Cymdeithasol, fodd bynnag, fod y Cyngor Sir eisoes wedi rhoi £5,000 o'r neilltu er mwyn rhoi cinio rhad i blant o deuluoedd na ddaw i mewn i'r ddau gategori uchod, ond sydd er hynny angen help i dalu am brydau ysgol i'w plant.

Meddai'r Cyfarwyddwr Addysg, Mr Tecwyn Ellis, "Mae Cyngor Sir yn ymwybodol bod rhai teuluoedd yn cael eu dal yn y trap tloidi ac o'r herwydd mewn angen. 'Rydym yn fodlon rhoi ystyriaeth arbennig i achosion o'r math. Anfonwyd eisoes at

bob rhiant yn y sir i egluro hyn. "Dylai unrhyw deulu sydd angen help gysylltu yn y lle cyntaf â'r Swyddfa Addysg Ranbarthol yn Llangefni, Llandudno, Caernarfon a Dolgellau. Rhif Swyddfa Caernarfon yw 4121.

"Gellir ychwanegu fod yr Awdurdod Addysg yn barod hefyd i ystyried rhoi help i blant uwchradd tuag at brynu gwisg ysgol yn ogystal â rhoi grant cynhaliaeth i blant yn y Chweched Dosbarth. Lle bo'r rheini am wneud cais, cysyllter eto â'r Swyddfa Ranbarthol.

Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Maldwyn a'i Chyffiniau 1-8 AWST 1981

DYMA'R NEWYDDION

400 o Stiwardiaid

Mae angen 400 o wirfoddolwyr yn enwedig pobl leol i stiwardio yn ystod yr Eisteddfod. Gellir cael ffurflenni o Swyddfa'r Eisteddfod.

Galw'r Carafanwyr

Dylai pawb sydd am garafanio yn ystod yr Eisteddfod anfon i'r Swyddfa am y ffurflenni cais.

DYDDIADAU CAU

Ebrill 1, 1981

Pob cyfansoddiad yn Adrannau Llenyddiaeth, Drama, Cerdd etc., i fod yn llaw'r Trefnydd oni nodir yn wahanol am gystadlaethau arbennig.

Ebrill 10, 1981

Enwebiadau ar gyfer Medal Aur Pensaerniaeth ac ymgeisiadau Arddangosfa Pensaerniaeth i fod yn llaw'r Trefnydd.

Ebrill 24, 1981

Ffurflenni Adran Celfyddyd a Chrefft i fod yn llaw'r Ysgrifennydd Pwyllgor Celfyddyd a Chrefft.

Codwch y ffôn

Os am wybodaeth bellach, bydd merched y Swyddfa yn barod i'ch helpu. Hefyd, mae'r Ysgrifennydd Tocynnau yn barod i'ch cyfarfod ar ddydd Sadwrn neu ddydd Sul os oes angen.

Cofiwch TOCYN WYTHNOS Dosbarth Cyntaf dim ond £35 am wythnos lawn o adloniant.



Manylion pellach oddi wrth
Osian Wyn Jones, Trefnydd,
Swyddfa'r Eisteddfod, Heol y Doll,
MACHYNLLETH, Powys SY20 1BR
Teliffon Machynlleth (0654) 2801

O FEWN EICH CYRRAEDD

O6190 – O CHWECH I NAW DEG!

Sylwch fod y teitl yn aros yr un fath hyd yn oed ar ei ben i lawr!

O'R GORLLEWIN GWYLLT

Baner enwog iawn yn hanes America yw baner wedi ei haddasu o faner Mecsico. Ei henw yw Baner yr Alamo. Hen gaer genhadol gan y Sbaenwyr oedd Alamo yn agos i San Antonio, Texas. Yma, bu brwydr enwog rhwng Texas a Mecsico yn y rhyfel 1835-36.

Tiriogaeth Sbaen oedd Texas, ond pan ddaeth Mecsico yn annibynnol, hawliodd Texas fel rhan o'r wlad newydd. Arweinydd creulon oedd Antonio Lopez de Santa Anna ac nid oedd pobl Texas yn fodlon iawn iddo fod yn rheolwr yn enwedig ar ôl iddo dorri cytundeb 1824. Aeth pethau mor ddrwg nes i ryfel dorri allan yn 1835. Aeth pobl Texas i ofyn cymorth gan America, a daeth llawer tua'r de i'w helpu. Ymhlith y 180 o ddynion a oedd yn ceisio amddiffyn caer yr Alamo, 'roedd Davy Crockett a Jim Bowie. 'Roedd 4,000 o filwyr Mecsico yn ymosod arnynt.

Yn ystod y cyrch, gwnaeth y Texans faner iddynt eu hunain – un debyg iawn i faner Mecsico. 'Roedd tri lliw ar y faner – gwyrdd yn cynrychioli gobaith, gwyn yn cynrychioli heddwch a choch i gynrychioli undeb, ond yn lle eryr a neidr Mecsico yn y canol, rhoddodd y Texans y dyddiad 1824 yn fawr arni. Dyma ddyddiadu torri'r cytundeb gan Santa Anna.

Am 12 niwrnod daliodd y 180 eu gafael yn y gaer, ond o'r diwedd, y 4,000 o Fecsico a orfu. "Cofiwch yr Alamo" oedd bloedd ryfel y Texans eraill wrth ddial ar y Mecsicans yn eu buddugoliaeth yn 1836.

Heddiw, mae baner yr Alamo yn chwifio uwchben yr hen gaer i gofio

TUDALEN I'R PLANT: HEN AC IFANC Gan DYFRIN Y DEWIN



CYSTADLEUAETH Y MIS

Pwy oedd y cyntaf i gael ei ladd mewn damwain rheilffordd?

Atebion i Dyfrin y Dewin, Gwasg Gwynedd, Caernarfon erbyn Mawrth 1981, Gwobr £1.00

PWY YW JAC-DO?



Llyr Jones, 9 Trem Eilian, Brynrefail, gyda'i degan Jac Do. Mae Llyr a'i chwaer fach, Eysyllt, yn ddarllenwyr brwd o Sboncyn ers y rhifyn cyntaf.

am y dewrion rheini ym 1836. Mae'r gaer bellach yn amgueddfa, ond bydd 'Cofiwch yr Alamo' yn parhau'n bwysig yn hanes Texas am lawer blwyddyn i ddod.

TYWOD AMSER



Mae'n siŵr eich bod i gyd wedi gweld un o'r rhain o'r blaen – un ai i fesur amser, neu fel arfer i fesur amser berwi ŵy. Ond mewn eglwys yn Eltham, Swydd Gaint mae un o'r rhain ar y pulpud i fesur amseriad y bregeth – sef hanner awr. 'Does neb heddiw yn hoffi pregeth o hanner awr, ond ers talwm iawn, 'doedd neb yn poeni fawr oherwydd byddai llawer o'r gynulleidfa yn mynd i gysgu'n ystod y bregeth.



Ateb i Gystadleuaeth mis Chwefror: Ystyr y gair SCUBA yw 'Self Contained Underwater Breathing Apparatus'.

'DOEDD NEB WEDI ANFON YR ATEB CYWIR I MEWN. MAE'R WOBR I'W HENNILL Y MIS HWN.

LLUNIAU I'W LLIWIO



Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E. WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

WAUNFAWR

YN YR YSBYTY - Drwg iawn gennym glywed fod Mr J.H. Jones, Y Garn, Mrs Griffiths, Bronallt a Mrs Peters, Tref Eilian yn yr ysbty. Hefyd Mrs Hughes, 1 Tref Eilian a ddisgynnodd yn y tŷ yn ddiweddar. Dymunwn adferiad buan iawn iddynt.

ADREF O'R YSBYTY - Croeso adref i Miss Eirlys Jones, Maelor, Mr Cennin Griffiths, Llys Gwyrfa, Meilir Gwynedd, Nant a Mr Wilf Jones, Liverpool House. Gobeithio eu bod yn dal i wella.

CYDYMDEIMLO - Ar Ionawr 1 bu farw Miss Mary Hughes, Vardre, Gallt y Bont yn ysbty Minffordd, yn 88 mlwydd oed. Cydymdeimlir â Hannah May sydd yng nghartref yr henoed ym Maesincla yng Nghaernarfon.

Ar Ionawr 3 bu farw Mr Southworth, Gwynant, yn ysbty Bryn Seiont. Cydymdeimlir â Mrs Southworth.

Ar Ionawr 9 yn Ysbty Môn ac Arfon Bangor bu farw Mr William Griffiths, Bronallt yn 85 oed. Cydymdeimlir â Mrs Griffiths a'r ddau fab, Cennin a Geraint.

Ar Ionawr 13 yn ei chartref, 9 Tref Eilian, bu farw Mrs Jane Jones, yn 93 mlwydd oed. Cydymdeimlir â'r ddwy ferch, Mrs M. Davies, Bryn Eithin a Mrs A. Johnstone, Tŷ Gwyn, ac â'i hunig chwaer, Miss Maggie Pritchard.

Cydymdeimlir â Mr King, Ger y Nant ar farwolaeth ei dad.

Â Mrs Williams, Tegannedd, ar farwolaeth ei chwaer yn Canada.

Â Mrs Tegwen Jones, Rhos Alun ar farwolaeth Gwyn, ei mab yng nghyfraith.

Â Miss Powell, Is Eilian ar farwolaeth ei chwaer yn Llundain.

Â Miss Oweilda Williams, Bodiwan ar farwolaeth ei ffrind Miss Dorothy Longbothom.

Mrs Williams ac Iona, Angorfa ar golli priod a thad annwyl.

Â Mr Robin Freeman, Llwyn Bedw ar farwolaeth ei fodryb, Mrs Bailey Williams, Ty'n Llwyn.

LLONGYFARCHIADAU - i Mr a Mrs John Williams, 5 Dôl Erddi ar enedigaeth mab arall.

I Miss Valerie Griffiths, 13 Tref Eilian yn 18 oed.

MERCHED Y WAWR - Cafwyd noson lwyddiannus iawn nos lau, Ionawr 22, pryd y daeth dysgwyr Cymraeg o'r dosbarth lleol ynghyd â'r merched am banded a sgwrs. Cyflwynodd Mrs Rhian Ellis (llywydd) y gŵr gwadd, sef Dafydd Iwan, i'r gynulleidfa, a chafwyd llawer o hwyl yn ymuno â'r caneuon.

Diolchodd Mrs Gweneirys Jones i Dafydd Iwan am ddod i'n diddori, a hefyd i ferched y pwyllgor am baratoi'r te.

Rhoddyd y raffl gan Mrs Mary Vaughan Jones, ac fe'i enillwyd gan Mrs Maureen Griffith.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos lau, Mawrth 26, pryd cawn ragflas o'n hadloniant ar gyfer ein hymweliad â changen Caernarfon ar Ebrill 9. Bydd stondin moes a phryn yn y cyfarfod hwn.

DIM NEWID - Daeth dynes o'r Creunant yn Ne Cymru nôl i Waunfawr yn ddiweddar gan ddweud nad oedd Weun wedi newid dim, - ers yr adeg pan arferai hithau ddod yma'n rheolaidd pan yn blentyn.

Achlysur digalon ddaeth â Doris May Thomas o'r Creunant yng Nghwm Dulais nôl yma'r tro hwn, sef marwolaeth ei modryb Mary Hughes, Gallt Bont, yn 88 mlwydd oed.

Mae nifer o bobl o ardal Ms Hughes a'u gwreiddiau yng ngogledd Cymru; amryw ohonynt wedi gorfod

symud yno i chwilio am waith yn y dau a'r tridegau. Roedd Cymraeg y gogledd a'r de yn cymysgu'n hwylus yno meddai. Roedd y Gymraeg ar gynnydd yno hefyd gydag ysgolion Cymraeg wedi'u hagor yng Nghastell Nêdd ac Ystradgynlais.

Yn nhafodiaith hyfryd Cwm Tawe esboniodd ei bod yn falch cael dod nôl i Waun unwaith eto, wedi cyfnod mor hir, a mynegodd ei gwerthfawrogiad i Gwendoline a Dic Rowlands am roi lle iddi aros yma, a chroeso twymgalon.

"Yr unig newid yn Waunfawr a'r cylch," meddai "oedd y prisiau. Yn y dauddegau roeddech yn medru teithio o Gaernarfon i Fetws Garmon ar y trên am un geiniog!"

CLWB GWYRFAL - Yn y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd yn Neuadd yr Eglwys ar Chwefror 12 mwynhaodd yr aelodau ffilmau a sgwrs ar America gan y wraig wadd, Miss Gwyneth Jones, 'Carmel, a fu ar ymweliad â'r lle yn ddiweddar. Ar Chwefror 26 bydd Mrs O.M. Lloyd, Caernarfon yn rhoi ei gwasanaeth. Yna ar Fawrth 5 mae Mr Leslie Jones, y p ifathro, yn garedig iawn wedi rhoi gwadd i aelodau'r Clwb i'r ysgol i fwynhau pnawn gyda'r plant.

ADRAN YR URDD - Ar nos Wener, Chwefror 6 cynhaliwyd noson 'Paned a Sgwrs' yn Neuadd yr Eglwys i godi arian tuag at redeg yr adran. Bu'r noson yn llwyddiant mawr, a hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at y llwyddiant gyda rhoddion neu gymorth ar y noson.

Gwnaed elw o bron i £70. Enillwyd y raffl oedd, 1. Mrs Iona Williams, Coed Gwydryn; 2. Mrs Catherine Jones, Crudyr Awel; 3. Sioned Roberts, Pant Afon. Enillydd 'cyfri'r pys' oedd Mrs Glenys Jones, Rhandir Mwyn.

Ar nos Fercher, Chwefror 4 daeth Mrs Mary Vaughan Jones at y plant i roi cwis ar leoedd yng Ngwynedd ar ffilm, a nos Fercher, Chwefror 11 cafodd y plant gwis difyr iawn yng ngofal Mr Leslie Jones, y prifathro.

'GUILD', EGLWYS SANT IOAN - Nos Wener, Chwefror 27 yn Neuadd yr Eglwys am 7.15 o'r gloch, sleidiau, esboniad, a miwsig ar 'Trenau Bach Cymru' gan leuan Owen a Glyn Jones. Croeso cynnes i bawb.

YSGOL FEITHRIN - Fe fydd Ysgol Feithrin yn dathlu Gŵyl Dewi eleni yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis, nos Wener, Mawrth 6. Cyw lâr neu Scampi - £2.50. Mae'r pris yn cynnwys y bws sydd yn gadael y Post am 7.30 o'r gloch. Enwau ac arian erbyn dydd Gwener, Chwefror 27 os gwelwch yn dda, i Heulwen Jones, Cynant Lodge, Eluned Roberts, Sŵn y Gwynt, neu Olwen Williams, Lliidiart Wen.

'BYNSAN BINC' - Ionawr 27 - 'Roedd y noson yn llwyddiannus iawn hefo Neuadd yr Eglwys yn orlawn. Fe hoffai Pwyllgor yr Ysgol Feithrin a'r Aelwyd ddiolch i bawb, yn arbennig i Theatr Bara Caws.

Nos lau, Chwefror 12, cafwyd Parti Tupperware yn Llwyn Onn tuag at yr Ysgol Feithrin a gwnaethpwyd elw o £8. Diolch yn fawr i Jean.

DYMUNIADAU GORAU - i John, Cadi, Osian Meilir a Heddu yn eu cartref newydd 'Nant'. Mae John eto wedi rhoi oriau o waith caled yn y tŷ - roedd yn ffordd iawn i golli pwysau!

FFARWELIO - Trist fydd ffarwelio â Rhodri Prys Jones, 15 Stad Tŷ Hen, ymhen rhyw fis. Mae Rhodri yn gadael y pentref i ddechrau swydd newydd ar Mawrth 23 fel ymchwilydd i raglen 'Heddiw' gyda'r BBC yng Nghaerdydd. Llongyfarchiadau calonnog iddo a

phob lwc yn ei swydd newydd. Mi fydd chwith ar ei ôl a Sylvia ei wraig sydd wedi ymgartrefu yma mor rwydd. Ond cawn ei gweld hi yn y Waun am ychydig eto nes iddi ddarfod ei blwyddyn yn y coleg ym Mangor.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror o'r Sefydliad yn Neuadd yr Eglwys, nos lau, Chwefror 5 gyda Mrs C.A. Jones yn llywyddu. Croesawodd y llywydd yr aelodau i'r cyfarfod, a chydymdeimlodd â Mrs M. Griffith, Mrs Southworth, Mrs Alice Johnstone a Mrs Mary Davies yn eu profedigaethau. Darllenwyd y llythyr misol a'r cofnodion o'r cyfarfod diwethaf a'u trafod.

Llongyfarchodd y llywydd Mrs Katie Wynn Jones ar ei hail ethol ar y Pwyllgor Gwaith. Darllenwyd adroddiad o'r Cyfarfod Blyneddol o Sefydliad Caernarfon-Gwynedd a gynhaliwyd yng Nghaernarfon yn ddiweddar. Cafwyd sgwrs gan Mrs Mothram, y wraig wadd, ar ei bywyd yn Awstralia a diolchwyd iddi gan Mrs Nesfield. Enillydd y raffl oedd Mrs Lloyd Williams. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd yr Eglwys nos lau, Mawrth 5 pan fydd yr aelodau yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda Mrs Buddug Lloyd Roberts o Grietieth yn wraig wadd.

Y CARNIFAL - Bydd Brenhines y Carnifal a'i Gosgordd am y flwyddyn 1981 yn cael eu dewis gan y Frenhines Lynne, yn Neuadd yr Eglwys nos Wener, Mawrth 20 am 7 o'r gloch, mewn noson o gystadleuaeth ysgafn rhwng timau lleol 'Rhowch Gynnig Arni'. Gwneir y dewis trwy dynnu enwau allan o hen. Estynnir croeso cynnes i bawb.

Cynhelir Wythnos y Carnifal eleni o Gorffennaf 3-11.

FAN SGLODION A PHYSGOD - Bydd y fan yn y pentref bob dydd Gwener o 5 o'r gloch hyd 7 o'r gloch.

BARN Y PLANT - Ymateb dau o blant Ysgol Waunfawr ar ôl gweld perfformiad o 'Bynsan Binc' gan Gwmni Bara Caws yn Neuadd y Pentref. Diolch yn fawr iwan i bob un o'r plant a sgrifennodd lythyrar ar ôl gweld y perfformiad. Gobeithio yn wir y ceuch fwy o ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol agos.

Ysgol Waunfawr,
Gwynedd.
28 Ionawr, 1981.

Annwyl Syr,

Neithiwr bûm yn neuadd yr Eglwys yn gweld Cwmni Bara Caws yn perfformio Bynsen Binc. Yr oedd y neuadd dan ei sang a chafodd pawb wledd o chwerthin. Yr oedd y stori yng ngwlad y Bynsen Binc, ac yr oedd un ddynes yn gwneud digon o fynsus pinc ar ddechrau'r flwyddyn i bara drwy'r flwyddyn gron. Dim ond y ddynas yma, sef *Anni Byns*, oedd yn gallu gwneud y fynsen arbennig yma. Yr oedd pawb yn hapus cyn i'r wrach haearn (sef *Magi Thatcher*) a'i gwas Dan-Din ddod i'r wlad. Yr oedd y wrach yn trio cael y bynsen binc olaf yn ei meddiant hi fel ei bod yn torri calonnau pobl gwlad y Bynsen Binc. Y defnyddiau a oedd i'w cael er mwyn gwneud y bynsus pinc oedd cloc larwm, blawd lli, hufen a dagrau hapus y ddraig goch, i'w gwneud yn binc. Yr oedd y wrach haearn wedi cael gafaer ar y defnyddiau hyn, ond dagrau trist y ddraig goch a gafodd y wrach haearn. Ond pan oedd yn ei bwyta fe aeth yn sâl,

am bod gwenwyn yn nagrau trist y ddraig goch. Fe gafodd *Anni Byns* a'i mab *Gari Baldi* ddefnyddiau i wneud y bynsus pinc, ac yn awr y mae pob peth fel yr oedd yng ngwlad y Bynsen Binc. Fe fuaswn yn hoffi mwy o bethau fel hyn yn y Waunfawr, yn lle edrych gormod ar y teledu.

Yr eiddoch yn gywir,
Iwan Ellis.

(10 oed).

Ysgol Waunfawr,
Gwynedd.
28 Ionawr 1981

Annwyl Syr,

Neithiwr bûm yn gweld perfformiad Bara Caws o Bynsen Binc. Wrth gerdded i fewn ac eistedd yn fy sedd daeth un o'r cymeriadau ar y llwyfan, a dweud bod yna ffair yn y cefn i'r plant yn unig. Yn y cefn yr oedd tair stondin. Yn un ohonynt yr oedd lluniaeth ysgafn, sef gwaed llygod mawr a rhyw bryfed genwair. Ond diod gyda lliw coch ynddo ydoedd gwaed llygod mawr, a'r pryfed genwair oedd losin mewn siâp pry genwair. Mewn stondin arall yr oedd tair llygoden ar bolyn bychan, ac yr oeddych i daflu cylchoedd arnynt. Am bob cylch a oedd yn mynd ar y llygod, yr oeddych yn cael lolipop. Yn y drydedd stondin yr oeddych yn ceisio taro i lawr tri llun penglog gyda dau dop mop. Os oeddych yn llwyddo, yna byddech yn cael ychydig mwy o losin. Ond y peth gorau amdanynt ydoedd fod pob stondin am ddim! Aethom yn ôl i'n seddau i weld fod y Neuadd yn orlawn, y tro cyntaf imi weld y neuadd dan ei sang, ac yr oeddwn yn falch fod y neuadd yn llawn, yn lle bod pawb wedi aros adref i edrych ar y teledu. Hon yn ddi-os oedd y ddrama orau a welais erioed. Dim ond unwaith y flwyddyn y mae Theatr Bara Caws yn dod i'r Waunfawr, ond 'rwyf yn gobeithio yn y dyfodol y gall Theatr Bara Caws ddod ddwy waith neu fwy y flwyddyn. Y mae edrych ar ddramâu yn well yn fy marn i nag edrych ar y teledu.

Gobeithio y gwnewch bopeth yn eich gallu i sicrhau y cawn lawer iawn mwy o bethau fel hyn.

Yr eiddoch yn gywir,
Llion Iwan.
(11 oed)

**OSMOND
W. SHAW**



Peiriannydd
Radio a Theledu
& Gwasanaeth Awdio
BWLCH UCHAF
DEINIOLEN
Ffôn Llanberis 545
Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch
cyn 10 o'r gloch

BUWCH Y DYN TLAWD

Dyna farn llawer o bobl am yr hen afr druan; y creadur corniog, blewog, drewllyd hwnnw sy'n cadw ochrau ambell i ffordd yn yr ardal yn glir o dyfiant gwyllt. 'Doeddwn innau 'chwaith wedi meddwl fawr am yr afr nes cael gwahoddiad yn ddiweddar i ymweld â Mrs Margaret Williams a'r teulu yn Ael Eryri, Llanberis.

Mae Mrs Williams, wedi bod yn aelod o Gymdeithas Geifr a Mân-ddaliadau Gogledd Cymru ers dros flwyddyn, ac y mae bellach yn aelod o Bwyllgor Rheoli Cangen Caernarfon o'r Gymdeithas, sydd â dros gant o aelodau. Mae aelodau'r pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd bob mis yn nhai ei gilydd i drefnu sioeau a chyfarfodydd eraill i'r aelodau. Un o brif amcanion y Gymdeithas, fel Cymdeithas Geifr Prydain, yw i wella ac i hyrwyddo gwahanol fridiau o eifr. Mae amryw o fridiau gwahanol, e.e. **Toggenburg** - gafr o'r Swisdir yn wreiddiol; **British Toggenburg** - llinach Brydeinig o afr y Swisdir; **British Alpine** - gafr ddu a gwyn; **Saanen** - gafr wen sy'n cael ei chyfrif yr orau am gynhyrchu llaeth; **Golden Guernsey** - Gafr sy'n rhoi llaeth â llawer o hufen ynddo; **Anglo-Nubian** - gafr fawr a chlustiau fel spaniel ganddi; **British Goat** - brid cymysg, arbennig i Brydain.

Eglurodd Mrs Williams i mi fel y mae'r afr wedi ei cham-ddeall ers blynyddoedd gan bobl sy'n credu mai anifail drewllyd yw. Nid yw'r afr fanw yn ogleuo o gwbl, ond y mae'r bwch - yn enwedig pan fo'n chwilio am gymar. Felly, ychydig iawn o bobl sy'n cadw bwch gafr gan nad oes ond un gwerth iddo! Mae'r geifr banw yn hynod o lân a didrafferth iawn i'w cadw. Gall unrhyw un â gardd weddol fawr gadw gafr yn hwylyd, ac nid yw angen dim mwy o fwyd na chi mawr - ond ei bod yn llawer mwy defnyddiol (sawl ci mawr wyddoch chi sy'n rhoi chwe pheint o lefrith bob dydd am ddwy flynedd ar ôl geni?)

Nid yn yr ardd y mae geifr Ael Eryri yn byw, ond mewn tŷ cysurus yng nghongl yr ardd gyda stôl yr un iddynt y tu mewn. Yn wahanol i eifr gwyllt nid yw geifr dof yn hoffi gwyntoedd, ac mae'n gas ganddynt law, felly mae angen cysgod a lle sych arnynt. Bydd y geifr yn cael eu

cerdded o amgylch yr ardd ac mewn cae gerllaw i roi rhywfaint o ymarfer iddynt ac i'w galluogi i bori ar eu hunain. 'Heidi' yw'r fam, ac y mae'r myn, 'Perseffoni' bellach yn dair wythnos oed. Gafran flwydd oed yw 'Lili Lon' ac y mae wedi ennill llu o wobrau mewn gwahanol sioeau yng Nogledd Cymru'n ystod y llynedd.

Cyn arddangos yn y sioeau, mae'n rhaid golchi'r geifr yn lân, eu cribo a thrin eu traed. Mae cystadlaethau godro hefyd yn cael eu cynnal, ac y mae plant yn cael eu cymell i ofalu am y geifr (gall plentyn 7 oed odro gafr).

Fel gyda phob anifail, mae angen bwyd cywir arnynt; ond mae geifr yn medru bwyta popeth bron. Rhaid gofalu eu bod yn cael digon o wair a dŵr, a grawn yn gymysg yn eu bwyd; ond maent yn ddigon bodlon ar blisg pys, dail bresych, grug, dail coed a sbarion o'r gegin. (DIM rhedyn - mae'n wenwyn). Gorau'n y byd y bo'r bwyd wrth gwrs, a gorau'n y byd y bo ansawdd y llefrith; ond mae bridwyr geifr yn honni ei fod yn iachach o lawer na llefrith buwch.

Mae'r llefrith yn ardderchog i fabanod oherwydd nid yw'n cymryd ond ugain munud i dreulio'n y stumog (mae llefrith buwch yn cymryd hyd at ddwyawr). Mae llai o caesin ynddo na llefrith buwch a mwy o fitamin A. Dywedir ei fod yn arbennig o dda i rai'n dioddef o eszema, asthma, psoriasis a diffyg traul. Gellir ei ddefnyddio i wneud menyn, caws a iogwrt, ac yn wahanol i lefrith buwch, mae'n bosibl ei rewi a'i gadw am dri mis.

OND . . . sut FLAS sydd ar y llefrith? Wel, fel pob gohebydd gwerth ei halen, bu'n rhaid i mi ei flasgu, a rhaid cyfaddef fod blas . . . blas . . . blas llefrith arno! (mymryn yn fwy blasus na llefrith buwch!) Mynnwch ei flasgu eich hunain os nad ydych yn coelïo!

NANT PERIS

FAN SGLODION A PHYSGOD - Bydd y fan yn y pentref bob dydd Mercher o 7.30 o'r gloch hyd 8.30 o'r gloch. GARTREF - Rydym yn falch o gael croesawu gartref rhai sydd wedi bod am driniaeth yn yr ysbyty a dymuno gwellhad llwyr iddynt.

GWAELEDD - Drwg gennym ddeall bod Mrs N. Closs Williams, Tanybryn wedi ei chymeryd i'r ysbyty yn sydyn. Dymunir gwellhad buan iddi i gael dychwel yn ôl i'w chartref.

DIOLCH - Dymuna Mr Melfyn Pritchard, Llŷs Awel ddiolch i bawb am bob caredigrwydd tra bu yn yr ysbyty.



ENILLWYR YN EISTEDDFOD YR URDD CAERNARFON 1930



Parti cân actol Adran Llanrug, buddugwyr yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caernarfon, 1930. Pwy ydyn nhw tybed? Diolch i Mrs E.M. Edwards, Treffynnon, Clwyd am gael benthg y llun.

TOCYNNAU EISTEDDFOD MALDWYN

Eisoes gwerthwyd nifer o docynnau ar gyfer Eisteddfod Maldwyn a'i Chyffiniau. Ond yn ôl Mr Osian Wyn Jones, Trefnydd yr Ŵyl mae nifer o eisteddfodwyr nad ydynt yn gwybod y drefn pan fyddant yn prynu tocynnau.

Prif gyngor yr Ysgrifenyddion Tocynnau yw i chwi brynu tocyn cyn gynted ag y bo modd, a pheidio ag aros tan yr wythnos gyntaf ym mis Awst. Ffoniwch Swyddfa'r Eisteddfod (Rhif ffôn: Machynlleth 2801) neu gorau oll os medrwch chi alw heibio'r swyddfa yn Heol y Doll, er mwyn i chi weld cynllun o'r Pafiliwn a dewis eich lle.

Nid yw'r swyddfa ar agor ar ddydd Sadwrn ar hyn o bryd ond dywedodd yr Ysgrifenyddion eu bod yn fodlon agor y swyddfa ar unrhyw adeg, dim ond i chi ffonio'r swyddfa ymlaen llaw i'w rhybuddio.

GWAHANOL DOCYNNAU

Mae tri math o docyn ar gael. Yr un rhataf yw'r tocyn maes ac mae'n costio £1.50 a gellwch fynd i mewn i gefn y Pafiliwn yn Eisteddfod Maldwyn drwy ddangos y tocyn hwn - ond ni chedwir sedd i chi.

Gellwch sicrhau sedd ynghanol y Pafiliwn trwy brynu tocyn ail ddsbarth (pris £3.30 y dydd) a thocyn dosbarth cyntaf yn weddol agos at y llwyfan am £4.50 y dydd.

TOCYN WYTHNOS - Bargaen

Trwy gyfrwng y tocyn hwn ceuwch fynediad i'r Pafiliwn bob dydd ac fe gewch ddewis naill ai mynd i'r cyngherddau neu i'r dramâu yn ystod yr hwyr.

Prisiau'r tocyn wythnos yw £28.00 am un ail ddsbarth a £35.00 am docyn dosbarth cyntaf. Felly, eisteddfodwyr pybyr, gwenewch ymholiadau am docyn - YN AWR.

lau - Sadwrn, Mawrth 19 - 21

Chwaraewyr Coleg y Gogledd yn cyflwyno

EXCELSIOR SAUNDERS LEWIS

(Cynhyrchydd: Clive Roberts)

Theatr Gwynedd
7.30, ynghyd â
2.30 Sadwrn

Mynediad £1.50
(£1 i fyfyrwyr a
phensiynwyr.
Gostyngiad i bartïon)

Tocynnau i'w cael drwy'r theatr, Bangor 51708

BETHEL

CLWB Y RHOS – Mr Islwyn Jones oedd yn gyfrifol am Noson y Mis yng Nghlwb y Rhos. 'Roedd Mr Jones wedi trefnu i Mr John Hugh Hughes, llys Myfyr ddod i sgwrsio gyda'r aelodau. Cafwyd sgwrs ddfyr iawn ar fywyd R. Williams Parry. Diolchwyd i Mr Hughes gan Mr Ellis R. Jones. Gwahoddwyd tri aelod newydd i'r Clwb.

CYHOEDDI HUNANGOFIANT – Llongyfarchiadau i Mrs Ellen Jones, Awel y Grug ar gyhoeddi llyfryn hunangofiant dan yr enw 'Hunangofiant Nel Bach Lôn Glai'. Cyhoeddir y gyfrol gan Cyhoeddiadau Mei a'r pris yw 50c. Mae cyfoeth o atgofion yn y gyfrol gyda golwg fyw iawn o blentyndod yn y dauddegau, y tloidi a'r hapusrwydd, profiadau ysgol a'r gwaith o fagu teulu.

DYMUNO'N DDA – Mae pawb yn yr ardal yn dymuno'n dda i Mr G. Evans a'i deulu, Ty'n 'Rallt, Seion yn eu gofid ar ôl damwain Cemlyn a salwch Cyril. Dymunwn wellhad buan iddynt, ac i Mr Evans ei hun gan ei fod yntau'n sâl ar hyn o bryd.

YR EISTEDDFOD – Ann Hopcyn awgrymodd, yn y Pwyllgor Eisteddfod cyntaf y llynedd, gyfyngu'r Eisteddfod i'r pentref eleni. Doedd neb yn awyddus iawn – wedi'r cwbl, ar wahân i'r plant, doedd bron neb o'r pentre yn cystadlu yn yr Eisteddfod. Wedi meddwl am y cynnig wedyn pa gyfraniad i ddiwylliant y pentre oedd yr eisteddfod nos Sadwrn mewn gwirionedd – ychydig iawn.

Wedi penderfynu cyfyngu'r Eisteddfod i'r ardal rhoddwyd cyfrifoldeb ar ein hysgwyddau i gyd a bu ymateb gwell nag unrhyw ddisgwyl. Cafwyd Eisteddfod lwyddiannus ac o safon uchel yn y prynhawn, gyda'r plant yn gwneid eu gwaith yn arbennig o dda.

Yn y nos cafwyd cystadlu brwd ym mhob cystadleuaeth ac yn ôl y beirniaid a'r gynulleidfa roedd y cystadlu o safon uchel iawn. Sawl pentre sydd yn gallu cael pedair sgets, tair cân actol, dau barti alaw werin, dau gôr adrodd a dau gôr pedwar llais i gystadlu yn eu heisteddfod a'r Neuadd yn llawn o chwarter wedi un y prynhawn tan chwarter wedi un fore Sul. Nos lau roedd y Neuadd yn llawn gyda mwy na 150 wedi cystadlu yn y cystadleuthau Gwaith Llaw a Choginio. Diolch i Myfanwy Jones, Glan Gors, ysgrifennydd y pwyllgor, a phawb arall am eu gwaith a wnaeth yr Eisteddfod mor llwyddiannus.

EISTEDDFOD GADEIRIOL BETHEL
Enillydd y Gadair – Mrs Helen Bebb, Caernarfon.

CANU dan 4: Cydradd 1. Llinos Wyn Rees a Gareth Jones. **Dan 6:** 1. Menna Duncey Williams, 2. Eysyllt Môn Jones, 3. Manon Elis. **Dan 8:** 1. Gwen Jones, 2. Euron Hughes. **Cyd3:** Sioned Meleri Owen a Ruth Parry. **Dan 10:** 1. Angharad Price, 2. An Foulkes, 3. Angharad Elis. **Dan 12:** 1. Meinir Dauncey Williams, 2. Helen Jones, 3. Mari Owen.

ADRODD dan 4: 1. Llinos Wyn Rees, 2. Gareth Jones. **Dan 6:** 1. Eysyllt Môn Jones, 2. Menna Dauncey Williams, 3. Non Llywelyn Jones. **Dan 8:** 1. Gwen Jones, 2. Sioned Meleri Owen, 3. Ruth Parry. **Dan 10:** 1. Angharad Price, 2. Lynne Hardwidge, 3. Rhian Hughes ac Angharad Elis. **Dan 12:** 1. Meinir Dauncey Williams, 2. Amanda Owen, 3. Helen Jones.

PIANO dan 12: 1. Gwenan Davies, 2. Meinir Williams, 3. Angharad Elis. **Cydradd dan 12:** 1. Sboncyn, 2. Parti Joanne, 3. Bois y Sêr.

wdeuawd Piano dan 12: 1. Angharad Price a Mari Owen, 2. Meinir Williams a Helen Jones, Cyd 3. Lynne Hardwidge a Mari Owen.

Unawd Offeryn heblaw Piano dan 12: 1. Lynne Hardwidge, 2. Meinir Williams, 3. Meinir Owen.

Parti Canu dan 12: 1. Defaid, 2. Elyrch, 3. Gwanwyn.

Adrodd dan 15: 1. Manon Dauncey Williams, 2. Paul Roberts.

Canu dan 15: 1. Ceinwen Parry, 2. Manon Dauncey Williams.

Piano dan 15: 1. Ceinwen Parry a Manon Dauncey Williams, 2. Rhian Davies a Mair Hughes. (cydradd)

Unawd dros 15: 1. Mrs Ellen Ellis, 2. Mrs Rita Williams, 3. Mrs Betty Farrar.

Adrodd dros 15: 1. Mrs Rita Williams, 2. Mrs Madge Williams, 3. Mrs Ceinwen Williams.

wyithawd: 1. Wythawd Gwaelod.

Cân Actol: 1. Nurse Harvey's Gripe Water.

Sgets: 1. Bwji.

Deuawd Piano: 1. Mrs Beti Owen a Mrs Ann Hopcyn Evans, 2. Manon Williams a Ceinwen Parry, 3. Rhian Davies a Mair Hughes.

Emyn dros 50: 1. Mrs M.G. Williams.

Adrodd dros 50: 1. Mrs M.G. Williams.

Unawd unrhyw offeryn: 1. Mrs Beti Owen.

Côr Adrodd: 1. Parti Merched y Wawr, 2. Parti Elan.

Cân Ysgafn: 1. Pishyn.

Deuawd: 1. Mrs Rita Williams a Mrs Ann Hopcyn Evans, 2. Manon a Meinir Dauncey Williams.

Alaw Werin: 1. Parti Merched y Wawr, 2. Parti Saron.

Côr Pedwar Llais: 1. Côr Gwaelod, 2. Côr Saron.

LLENYDDIAETH – Parodi: 1. Mrs Alys Jones. **Dyddiadur:** 1. Mr Dafydd Williams, 2. Myfanwy Wyn Jones. **Englyn:** 1. Mr Dafydd Williams. **Emyn:** 1. Mrs M.G. Williams. **Llythyr Serch:** 1. Mr John Eryl Thomas, 2. Mrs Ann Hopcyn Evans.

Telegram: 1. Mrs Rita Williams.

Brawddeg: 1. Mr Collwyn Williams, 2. (cyd) Mrs Mair Price a Mrs Mabel Jones.

Stori Fer neu Ysgrif: 1. Mrs Helen Bebb.

Traethawd neu Ysgrif dan 18 oed: 1. Gwen Williams, 2. Richard Williams. **Cerdd i rai dan 18 oed:** 1. Myfyr Wyn Jones.

Llenyddiaeth – dan 6 oed: 1. Eysyllt Môn Jones, 2. Llinos Williams, 3. Lliwen Jones.

Dan 8: 1. Bethan Jones, 2. Ruth Parry, 3. Euron Hughes, Wena Williams, Gwen Jones. **Dan 10:** 1. Angharad Price, 2. Carys Owen, 3. Dafydd Ll. Jones. **Dan 12:** 1. Meinir Dauncey Williams, 2. Mari Owen, 3. Gwenno M. Owen a Meinir Owen. **Dan 15:** 1. Manon Dauncey Williams, 2. Mair Hughes, 3. Rhys Williams a Richard Evans.

Arllunio – dan 6: 1. Robin Warrington, 2. Llinos Williams, 3. Lliwen Jones, Eysyllt Môn Jones, Menna d. Williams, Manon Elis, Sian Ll. Jones, Non Ll. Jones. **Dan 8:** 1. Jennifer Jones, 2. Joanne Griffiths, 3. Wena Lloyd Williams a Gwyn Hughes. **Dan 10:** 1. Gareth Hughes, 2. Ian Mercer, 3. Arwel E. Jones. **Dan 12:** 1. Nicola O'Connor, 2. Amanda Owen, 3. Kelvin Hughes, Rhian Parry, Mari Owen, Meinir D. Williams, Luned Roberts. **Dan 15:** 1. Ceinwen Parry, 2. Dianne Vize, 3. Enid Price. **Agored:** 1 a 2. Mrs Eirlys Hughes.

GWAITH LLAW – Dan 9: 1. Gwen Jones. **Dan 12:** Meinir Williams, 2. Angharad Price. **Dan 16:** 1. Tegwen Williams, 2. Manon D. Williams. **Dilledyn i Fabi:** 1. Mrs Ann Hopcyn Evans, 2. Mrs Gwyneth Jones. **Gwasgod:** 1. Mrs Rita Williams, 2. Mrs Bet Evans. **Clustog:** 1. Helen Wyn Jones, 2. Mrs Anne Hughes. **Dilledyn i ffitio'r ymgeisydd: (Gwnio)** 1. Gwyneth Williams, 2. Mrs Bet Evans. **Dilledyn i ffitio'r ymgeisydd (Gwau):** 1. Mrs Valerie Owen, 2. Mrs Val Griffiths.

GOGINIO – dan 12: 1. Barry Evans, 2. Helen Wyn Williams. **Dan 16:** 1. Rhian Davies, 2. Manon Dauncey Williams. **Torth Wen neu Frown:** 1. Mrs Anne Hughes, 2. Mrs G.P. Jones. **Marmalade:** 1 a 2. Mrs Pat Owen. **Cacen Gri:** 1. Mrs Mair Price, 2. Mrs Mabel Jones. **Valentine Cake:** 1. Mrs Delyth Williams, 2. Mrs Lynwen Morris. **Swiss Roll:** 1. Mrs Mair Price, 2. Mrs Ann Hopcyn Evans. **Scones:** 1. Mrs Eirlys Sharpe, 2. Mrs Anne Elis. **Bara Brith:** 1. Mrs Lynwen Morris, 2. Mrs Mair Jones. **Victoria Sponge:** 1. Mr Morris Williams, 2. Mr Brian Sharpe.

Dymuna Mr Goronwy Jones, Glan Gors, Llywydd Pwyllgor yr Eisteddfod ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant yr Eisteddfod.

Dyma'r Stori Fer fuddugol yn Eisteddfod Bethel. Dyfarnwyd y wobr gyntaf a chadair yr Eisteddfod i Helen Bebb am y stori.

Y DIWEDD gan Helen Bebb

"FFORDD hyn, rydym wedi ei symud i lawr grisiau," meddai'r Matron wrth arwain Mair ar hyd y coridor yn y Cartref ac i mewn i ystafell eang wedi ei rhannu'n ddwy gyda nenfwd uchel braf, a ffenestri bron i'r llawr. Nid oedd dim yma i gyfleu cymeriad y perchnogion, dim byd ond dau wely, dwy gadair, dau gwpwrdd, un basn 'molchi ac un comôd. 'Roedd popeth yn lân, yn rhy lân, ac aroglau polish a disinfectant yn gymysg ag arogl henaint.

Pentyrrwyd cynfasau a blancedi un gwely gwag yn daclus ar ben ei gilydd, ac yn y llall, wrth y ffenestr, gorwedda'r hen wraig.

"Miss Edwards, rhywun yma i'ch gweld," gwaeddodd y wraig ac estyn cadair i Mair.

"Cysgu mae hi gan amlaf 'rwan y'chi, ond efallai y deffrith hi am ychydig cyn bo hir. Mi fyddaf yn y gegin os y byddwch f'angen." Ac ar hynny trodd ar ei sawdl ac allan.

Cerddodd Mair ymlaen at waelod y gwely ac edrych ar ei hen fodryb yn gorwedd mor llonydd o dan y trwch blancedi. Fe'i rhoddwyd i led eistedd, a thowel melyn o dan ei gên a dros ymyl y cynfasau. Ar y cwpwrdd yr oedd cwpan babi, a phlatiead o gawl oer a'r llwy yn dal ynddo. Yr unig beth o eiddo ei modryb oedd y cloc bychan wedi ei osod ar ganol y cwpwrdd.

"Dodo," sibrydodd Mair. "Fi, Mair, sydd yma. Sut yda' chi'n teimlo heddiw?"

Daeth rhyw gryndod dros yr amrannau caeedig, ond dim arall. Syllodd ei nith yn hir arni. 'Roedd yn fach, mor fach yng nghanol y gwely, y croen yn llac, a'r gwallt yn flêr, a'r un llaw a oedd yn y golwg yn llonydd, llonydd.

Dyma ydi 'darfod', 'pasio ymaith yn dawel', 'mynd yn ddi-boen', 'cael eich rhyddhau'? meddylodd y ferch wrth eistedd ar y gadair yn ymyl y gwely. Trasiedi oedd marw'n ifanc, a thrasiedi oedd byw yn hen, yn rhy hen fel na fynnai neb alaru ar eich hól.

"Hunanol ar dy ran ydi dymuno ei gweld yn gwella eto, wsti," meddai ei mam y bore hwnnw pan ddaeth y ffôn o'r Cartref i ddweud fod Miss Edwards yn gwanhau.

"Mae wedi byw ei bywyd, ac mae'n amser iddi gael ei gollwng bellach," ategodd ei thad gan anghofio iddo ynganu'r union eiriau sawl gwaith dros y deng mlynedd er pan ymgartrefodd Catherine Edwards yng nghartref 'Pen y Daith', nepell o'r Llan.

"Stopiwch, da chi," gwaeddodd Mair. "Nid rhyw anifail sy'n trigo y funud yma, ond Dodo, modryb."

A dyma hi, modryb garedig ei plentyndod, eilun ei hieuentid a

chyfaill ei chanol oed yn gorwedd mor ddi-ymgeledd a diymadferth, fel plentyn yn ei grud. Ie, plentyn. Beth ddywedodd y bardd hwnnw ers llawer dydd?

'Y maban yn wan unwaith – y genir

Ac yna i dwf perffaith.

Pan el yn faban eilwaith,

Buan daw i ben ei daith.'

Cofiai hefyd Llywarch druan yn llafar-ganu yr holl ganrifoedd yn ôl – "Wyf hen, wyf unig, wyf truan, – hir grif heb esgor lludded."

Daeth chwa o gryndod dros Mair yn yr ystafell gynnes. Cododd a mynd at y ffenestr. Nid dyma groeso arferol ei modryb, ochneidiodd yn hunan-dosturiol.

Beth am y Sul hwnnw, cwta flwyddyn yn ôl? Yr oedd ei thad yn yr ysbyty yn dioddef o iselder ysbryd, ac o'i hanfodd aeth Mair i'w weld. Ymweliad annifyr: fo yn ei ddigalondid yn ysgyrnygu ei gynddaredd yn ei hwyneb yn ail a chrio'n dorcalonnus, a hithau'n fud ddi-gariad yn y ward oeraidd. Teimlai'n wag fel swigan lard ers talwm, ac ar fyrder penderfynodd gymryd tro Ysbyty Ifan a galw heibio Dodo. Y fath groeso a gafodd, y wên barod, y dwylo cynnes yn cau amdani, a'r "Tyrd, mechan i. Mae gwedd y ddaear arnat, gad i ni gael paned a sgwrs yn f'ystafell cyn i ti droi am adre". Paid a digalonni rwan. Trwy ryfedd wyrth, wsti." Melys fu'r ymddiddan rhyngddynt y 'pnawn hwnnw, fel pe na bai hanner canrif a mwy yn eu gwahanu, a chododd Mair i fynd adref yn llawer tawelach ei meddwl ar ôl derbyn ymgeledd ei modryb.

Bu'n gefn tebyg i sawl un, mae'n siŵr, meddylodd Mair, ac ni chwerwodd er gwaethaf ei henaint. Awchai am y papurau newydd bob dydd, a gwnai ddefnydd llawn o'r radio a'r teledu. Ysai am gwmni difyr, a pherfformi'r llygaid gleision wrth iddi lwyddo i godi rhyw 'sgyfnag neu'i gilydd. O ganlyniad i'w bywiogrwydd yr oedd yn ffodus o gael sawl un yn galw i'w gweld, o'r gweinidog i'r "eneth fach annwyl" honno a oedd yn dysgu yn ei hen ysgol. (Parhau ar dudalen 13)

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



BWSIAU ARFON

LLANRUG

(ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

APÊL HYDER

Gelwir ar i etholwyr Gwynedd fwrw eu pleidlais dros 'filwyr cryf' yn yr etholiadau sirol fis Mai nesaf. Hynny, oherwydd y bydd yn rhaid iddynt ymladd brwydr dros rai na llant ymladd eu brwydrau eu hunain.

Daw'r apêl ym mhapur newydd 'Hyder' a gyhoeddir yn flynyddol gan Gymdeithas Caernarfon a'r Cylch Dros Rai Araf eu Meddwl.

Gofidia'r Gymdeithas y bydd rhai dan anfantais meddwl yn dioddef yn arw eleni oherwydd y cwtogi parhaus ar wario cyhoeddus.

Er y dengys y papur fod llawer o waith gwerth chweil yn cael ei wneud yng Ngwynedd, dengys hefyd fod rhai pethau i boeni'n go arw amdanynt.

Er enghraifft nid oes gan Gyngor Sir Gwynedd hyd yn oed £2,000 i sefydlu cynllun teithio rhad ar fysuf i rai dan anfantais meddwl er bod un cyffelyb dan nawdd y Llywodraeth i rai dan anfantais corfforol.

Ofnir hefyd y bydd yn rhaid troi ymgeiswyr i ffwrdd o Ganolfan Hyfforddi Oedolion Araf eu Meddwl yng Nghaernarfon oherwydd na fydd digon o le iddynt. Y mae'r Cyngor Sir ei hun wedi cyfaddef nad oes digon o staff i edrych ar ôl pobl yn iawn mewn Hostel yng Nghaernarfon. Dywedodd y Swyddfa Gymreig fod angen staff o 24 neu 20 o leiaf ond dim ond 11 sydd yno.

Cydnabu 'Hyder' nad ar Wynedd y mae'r bai am ei sefyllfa ariannol bresennol ond ar y Llywodraeth, ond ychwanega fod brwydr i'w hymladd ar lawr y Cyngor Sir hefyd. Y 'milwyr' yn y frwydr yw'r cynghorwyr a ddewisir gan bleidleiswyr Gwynedd fis Mai nesaf.

"Gofynnwn i chwi, felly, ddewis cynghorwyr di-blyg gyda chalch yn eu boliau a dur yn eu hasgwrn cefn i sicrhau fod gan y rhai na allent ddadlau eu dadl eu hunain lais cryf yn Siambr Cyngor Sir Gwynedd," meddir.

Gofynnir i etholwyr ochel rhag dewis "cynghorwyr y bleidlais boblogaidd a'r ganmoliaeth fas."

Hyd yn oed ym mlwyddyn ryngwladol y rhai dan anfantais gall yr araf eu meddwl fod ar eu

colled, meddir.

"Gan amlaf nid anfantais y gellir ei weld â'r llygad yw ei un hwy. 'Does ganddyn nhw ddim ffon wen. Dydyn nhw ddim yn stryffaglio o bafin i stryd o stryd i bafin mewn cadair olwyn. Edrychant yn union fel y chwi a minnau ac o'r herwydd y mae'n hawdd eu anhogio a'u diystyrru.

"Eto oherwydd eu diffyg crebwyll naturiol caiff rhai ohonynt hi yr un mor amhosibl i groesi stryd a rhywun mewn cadair olwyn," meddir. Y mae'r papur yn cynnwys eleni neges bersonol oddi wrth Brian Rix, y comediwr sydd bellach yn ysgrifennydd cyffredinol MENCAP, y gymdeithas Brydeinig sy'n gwarchod hawliau'r rhai araf eu meddwl.

Y mae o'n canmol yn fawr rifyn cyntaf y papur dwyieithog 'Hyder' y llynedd.

Eleni hefyd bu gohebwy'r papur yn siarad â Miss Catherine Jones, prifathrawes Ysgol Pendalar yng Nghaernarfon a Mr R.H. Morgan sy'n gofalu am Hostel y Fron Deg.



Brian Rix, Ysgrifennydd Cyffredinol MENCAP oedd yn fawr ei ganmoliaeth o 'Hyder'.

Cadeirydd newydd y Gymdeithas bellach yw Mr R. Gwynn Davies o'r Waunfawr ac y mae o'n sôn am gael gwneud Cymru yn uned genedlaethol o fewn MENCAP. Ar hyn o bryd y mae De Cymru yn ranbarth annibynnol ond Gogledd Cymru yn rhwym wrth Ogledd Orllewin Lloegr.

"Heb amheuaeth, yn yr argyfwng economaidd sydd ohoni mi ddylai fod yna gorff Cymreig a all siarad dros yr araf eu meddwl trwy Gymru gyfan," meddai.

Eisoës y mae'n cynnal trafodaethau gyda Mr Brian Rix ac y mae gobeithion y deuir i ryw benderfyniad wedi mis Mawrth eleni. "Oherwydd ein bod ni ynghlwm wrth Ogledd Orllewin Lloegr - nad yw'n gorfod delio â'r Swyddfa Gymreig - yr ydym mewn gwendid a hynny ar adeg pan yw'n bwysig fod gennym ein holl nerth i ymladd dros yr araf eu meddwl," meddai.

Y mae un o Is-lywyddion y Gymdeithas, Mrs Elinor Wigley, yn beirniadu'r diffyg cydweithrediad sydd rhwng cyrff statudol yng Ngwynedd.

Mewn enw yn unig, meddai, y bodola Tim Cyd-Gynllunio rhwng yr Awdurdod Iechyd a'r Cyngor Sir i ddelio â chynlluniau ar gyfer yr araf eu meddwl.

Nid yw hyd yn oed wedi cyfarfod eto.

Y mae hi'n codi'r cwestiwn - gymaint gwell efallai fyddai cael system fel un Denmarc lle mae un corff cywasgedig yn gofalu am y bobl hyn ac yn cael ei redeg gan yr awdurdodau lleol.

Y mae'r papur yn nodi hefyd y bobl hynny sydd yn helpu'r araf eu meddwl ac yn esmwythau eu byd. Criw o ferched o'r Coleg Normal, er enghraifft, yn trefnu parti Nadolig i ddau gant o blant araf eu meddwl ac yn sicrhau anrheg personol i'r 400 o blant sydd yn ysgolion Gwynedd.

Derbyniwyd rhoddion lu tuag at y pwll nofio yn ysgol Pendalar, yn amrywio o blant os yn gwerthu teganau yn eu gardd gefn i £1,500 a godwyd mewn ffair haf yn yr ysgol un Sadwrn gwlyb domen.

Diolcha'r papur hefyd i'r bobl busnes hynny a hysbysebodd ynddo a'i gwneud yn bosibl ei gyhoeddi.

"Er gwaetha'r ffaith ei bod yn ddyddiau ariannol caled yn yr ardal hon bu'r mwyafrif yn barod iawn i'n cynorthwyo," meddir.

Cyhoeddir tair mil o rifynnau ac fe'u dosberthir am ddim yn yr ardal a'r gobaith yw y bydd darllen y papur yn codi'r awydd mewn mwy a mwy o bobl i roi help llaw.

Gellir cynnig help, meddir, trwy gysylltu â'r Ysgrifennydd, Mrs Par Parry, Ffridd Felan, Y Waunfawr.

AFIECHYD CARYS YN YSBARDUNO'R PENTREFWYR



Dyma Carys Wilson Hughes, merch 6 oed Mr a Mrs H. Hughes, 87 Maes Padarn, Llanberis.

Pan oedd yn flwydd a hanner oed, darganfuwyd ei bod yn dioddef o afiechyd yr lau ac fel y gall unrhyw riant ddychmygu mae pryder a gofid mawr yn y cartref. Ers 1976 mae Carys wedi ymweld â'r ysbyty yn Llundain dair gwaith ac ym mis Tachwedd 1979 cadarnhawyd i'w rhieni fod ei hafiechyd yn un difrifol iawn.

Tua'r adeg trist yma darllenodd rhieni Carys am y bachgen bach, Michael McGough o Nottingham, a yrrwyd i'r America i gael trawsblaniad lau. Ond yn drist iawn bu farw yn 17 mis oed yn yr America.

Naturiol hollol oedd i Mrs Breda Hughes ysgrifennu at rieni Michael a chafodd wybod am y gronfa a ddechreuwyd gan Mr a Mrs McGough. Penderfynodd Mr a Mrs Hughes ynghyd â'r teulu a chyfeillion, gynnal Noson Goffi gyda bwriad o anfon arian i gronfa Mr a Mrs McGough. Yr oedd yr ymateb i'r Noson Goffi yn arbennig o dda a phenderfynwyd yr adeg hynny i ddechrau cronfa leol i gasglu arian i'w anfon i Ysbyty Kings College i gynorthwyo'r ymchwil sydd yno i achosion yr afiechyd hwn.

Anhygoel yw meddwl bod 400 o fabanod yn cael eu geni bob blwyddyn yng Ngwledydd Prydain gyda'r afiechyd arbennig yma.

Mae 10 cronfa wedi eu dechrau erbyn hyn - 9 yn Lloegr a dim ond un yng Nghymru sef y Gronfa yn Llanberis.

Sefydlwyd pwyllgor swyddogol ym mis Tachwedd 1980 gyda Mr John Hugh Hughes, (Prifathro Ysgol Dolbadarn) yn Gadeirydd; Mrs Morfydd Jones, 'Erw'r Coed' yn Drysorydd a Mrs Lola Sellars, 16 Ffordd Goodman yn Ysgrifennydd ynghyd â 23 o aelodau eraill.

Balch iawn gan y Pwyllgor gyhoeddi bod £1,600 wedi ei gasglu ers mis Tachwedd 1980.

Ar ôl casglu £300 mewn Noson Goffi penderfynodd y pwyllgor a rhai ardalwyr fynd o gwmpas pentref Llanberis i ganu Carolau ychydig cyn y Nadolig a gwnaethant elw o £180.


Dangosodd Cyngerdd a gynhaliwyd Chwefror 1 yng Nghapel Coch, Llanberis gymaint mae pentref Llanberis a'r cylchoedd yn cydymdeimlo â Mr a Mrs Hughes a'r teuluoedd tebyg iddynt yn eu pryder. Gwnaethpwyd elw o £743 yn y cyngerdd yma a charai Mr a Mrs Hughes ddiolch o waelod eu calonnau am haelioni pawb a'r gefnogaeth mae'r gronfa wedi ei chael.

Carant ddiolch hefyd i'r artistiaid y cyngerdd am gynnal noson mor lwyddiannus.

Os oes diddordeb gan unrhyw un i gynorthwyo'r plant yma a fyddwch mor garedig a chysylltu ag un o'r swyddogion a enwir uchod.

"Mae bywyd plentyn yn hynod werthfawr. Wnewch chi helpu i achub rhai o blant y dyfodol drwy sefydlu ymchwil heddiw?"

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques Ivy Cottage BETHEL

Ffôn:
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

Agor

Ffiniau'r Gorffennol

DEWI HAVESP

Y mae rhai blynyddau wedi pasio erbyn hyn ers pan ddisgrifiais yn fy ngholofn yn *Yr Herald Gymraeg* hanes fy ymweliad â theulu Dolferedydd Llandwrog – sef Mr a Mrs Richard Morris Jones, Owain Rhys a'i chwaer Llio Mair Rhys. Gohebydd gyda Rhaglen 'Heddiw' BBC ydyw R.M. Jones. Y mae ei briod yn chwaer i briod Gwilym Tudur, Siop y Pethe Cymraeg a Chymreig, Aberystwyth. Deallwch mai Rhys ydyw cyfenw'r plant yn lle Jones.

Wrth ddisgrifio'r croeso a gefais ar yr aelwyd oddeutu'r Nadolig, dywedais fel hyn, "Yr oedd Llio yn edrach yn hynod o bert, mewn gwisg binc. Yr oedd ei gwallt melyn sidanaidd yn dwad â dwy linell o farddoniaeth i'm cof ond nis gallaf gofio'r awdur."

"Ha, fe alwyd nefolion
I hollti aur yn wallt i hon."

Pwy?

Derbynias nifer o lythrau yn dweud mai Dewi Havesp oedd enw'r awdur.

Daeth y cyntaf oddi wrth Mrs Parry, 12 Castle Terrace, Dolwyddelan, Gwynedd. Dyma lythyr Mrs Parry,

"Byddaf yn darllen eich colofn yn gyson gyda blas. Gwelaf eich bod yn holi pwy yw awdur dwy linell. Dewi Havesp ydyw. Fel hyn y mae'r englyn cyflawn yn darllen.

Fy Nghariad

Grudd fad is llygad glas llon, – a dwy ael
Is dellt crych – felynyon:

Ha! fe alwyd nefolion
I hollti aur yn wallt i hon.

"Byddai fy niweddar briod, James Parry, yn hoff iawn o englynion a gallai adrodd ugeiniau ohonynt ar ei gof. Byddai wrth ei fodd yn darllen erthyglau a barddoniaeth eich diweddar dad, Glan Rhyddallt. Yr ydym wedi cadw llawer darn o'i waith o'r *Herald*. Cofiaf iddo sgwennu i'ch tad flynyddoedd yn ôl ac anfon llun iddo o garreg yn y mynydd lle'r arferai John Jones Talysarn fynd i fyfyrto, a gweddio a phregethu i'r defaid a'r ŵyn.

"Rwy'n anfon englyn a ysgrifennodd fy hen athro Ysgol Sul yn y Beibl a gefais gan y dosbarth yn anrheg priodas.

Present uwch law pob prisio – yw Bibl
I bawb a'i darllo:

Y glân adnodau di-glo,
A'r hanes geir o hono.

Dewi o'r Bryn

Y mae Mrs Parry yn hanu o deulu y

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

diweddar Athro John Lloyd Jones. Y mae'r Parch Owen Lloyd, Bryn'rodyn yn gefnder i Mrs Parry. Diolch yn fawr iddi.

Pwllheli

Dyma lythyr Mr R.W. Jones, Pwllheli, sef tad Gwilym Tudur Aberystwyth. Y mae Mr Jones yn fardd gwyh. Gwelsoch lawer o'i farddoniaeth yn y papurau newyddion a chylchgronau o dro i dro.

Meddai Mr Jones "Gwelaf eich bod yn gofyn pwy yw awdur y ddwy linell. Dewi Havesp yw'r awdur.

"Yr oedd Dewi Havesp yn gynganeddwr rhagorol, ac ar eich cais ceisiaf roddi ychydig o hanes y gŵr rhyfedd amryddawn hwnnw, un yr oedd cynganeddu iddo, yn ôl yr hanes, mor naturiol ag anadlu. Deallwch fy mod yn fras ddyfynnu o gyfrol ragorol Dewi Havesp sef 'Oriau'r Awen'.

Teiliwr ydoedd wrth ei alwedigaeth. Prentiswyd ef i'r gwaith hwnnw pan nad ydoedd ond hogyn ifanc iawn, gydag un Mr Ellis Roberts, Llanfor. Y pryd hwnnw, fel y gwyddis, byddai'n arferol gan deilwriaid fynd o gwmpas ffermdai i dorri a phwytho. Pan oedd ar un o'r teithiau hynny yn Llechwedd Cilan, Llandrillo, y cyfarfu â Miriam, y ferch hynaf. Aeth yn fargen a phriodi yn 1855. Bu iddynt bedwar o blant, tri mab ac un ferch.

Bu farw Dewi Havesp, Awst 29ain 1884 yn 53 mlwydd oed. Gorwedd ei weddillion ym mynwent Llandderfel. Y mae'r englyn yma ar ei feddfaen.

"Gan Natur, pwy gawn eto – ail Dewi?
Clod awen boed iddo:
Ni ddaw rhodd well i'n boddio
O law neb na'i englyn o."

Prin iawn fu ei gyfleusterau ond manteisiodd ar bob cyfle i hogi ei ddawn. Nid oedd ond degwm o'i waith ar gael pan fu farw, gan mai eithriad fyddai iddo roi dim o'i waith ar bapur. Syndod fod yna gynifer â 90 o'i ganeuon a'i englynion yn ei lyfr 'Oriau'r Awen' wedi'r cwbl.

Dyma un englyn o'i gyfres o englynion ar y testun 'Cyffes y Meddwyn'.

"Hen ŵr du wyf yn nhir diafol, – yn warth,

Ac yn wir annuwiol:
Iôr fy Nuw, O! tro fi'n ôl,
Gwna i Ddewi fyw'n dduwiol."

Y Tarw

Ar ddôl las beth sy gasach – drwy'r byd?
A ruir bas oerach?

Yn hagr rygnu a grwnach, –
Llew o beth yw tad llo bach.

Dewi Havesp

Afon Angau

Afon fawr a ofnaf fi – ydyw hon,

A rhaid i'm ei chroesi:
Ond trwy fy Iôn mentraf hi
A byw fyddaf heb foddai.

Dewi Havesp

Diolch yn fawr iawn hefyd i Mr R.W. Jones.

YR 'ECO' YN DOD Â DDOE YN OL

O fis i fis mae 'Eco'r Wyddfa' yn dwyn atgofion hapus i mi am flynyddoedd fy ieuenctid. Darllen adolygiad Arwel Jones yn rhifyn Ionawr o lyfr Emyr Jones – 'Bargen Dinorwig'. Cofio am y diwrnod cyntaf i mi ddringo llethrau'r Elidir i bonc California. Ers misoedd yr oeddwn wedi bod yn hiraethu am fy mhen-blwydd yn 14 oed i mi gael gadael yr ysgol a chael mynd i weithio i'r chwarel fel fy nhad a'm taid.

Cofio cychwyn o'm cartref am saith o'r gloch y bore mewn trowsus llaes, melfared, ac esgidiau hoelion mawr, a thun bwyd o dan fy ngesail. Cofio fel y byddwn yn gallu cael gwreichion wrth daro'r pedolau dur yn erbyn cerrig y llwybr. Cofio'r dychryn wrth weld llond caban o ddynion yn craffu arnaf. Clywaf yn awr un o'r dynion yn gofyn: "Pwy 'di'r hogyn yma?" "Hogyn 'Rap'," meddai un oedd yn fy adnabod. Ni fyddai neb yn y chwarel yn cael ei enw bedydd, a Joni Rap fu fy enw tra bûm yn y chwarel (neu Sion Rap gan hogia o'r un oed). Gelwid fy nhad yn Ap Elidir, ac aeth yr 'Ap' yn 'Rap'.

Cofio'r sgwrsio a fyddai yn y caban ar awr ginio, a'r hen chwarelwyr yn sôn am yr 'amser caled'. Yn llyfr 'Bargen Dinorwig' cawn hanes y cload allan. 'Roedd yn amser caled iawn, a phawb yn y fro'n dibynnu ar y chwarel am foddion cynhaliaeth. Cofio un o hen drigolion y Nant yn adrodd hanes Mr William Rathbone, A.S. dros Arfon, yn rhoi cant o lo yn anrheg Nadolig a thri swllt ar ddeg i bob teulu.

Ar ôl dechrau gweithio, dechreuais gael blâs ar addysg, ac wedi mynychu dosbarthiadau Addysg y Gweithwyr, enillais ysgoloriaeth i Goleg yr ail gynnig; ond torrodd yr Ail Ryfel Byd allan, a chollais y cyfle.

Yn yr 'Eco' y mis diwethaf, yr oedd llun o Mrs Parry, Hafod y Rhug

Isaf yn torri ei chacen pen-blwydd yn gant oed. Priod y diweddar Griffith Parry, y gŵr diwylliedig a fu'n ddylanwad mawr ar fy mhentyndod cynnar. Dysgodd fi i adrodd, ond yn fwy na dim, dysgodd fi i fwynhau darllen barddoniaeth. Byddwn yn mynd i'r Hafod y Rhug, Waunfawr ddwywaith bob wythnos ar ôl dod adref o'r chwarel, a bob wythnos, byddwn yn cystadlu mewn eisteddfodau ym Môn, Arfon a Meirion.

Y pryd hwnnw, rhaid i adroddwyr anfon eu ffug-enwau ymlaen llaw i ysgrifennydd yr eisteddfod. Yr enw a fyddwn i'n ei anfon oedd 'J.E.' Cofiaf i Griffith Parry un nos Fercher ar aelwyd yr Hafod fy medyddio ag enw sydd wedi wrthyf hyd heddiw. "O hyn allan," meddai, "dy enw fydd Perisfab". Fy enw fel adroddwr oedd hwn, ac nid, wrth gwrs, enw barddol.

Os mai chwarelwyr Dinorwig a roddodd yr enw cyntaf arnaf, cefais yr ail gan un yr wyf yn ddyledus iawn iddo. Cymeraf y cyfle hwn i longyfarch y wraig fonheddig sydd bellach yn byw yng nghartref ei merch, Gwyneth, yn Aberaeron.

Ers blynyddoedd bellach, rwyf yn byw ar f'atgofion, ac yn treulio llawer o amser ar fainc wrth bont y pentref, lle bûm yn chwarae gynt yn blentyn. Byddaf yn diolch fod yr atgofion yn rhai hapus.

Perisfab



GŴR GWADD

Mr Angus McDermid, y newyddiadurwr adnabyddus a chyn-ohebydd yn Adran Newyddion y BBC oedd gwestai arbennig Clwb Eryri ym mis Chwefror. Yn ei anerchiad, bu'n trafod ei waith fel gohebydd yn yr Unol Daleithiau ac yn Affrica ble bu'n gwasanaethu am rai blynyddoedd.

Mae Mr McDermid sy'n enedigol o Fangor bellach wedi ymddeol ac mae'n bwriadu dod i fyw i'r Fachwen. Efallai ei fod wedi clywed nad oes gan yr Eco ohebydd yn y rhan hono...

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW

GWRES BP



Aelod o'r National
Association
of
Plumbing and Mech-
anical
Contractors.
Services

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

Canolfan Tanybont

Aelodau a'u gwesteion yn unig

Lle da i gyfarfod eich ffrindiau
Clwb merched bob yn ail nos Fawrth (10fed a 24ain)
Gwyddbwyll bob nos lau, etc.

Nos Wener

Adloniant byw, bwyd a bar hwyr – 11.30

6 Shandi
13 Alawon Menai
20 Cilmeri
27 Yr Ynyswyr

Nos Sadwrn

Disgo'r Llais a Grŵp, bwyd a bar hwyr 11.15

7 Chwarter i Un
14 Louis a Rocers
21 Rocyn
28 Angylion Stanli

RHAGOR O HELYNTION 'HOME GUARD' PENISARWAUN gan 'Y GWALCH'.

Ffurfiwyd yr Home Guard i gychwyn fel byddin i wrthsefyll milwyr awyr yr Almaen a oeddent yn cael eu defnyddio fel lleng flaen i oresgyn yr holl wledydd. 'Local Defence Volunteers' oeddent nhw yn cael eu galw yr adeg honno ac yr oedd yna filoedd wedi ymgynnull mewn ychydig o ddyddiau.

Y dyn a oedd yn canu'r rhyfelgyrch yn y Waun oedd Tomos Edwards, Plas Coch. 'Roedd o'n gyn-forwr ei hun ac yn drefnydd mudiadau hyn a'r llall ac yn dueddol o golli brwdfrydedd os nad oedd yn cael ei fachu yn y cadwynni blaen.

'Rwy'n cofio mynd yno i chwilio amdano fo rhyw bnawn Sadwrn efo Elfed Tŷ Gwyn. Dyddiau cynnar y platŵn oedd hi. 'Doedd y gynnau ddim wedi cyrraedd a dim ond gan rai yr oedd dillad khaki.

'Roedd yna ymarferiad wedi ei drefnu rhwng hogia'r Waun â rhai Penisa'rwaun a'r amcan oedd, chwythu'r Post i fyny efo bom ddychmygol.

Erbyn i ni gyrraedd y Pas 'roedd Tomos a'r hen Jane ar eu cinio, a dyma ninnau yn cael panad bob un, a fuasai neb yn dychmygu oddi wrth yr awyrgylch fod yna symudiad mor fawr ar dro.

Pan ddaeth hi'n amser cychwyn 'roedd Twm Edwat wedi cymeryd y busnas arno'i hun i ddweud sut yr oedd hi i fod. 'Roedd o yn ei sgidia chwarel a'i hen gôt law, a chadach coch wedi ei chwipio am ei wddw fo i ddangos ei fod o ddifri. Roedd yr hen Jane ar ben y drws yn codi ei llaw fel pe tasa ni ar gychwyn am y Dardanelles. Roedd Mrs Evans, Gorffwysfa yn dweud wedyn ei fod o, wrth ein hochrau ni, mewn khaki, yn edrych fel 'deserter' yn cael ei hebrwng yn ei ôl dan escort.

Roeddent ni yn disgwyl torri ar draws heibio tŷ Twm Nantw a mynd am Gors Goch, ond 'roedd meddwl milwrol Twm Edwat yn gweithio ar donfedd arall. "Mi awn ni ffor' yma," medda fo a throi i lawr am Bryn Eithin, ac erbyn i ni gyrraedd giât Gors, roeddwn ni'n gwybod pam.

'Roedd o wedi bod yn darllen hunangofiannau cadfridogion mawr y byd, a sut yr oeddent nhw yn mynd o gwmpas ennill rhyfeloedd. 'Roedd y 'direct attack' chwedl yntau wedi mynd allan o'r ffasiwn tuag adeg Waterloo. Beth oedd yn cyfri erbyn hyn oedd blyff, nid bôn braich. Roeddent ni yn mynd i ddangos i griw Penisarwaun ein bod ni wedi gweld rhywbeth heblaw Sgwâr Siop Gron.

Ymlaen â ni heibio i'r cyfar main, ac erbyn i ni gyrraedd Cors Blaen Cae roedd Twm Edwat wedi dechrau ar ei hunangofiant ei hun, fel yr oedd o wedi canu

Hywel a Blodwen efo rhyw hogan o Gapel Seion, ac i brofi'r ffaith dyma fo'n rhoi ei draed ar led yng nghanol y brwyn a mynd drwy far neu ddau.

Dyma ni trosodd i'r Bryndu Mawr, a phwy oedd yn y fan honno ond 'Cariad Yw' a Lei Bach o Lanbabo, yn ffreta, ond 'doedd ganddyn nhw fawr o dempar i wrando ar Twm Edwat yn egluro sut roeddant ni am chwythu'r Post. 'Roedd y ffyrat wediblocio, ac yr oedd Lei at ei 'sgwyddau yn y twll.

Ymlaen â ni am Beudy Siôn Dywyll, ac 'roedd Elfed a fi wedi mynd i ddechrau pwnio ein gilydd ac yn dechrau amau fod y dyn am fynd drwy Rhiwlas a rownd Moel Rhiwen i roi bom anweledig ar Bost Penwarwaun.

Yn y diwedd dyma ni'n cyrraedd Fron Deg, a phwy oedd yn y fan honno yn llau ei 'sgidiau ar ben wal yr ardd ond Edward Jones.

'Doedd pobol ddim yn gweld ei gilydd mor aml yr adag honno, a dyma'r ddau ddyn yn mynd i sgwrs - am y cynydau a'r tywydd a'r chwarael, ac yn y diwedd am y rhyfel.

'Roedd Twm Edwat o'r farn y dyla'r dyn a oedd yn gyfrifol am y llanast yn Ffrainc gael ei saethu, a 'doedd dim eisiau gofyn pwy fasa fo'n ei awgrymu i gymeryd ei le o.

Ar hynny dyma Mrs Jones yn dod i'r drws. "Dewch i mewn," meddai hi "am panad," a dyma ni'n mynd.

Yr adag honno 'roeddent nhw yn gwneud defod o yfed te fel maen nhw yn Japan. Nid stwffio rhyw fyg o dan drwyn rhywun a llond ei gwaelod hi o ddail, ond gosod lliain glân, a llestri gorau, a phowlan siwgr, a jwg lefrith efo mwelis ar ei wyneb o, os oedd hi'n haf pryfedog.

Dyna gawson ni yn Fron Deg, ac wedyn dyma Twm Edwat yn rhoi jou o faco newydd yn ei geg ac yn dechrau symud y llestri hyd y bwrdd i egluro sut yr oeddent ni'n mynd i drin hogia Pensa'rwaun.

'Roedd Elfed a fi yn cicio ein gilydd o dan y bwrdd ac yn amau, os na fasa fi'n styrio y basai rheiny wedi mynd adra i gyd i 'molchi a newid i fynd i'r dre i garu neu i'r 'Four Alls'.

Beth bynnag yn y diwedd ar ôl y diolchiadau, dyma ni'n 'nioni am Fron Chwith, ond allan o iwc yr oeddant ni. Pwy oedd yn y fan honno yn pwyso ar ragddor y beudy yn mynd i rwymo'r gwartheg i odro ond Robot Owen, a dyma Twm Edwat yn aildechrau ar hwnnw rhag ofn nad oedd o ddim wedi cael y cyfle i astudio tueddiadau rhyfela ar ôl brwydr Waterloo.

"Lwcus dy fod ti wedi dweud," meddai hwnnw wrth Twm Edwat. "Roeddwn i'n meddwl i ddechrau mai rhyw

sbei oeddent ti wedi cael ei ddal."

'Doedd hynny ddim yn plesio llawer, a ffwrdd â ni i'r lôn fawr yn giât Caer Mynydd. 'Roedd hi'n lôn berthog, gysgodol yr adeg honno, yn mynd i rhywle arbennig - cyn i'r Llyffantod Melyn gael gafael arni a'i gwneud hi'n lôn yn mynd i nunlle.

'Roedd hi ymhell yn y pwnn arnom ni'n cyrraedd Groeslon Blaen Cae. 'Roedd yna dŷ yno yr adeg honno a'r trigianydd oedd Richiard Owen. Roedd o a'i droed ar ben wal yn sbio ar lawr gwlad a chafodd o ddim amser i ddyfalu dim am ein busnes ni. 'Roedd Tomos Edwat wedi ei roi o yn y darlun mewn dau funud, a'r tro hwnnw 'doedd dim angan llestri te, 'roedd y targed i'w weld yn blaen islaw o'n blaenau ni.

'Roedd o awydd wedyn i mi fynd i lawr i sgowtio, ac os oedd o'n disgwyl i mi fynd yn fy ôl i fyny'r allt wedyn, ei siomi gafodd o. Dyma fi'n torri ar draws y caeau heibio i Buarth Clytiau ac allan yn y lôn wrth Weirglodd Goch, a beth oedd yn cloncian i lawr y ffordd yn y fan honno i Gae Corniog Mawr yn barod i ddechrau troi peth cynta fore dydd Llun ond dyrnwr Huw Owen, Tyddyn Oer, ac os oes 'na rhywun yn yr oes oleuedig yma 'rioed wedi gweld dyrnwr mawr, nid fy mai i ydy fod yna fwllch mor waradwyddus yn ei addysg o.

'Roedd yr hen Huw ei hun ar y tractor mawr 'Titan' ar y blaen (hwnnw sydd yn San Ffagan heddiw) a Thomi Refal, Llanrug yn cerdded y tu ôl iddi yn ymyl y tyllau grawn.

'Roeddwn i yn eu nabod nhw yn iawn; mi fyddant yn dwad acw, a phan eglurais i wrth Tomi beth oeddwn i'n drïo ei wneud dyma fo'n dweud wrthyf i am gerddad yr ochr arall i'r dyrnwr.

'Roedd yna dri neu bedwar o'u hogia nhw yn ymyl Tŷ Huw Preis, a dyma Tomi yn rhoi ei ben rownd tŷn y dyrnwr a gweiddi arna i i neidio i fyny ar ei ochr o, a dyna wneis i, a dal fy ngafael yn y pwll mawr oedd yn troi'r cafneu gwellt. Ond pan ddaethon ni i Dalsarnau, lle mae'r 'Ffynnon Gwrw' heddiw, dyma fi'n ei gweld hi'n fffagio arna i, achos 'roedd Huw Owen yn troi i fyny'r lôn bach.

Dyma fi'n cynnig naid tros y wal i gae Cae Corniog, ond mi fethais hi, a syrthio wysg fy nghefn i'r lôn, a bu bron i mi fynd o dan y dyrnwr, beth fasa erbyn heddiw ella wedi bod yn fendith. Wedyn 'roedd y pedwar hogyn oedd erbyn hyn y tu ôl i'r dyrnwr efo Tomi, ar fy ngwegil i fel barcutod ar gyw, a dyma nhw yn mynd â fi at Siop Gron i'm dangos fel ysbail rhyfel. Ond roeddent nhw yn methu dirnad am gerddediad Twm Edwat, a 'doedd un neu ddau ddim tu draw i awgrymu troi fy mreichiau i am wybodaeth.

Beth bynnag, doeddwn i ddim

wedi bod yn hir yn garcharor pan ddaeth Elfed Wyn i'r cawell. 'Roedd o wedi cynnig ei ffawd ar hyd caeau Perthi, ac wedi mynd ar ei ben i haffla'r amddiffynwyr tu ôl i Siop Lisi Malan.

Erbyn hyn, yr unig fygythiad i ddiogelwch y Post, a Mrs Jones, oedd Tomos Edwards, Plas Coch.

'Doedd beth ddigwyddodd i'r hen Domos ar ôl ein gadael ni yn y Groeslon ddim i gyd yn amlwg y diwrnod hwnnw, ond ar ôl cael amser i hel y ffeithiau i gyd (chwedl hogia'r TV) daeth y darlun cyflawn at ei gilydd.

'Roedd o wedi dod i lawr i Groeslon Racca ac wedi stopio, (comandirio oedd ei air o) un o'r bysus yn mynd i Gaernarfon. 'Roedd o wedi cael dadl efo'r conductor i ddechrau ynghylch y ffêr. 'Roedd o wedi dweud wrth hwnnw am yrru'r bil i Lundain achos ei fod o ar fusnes OHMS, a wnaeth o ddim gwella dim ar dempar hwnnw drwy fynnu gorwedd ar ei hyd-gyd ar lawr y bys o dan draed y bobl rhag ofn i hogia Pensa'rwaun ei weld o drwy'r ffenest', ac mi 'roedd 'na rai ar gael a oedd yn barod i dystio ei fod o'n dal i gega efo'r dyn ar wastad ei gefn.

Ŵyr neb ddim beth oedd ei amcan o ar ôl cyrraedd Sgwâr Siop Gron, ond y ffaith ydy fod yna griw o hogiau wedi ymgynnull yn y fan honno i gadw eu llygaid ar y motos, ac 'roedd yna griw hefyd o bobol yn disgwyl mynd i lawr i'r dre, oedd â wnelo nhw ddim â'r sgwffwff, a rhwng y rheiny yn trio mynd i mewn a fyntau yn trio dod allan dan ddal i refru'r conductor, busnas bach oedd i'r hogia gwtogi ar ei ryddid o.

Beth bynnag, mi bwdodd ar ei union, a ffwrdd â fo adref a'i ddwy law ar ei gefn heibio Tai Brics gan boeri sŷg baco am ben ei draed.

Ond Elfed a fi oedd o dani am ddifetha'r 'oparesion' i gyd - yn enwedig y fi am fod mor ddiawledig o wirion a mynd i ganlyn y dyrnwr, a welson ni ddim ohono fo wedyn ar y parêd am bobiad neu ddau.

Ond chwythwyd mo'r Post i fyny. Mae o'n dal yno o hyd 'rwy'n sylwi, er maen nhw'n dweud i mi nad oes fawr o ddiben mynd yno i brynu stamp ceiniog erbyn heddiw - na fawr o ddim arall 'chwaith!

"Y GWALCH"

(Cafwyd enw a chyfeiriad 'Y Gwalch' - Gol.)

SIOE GWNINGOD

Cofiwch am y Sioe Gwningod a gynhelir yng Nghanolfan Gymdeithasol Cwm-y-glo ddydd Sadwrn 7ed o Fawrth. Bydd y drysau'n agored am 1.30 p.m. Pris mynediad 20c, plant a phensynwyr 10c. Darperir lluniaeth ysgafn.

Os ydych angen rhagor o fanylion, ffoniwch Llanberis 851.

Y Stori fer: parhad o dudalen 9.

Daeth sŵn anadlu poenus ei modryb i dorri ar ei myfyrdodau. 'Roedd y llygaid ar agor a synnodd Mair at y llesgedd a'u llenwai.

"Ti sydd yna, mechan i?" sibrydodd y llais yn floesg. Estynnodd ei llaw ati a gafaelodd Mair ynnddi'n dyn gan ddiesyfu â'i holl galon drosglwyddo rhyw gymaint o'i nerth a'i hegni i un a oedd yn gorwedd mor llonydd yn y gwely. Syrthiodd y llaw yn ôl ar y gynfas.

"Wedi cael annwyd yda chi Modryb. Mi ddowch ymhen rhyw ddiwrnod neu ddau."

Celwydd golau meddyliodd, a dyma fi wedi syrthio i'r un ffrag â'r rhai hynny 'rwy'n eu condemnio am drin yr hen fel pe baent yn hanner pan.

Hanner cododd yr hen wraig ar ei heistedd, ac edrychodd i fyw llygaid Mair. Nid ynganodd air, ond ysgydodd ei phen yn bendant o un ochr i'r llall a'r llygaid yn serennu i waelodion ymasgaroedd ei nith, fel pe bai'n dweud - 'Dyna ddigon. 'Rwyf i'n gwybod, ac 'rwyf tithau'n gwybod. Gad o ar hynny.'

Yna trodd ei phen ac edrych allan trwy'r ffenestr ar y cwm, cwm ei phlentyndod. Caeodd ei llygaid, a gwyddai Mair na fynnai iddi aros rhagor. Cododd yn araf, a rhoddodd un gusan olaf ar y talcen oer.

Bu Catherine Edwards farw y noson honno, yn dawel a di-boen, yn ôl y meddyg.

Claddwyd hi ar y Sadwrn cyn yr Eisteddfod. Yr oedd yn un o'r dyddiau braf prin rheiny yn ystod haf 1979. Ychydig oedd yn y capel, ond yr oedd dau o'i hen ddisgyblion wedi dod yno i dalu'r gymwynas olaf, un o Lundain a'r llall o Sir Benfro.

Eisteddai Mair yn un o'r seddau blaen yng nghanol y teulu gan osgoi edrych ar yr arch, a gafael yn dyn yn llyfr emynau ei modryb. 'Roedd y llyfr a'i berchennog wedi mynychu'r capel hwn am dros dri chwarter canrif. Dyma'r tro olaf.

Siaradai'r ddau weinidog yn

annwyl a siriol am eu cyn-athrawes gan droi'r gwasanaeth yn un o fawl a diolchgarwch. Wffftiai Mair at ddagrau ffug ac ystumiau galaru rhai o'i pherthnasau. Anghofiodd amdanynt, ac ymgollodd yn atgofion John Williams, y gweinidog. Arweiniodd hwnnw hi drwy'r ysgol fechan am y tro olaf wrth ddwyn atgofion ei blentyndod i gof. Canwyd hoff emyn yr ymadawedig 'Dyro afael ar y bywyd', ac yna allan ac i'r fynwent.

Daeth pawb ymhen y rhawg at lan y bedd, a theulu Manceinion yn eu plith. Clywyd rhai yn sibrd, "Wedi dod yr holl ffordd - chwarae teg iddyn nhw."

"Mab a merch ei chwaer ie'nga', Maggi - honno wedi mynd i ffordd i weini yn hogan ifanc, priodi rhyw Fred Kenworthy - gwneud yn dda."

Tawelodd y sibrydion pan ddaeth y gweinidog lleol, y Parchedig Islwyn Hughes ymlaen i weinyddu'r defosiynau olaf.

"... our departed sisten in Christ ..."

Sythodd Mair wrth ochr y wal lechi pan glywodd y geiriau. Beth oedd hyn? Rhywun wedi rhoi gwybod iddo fod Saeson uniaith yn bresennol, ac yntau yn slafaidd, foneddigaidd yn ymateb fel sawl Cymro parchus. "For the sake of our English friend" fel petai. Llygadrythai Mair arno gan ymbilio â'i holl enaid iddo newid ei iaith.

"Na! Na! Peidiwch a gwamalu, nid ar lan bedd; pwy yda chi'n ei gladdu beth bynnag? - nid y blydi Saeson yma, ond Cymraes na symudodd o'i milltir sgwâr trwy gydol ei hoes faith."

Glynodd y geiriau yng nghefn ei gwddw, a daeth cyfog chwerw i lenwi'i cheg. Trodd ei chefn ar y gwasanaeth a cherdded allan o'u plith, gan gamu'n ofalus rhwng y cerrig beddau gleision, heb eu gweld.

Yno, ar y llethr, wylodd Mair ddagrau hallt, wylodd mewn hiraeth am ffrind pur, am orffennol na ddeuai'n ôl, ac wylodd am y dyfodol.

CWM-Y-GLO

YR URDD - Nos Iau, Ionawr 22, Mr Eric Jones, Prif Swyddog Diogelwch y Ffyrdd, Gwynedd fu'n diddori'r plant. Trwy gyfrwng ffilm amlygwyd y peryglon a achosir drwy anwybyddu 'Rheolau'r Groes Werdd'. Felly, blant, cofied y rheolau cyn croesi'r ffordd, bob amser.

Nos Iau, Chwefror 5 cafwyd noson arall o ffilmiau yng nghwmni Mr Morris, sef Swyddog yng Ngwasanaeth Tân Gwynedd. Trwy gyfrwng y ffilm gwnaed yn glir yr hyn a all ddigwydd trwy chwarae â than. Gobeithir mynd â'r plant i'r Orsaf Dàn yng Nghaernarfon yn yr haf.

Ar hyn o bryd mae'r plant yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer Eisteddfod Gylch yr Urdd a gynhelir yn Ysgol Brynrefail Llanrug ar ddydd Sadwrn Mawrth 7.

UNDEB Y MAMAU - Cynhaliwyd cyfarfod Undeb y Mamau yn y Ganolfan yn ddiweddar. Arweinwyd y gweddïau agoriadol gan y Rheithor a chyfeiliwyd gan Miss Ceridwen Hughes. Llywyddwyd gan Mrs D.G. Williams, Y Rheithordy. Y wraig wadd oedd y Dr Enid Roberts, Bangor a rhoes sgwrs addysgiadol a diddorol ar hen fwydydd y Cymry tua thair canrif yn ôl. Diolchwyd iddi gan Mrs Watkins a nifer o'r aelodau. Y gwestwragedd oedd Mrs Williams, Nant Forgan a Mrs Roberts, Bod Gwilym a diolchwyd iddynt gan y Rheithor. Diweddwyd drwy weddi.

Y GANOLFAN GYMUNED - Cynhaliwyd y cyfarfod cyhoeddus blynyddol yn yr ysgol nos Fercher, Ionawr 21, 1981. Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd am 1980, Mr Dafydd Price, ac estynnodd groeso cynnes i bawb. Enwyd y cynrychiolwr o bob mudiad ar gyfer y flwyddyn a chafwyd adroddiad byr ar weithgareddau'r flwyddyn gan Mr G. Hefin Jones (Is-gadeirydd).

Cyfarfu'r Pwyllgor yn syth ar ôl y cyfarfod cyhoeddus ac etholwyd swyddogion am y flwyddyn, sef: Cadeirydd, Mr Gwyn Hefin Jones, Is-gadeirydd, Mrs Verna Jones, Ysgrifennydd, Mrs Hilda Orritt, Is-ysgrifennydd, Mrs Gwyneth Chick, Trysorydd, Mr Llewelyn Hughes.

Diolchwyd yn arbennig i swyddogion y flwyddyn cynt, a chafwyd trafodaeth am sawl pwnc ynglŷn â'r ganolfan.

Adroddwyd bod Pwyllgor y Carnifal yn dwyn ei gweithgarwch i ben, ac awgrymwyd mai da o beth fyddai cael Pwyllgor y Ganolfan mewn cydweithrediad â mudiadau eraill y pentref i drefnu'r Carnifal a'r gweithgareddau am yr haf. Penderfynwyd sefydlu Is-bwyllgor i lywio'r gweithgareddau, ac i ofyn i bob mudiad am eu hawgrymiadau.

GWEITHGAREDDAU'R HAF - Cyfarfu'r Pwyllgor Llywio ar gyfer trefnu gweithgareddau'r haf ar Chwefror 12. Edrychid ymlaen at gael cydweithrediad pob mudiad ac unigolyn yn y pentref i gael pentwr o weithgareddau amrywiol i bawb. Penderfynwyd anelu at gael diwrnod y Carnifal ar Awst 22 eleni.

MERCHED Y WAWR - Cyfarfu y gangen leol yn y Ganolfan Gymdeithasol nos Fercher, Chwefror 18 o dan lywyddiaeth Miss Mat Pritchard, BA. Cyflwynodd y wraig wadd, Madam Sera o'r Bontnewydd i'r aelodau.

Cafwyd noson hwyliog dros ben yn ei chwmmi, a rhyfeddwyd at ei dawn amryddawn i diddori. Rhoddodd ei gwasanaeth yn rhad, ac ar ei dymuniad anfonwyd siec yn enw'r gangen ar gyfer ymchwil afiechyd yr iau mewn plant.

Mrs G. Chick, Tan y Bryn a Miss E. Hughes, Tan y Graig ddarparodd y te, a hwy hefyd roddodd wobr y mis, a

enillwyd gan Mrs Jean Hughes, Bryn Gro.

Diolchwyd iddynt, ac i Madam Sera gan y llywydd, a Mrs Ifanwy Jones, Min y Nant.

Cafwyd adroddiad manwl o'r Pwyllgor Rhanbarthol a gynhaliwyd yng Nghaernarfon yn ddiweddar gan yr ysgrifennydd, Mrs Iris Rowlands, Glan'rafon.

Ail etholwyd Mrs Verna Jones, MSc, Meillion i gynrychioli'r gangen ar bwyllogr y Ganolfan a'r cae chwarae. Trefnwyd hefyd gogyfer â'r Ffair Wanwyn sydd i'w chynnal yng Nghaernarfon ar Ebrill 11, pryd y byddwn yn cydweithio â changen Bethel ar y stondin fwydydd.

Parti Blodau'r Grug o Lanrug fydd yn cyd-ddathlu Gŵyl ein Nawddsant yn y ganolfan ar Fawrth 18, ac edrychwn ymlaen i'w croesawu.

Llawenydd mawr oedd cael croesau dwy aelod newydd i'n plith, sef Mrs Elwyn Morris, Llanberis a Mrs Deiniol Evans o'r Cwm.

GWERTH £10,00 O LYFRAU I GYLCHOEDD MEITHRIN GWYNEDD

Mae pentwr o lyfrau Cymraeg addas i blant ysgolion meithrin gwirfoddol y Sir newydd gyrraedd pencadlys Llyfrgell Sir Gwynedd yng Nghaernarfon - o ganlyniad i'r grant o £10,000 a dderbyniodd y Llyfrgell o'r swm arbennig a neilltuodd y Swyddfa Gymreig hyd Fawrth 1981 tuag at hybu'r iaith Gymraeg.

Meddai Mr Geoffrey Thomas, Llyfrgellydd Sir Gwynedd: "Rydym eisoes yn benthyg llyfrau Cymraeg i ryw 150 o grwpiau meithrin yn y Sir, a theimlem y byddai'n fuddiol cynyddu ein stoc, yn ogystal â diogelu'r stoc sydd gennym eisoes trwy eu hail rwymo a'u cryfhau. Gwnaethom gais felly am grant o £10,000, gyda'r bwriad o ddefnyddio o leiaf ei hanner, i brynu llyfrau newydd, a'r hanner arall i'w rhwymo a'u diogelu. Rydym yn dra diolchgar i'r Ysgrifennydd Gwladol am dderbyn y cynllun".

SETIAU TELEDU LLIW AIL LAW MEWN CYFLWR RHAGOROL SIOP DELEDU

T CEPAS

Ffordd yr Orsaf LLANRUG

(Ffôn: Llanberis 205 gyda'r nos)

HYSBYSIAD

NATIONAL PARKS AND ACCESS TO THE COUNTRYSIDE ACT 1949 TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1971

HYSBYSIR DRWY HYN Y BYDD

J.H. CHATER YSW. C. Eng., M.I. Mun. E., F. Inst. HE AROLYGYDD A GYFARWYDDIR GAN YSGRIFENNYDD GWLADOL CYMRU YN BRESENNOL YN

FESTRI CAPEL GORFFWYSFA, LLANBERIS DDYDD MAWRTH 17 MAWRTH 1981 AM 10.00 A.M.

i gynnal ymchwiliad lleol cyhoeddus o dan ddarpariaethau adran 109 The National Parks and Access to the Countryside Act 1949 ac Adran 282 The Town and Country Planning Act 1971 i'r cwestiwn a ddylai'r Ysgrifennydd Gwladol 'Benderfynu Fel Arall' o dan Adran 14(2) Deddf 1949 i ganiatáu defnyddio tir yng nghyffiniau'r cromlechi gerllaw'r A4086, sef darn o'r tir a brynwyd ganddo o dan Adran 14(1) Deddf 1949, at ddibenion gwella'r ffordd, o gofio darpariaethau Adran 5 Deddf 1949.

Dyddiedig: 3 Chwefror 1981

B.H. Evans, a awdurdodwyd gan Yr Ysgrifennydd Gwladol i lofnodi ar ei ran.

DEINIOLEN

COLLI GOHEBYDD - Ar ôl blynyddoedd o wasanaeth ffyddlon i'r Eco yn Neiniolen, yn gyntaf fel Trefnydd Gwerthiant, ac wedyn fel gohebydd, mae Mr Meirion Jones, Clwt y Bont, wedi mynegi'r awydd i roi'r gorau i'w swydd. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn iddo ar ran y papur, a'r fro, am ei waith di-flino. Hoffwn, yr un pryd, wneud apêl am enw a chyfeiriad unrhyw un yn Neiniolen sydd yn fodlon ymgymryd â swydd Gohebydd Pentref. Diolch yn fawr.

Tony Elliott (Golygydd)

Y SEINDORF - Penodwyd Mr D. Williams o Lanfairpwll, Môn yn arweinydd newydd y Seindorf. Dechreuodd ar ei yrfa ar Chwefror 1. Dymuniadau da iddo a'r Seindorf yn y dyfodol.

Enillwyr Clwb 200 mis Chwefror: £25 - (29), Mary Jones, 5 Maes Eilian, Dinorwig; £15 - (35), Nia Williams, 6 Ffordd Deiniol, Deiniolen; £5 - (87), Glenda Morris, 13 Tal-y-bont, Llanrug.

DIOLCHIADAU - Dymuna Mrs A.M. Morris, 4 Tai Marian, ddiolch i'w pherthnasau, cymdogion, a chyfeillion ah y caredigrwydd a ddangoswyd iddi yn ystod ei harhosiad yn yr ysbyty. Hefyd diolch i'r meddygon a'r gweinyddesau yn Ysbyty Dewi Sant Bangor am eu gofal caredig.



Mr Gwilym Owen gyda'r Frenhines a'i gosgordd

DEWIS BRENHINES Y CARNIFAL - Roedd nos Wener, Chwefror 20, yn noson bwysig iawn i bob pentref. Cynhaliwyd Noson Goffi yn Ysgol Gwaun Gynfi. Trefnwyd y noson gan bwyllgor y Carnifal, ac uchafbwynt y noson oedd dewis Brenhines 1981 a'i gosgordd. Roedd Mr Gwilym Owen (H.T.V.) yn bresennol yn y Noson Goffi, ac mi gafodd y gwaith pwysig o dynnu'r enwau buddugol allan. Roedd Brenhines 1980, Susan Owen, yn bresennol hefyd i drosglwyddo'i choron i'r Frenhines newydd, sef Bridget Hughes. Y Tywysog newydd yw Karen Hughes; Sharon Kirsty Griffiths a Donna Woodcock yw'r ddwy forwyn, a'r ddau facwy yw Barry John Thomas a Gregory McKenzie.

Marian Williams enillodd y gystadleuaeth am ddyfalu'r nifer o bys mewn potel, ac enillwyr eraill y gwahanol rafflau oedd Lorna Lewis, Yvonne Jones, David Jones, Carys Williams, Mrs Grindley, Nicola Vaughan Parry a Linda Jones.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i Mr Gwilym Owen, a'r Frenhines a'i gosgordd.

Diolch i Mr John Morris, Crown, Clwt-y-bont am y gerdd hon.

FFRIND

'Rwy'n gwybod fod rhaid iti fynd,
Ond cofia, ti ydyw fy ffrind,
Mae' nghalon ar dorri,
A minnau yn sori,
Wrth dy weled yn myned mor bell.

Bydd gwyntoedd y gaeaf yn greulon,
A minnau yn disgwyl yn ffyddlon,
Yn meddwl amdanat bob awr,
Yn disgwyl dy weld gyda'r wawr,
Mor unig fe fyddaf mewn cell,
A thithau ar grwydr ymhell.

Yn nŵch y nos, llosga'r fflam,
A minnau yn gofyn "O pam,
Yr aethost i grwydro'n ddi-hud,
A 'ngadael mewn dicter a llid?"
Un gusan rwy'n gofyn, On un,
A chadw mewn cornel dy lun,
Wrth deimlo mor swil, a mor nerfus,
Caf selio fy nghariad a'th wesfus
Ac ella ar ôl i ti fynd,
Fe gofi amdanaf fel ffrind,
Yn llunio telyneg, neu gân,
A weithiau daw hiraeth i'th fron,
Tro arall, fe deimli yn llon;
Bob tro y gweli'r griafolen,
Fe gofi am un o Ddeiniolen,
Ei galon yn gwaedu yn goch fel y grawn,
O hyd yn hiraethu, a'i llygaid yn llawn,
O ddagrau. Ar ôl i ti fynd.



Seindorf Cynfi (Deiniolen) a enillodd y wobwr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor 1931. Llun trwy garedigrwydd Mr Bob Rowlands, 8 Tai Cynfi, Deiniolen.

BRYNREFAIL

CLWB Y MAMAU - Yng nghyfarfod y mis yn Nhŷ Glas, cafwyd darlith ynglŷn â gwaith y Bwrdd Cyfarwyddyd Dinasyddion (Citizens Advice Bureau) gan y trefnydd rhanbarthol, Mrs A. Griffiths. Rhoddwyd y te gan Sheila Williams a Liz Thomas. Rhoddwyd anrheg y mis gan Carol Houston ac fe'i enillwyd gan Margaret Wardle.

DY WEDDIAD - Llongyfarchiadau i Medwen Jones o Greuor Villa ac Alan Wyn Williams o Arfon House, Deiniolen ar achlysur ei dyweddiad ar Ionawr 24. Dymuna Medwen ac Alan ddatgan eeu diolch yn gynnes iawn i'r teulu a chyfeillion oll am eu hanrhegion a'u dymuniadau da.

MARWOLAETH - Yn ystod y mis a aeth heibio, bu farw Mrs Elizabeth Foulkes, Haulfryn, Brynrefail. Y llynedd bu ei hanes yn yr Eco yn dathlu ei phen-blwydd yn bedwarugain, a thrist yw y golled o foneddiges oedd yn uchel iawn ei pharch ac edmygedd gan y pentref a'r ardal. Bu yn aelod ffyddlon o'r Capel a'r Ysgol Sul drwy gydol ei hoes. Fe estynnwn ein cydymdeimlad dwys at y teulu oll yn eu profedigaeth.

CLWB PEDWARUGAIN - Enillwyr mis Ionawr. Ionawr 2: 1. O.J. Williams, 2. Betty Green; 3. Will Hughes. Ionawr 9: 1. Helen Jones, 2. Islwyn Williams, 3. Sue Jones. Ionawr 16: 1. Elinor Williams, 2. Wilburt Williams, 3. Rhian Jones. Ionawr 23: 1. Gwilym Cyttir, 2. Jenny

Roberts, 3. Alwyn Roberts. Ionawr 30. 1. Meurig Jones, 2. Shirley Roberts, 3. Glyn Owen.

YR URDD - Nos Iau, Ionawr 22, Mr Eric Jones, Prif Swyddog Diogelwch y Ffyrdd, Gwynedd fu'n diddori'r plant. Trwy gyfrwng ffilm amlygwyd y peryglon a achosir drwy anwybyddu 'Rheolau'r Groes Werdd'. Felly, blant, cofied y rheolau cyn croesi'r ffordd, bob amser.

Nos Iau, Chwefror 5 cafwyd noson arall o ffilmiau yng nghwmni Mr Morris, sef Swyddog yng Ngwasanaeth Tân Gwynedd. Trwy gyfrwng y ffilm gwnaed yn glir yr hyn a all ddigwydd trwy chwarae â thàn.

Gobeithir mynd â'r plant i'r Orsaf Dàn yng Nghaernarfon yn yr haf.

Ar hyn o bryd mae'r plant yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer Eisteddfod Gylch yr Urdd a gynhelir yn Ysgol Brynrefail Llanrug ar ddydd Sadwrn Mawrth 7.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Yng nghyfarfod y mis yn Nhŷ Glas ar Chwefror 19, daeth nifer o aelodau ynghyd i glywed hanes taith Mrs Jennie Roberts i Oberammergau. Diolchwyd iddi gan Mrs Jennie Hughes a Mrs Pat Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs Carol Houston a Mrs Rhian Jones ac fe roddwyd anrheg y mis gan Mrs H.J. Jones ac fe'i enillwyd gan Mrs Mair Williams.

FAN SGLODION A PHYSGOD - Bydd y fan yn y pentref bob dydd Mawrth o 5.30 o'r gloch hyd 6 o'r gloch.

ARTISTIAID O FRI I'R WAUNFAWR

Mae pwyllgor neuadd Waunfawr wedi llwyddo i ddenu artistiaid o fri i gyngerdd a gynhelir ganddynt yng Nghroesywaun ar nos Wener, Mawrth 13 am 7.30. Mae Trebor Edwards, Margaret a Glenys - y ddeuawd gerdd dant enwog, Cor Plant Ysgol Waunfawr ac Alma Jones, yr adroddwraig leol ddawnus, eisoes wedi cytuno i ddod yno. Deiniol Huws o Gaethro fydd yn cyflwyno.

Mae tocynnau ar werth eisoes yn siopau Waunfawr, a siopau Gray Thomas a'r Pentan, Caernarfon.

Bu pwyllgor adeiladu'r ganolfan newydd yn ymweld â chanolfannau cymdeithasol eraill yn Y Ffôr a Llanengan yn ddiweddar, a chafodd y ddirprwyaeth o Waunfawr esboniad manwl ar y ffordd o fynd ati i adeiladu a chodi arian tuag at neuadd newydd.

MODURDY MENAI

FFORDD CAERNARFON Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 670882
Perchennog : J. Evans

STORFA

Mace

O.R. & M. PARRY

Sgwâr Llanrug

Caernarfon 2790

Dewis hael o fwydydd, llyisiau â diodydd

AR WERTH

Tŷ Pâr Modern yn y Waunfawr. Tair llofft, ystafell ymolchi, cyntedd, lolfa eang a chegin hwylus, safle ddymunol yng nghanol y pentref. £16, 950, 15 Tŷ Hen, Waunfawr. Ffôn Waunfawr 592.

DAU BOSTMON; DAU GYFNOD

Bydd wyneb broeol cyfarwydd i bobl Bethel a Llanrug yn eisiau o'r mis hwn ymlaen, ond ni fydd yn angof. Ar y 26ain o Chwefror, ymdeolodd Mr Oliver Roberts o'i swyddo gario'r post yn yr ardaloedd hyn. Er mai yng Nghaernarfon y mae Mr Roberts yn byw, bu'n bostmon yn ardaloedd Llanrug, Bethel a'r Bontnewydd am flynyddoedd.

Wedi gwasanaethu gyda'r 'Royal Marines' yn ystod yr Ail Ryfel Byd, ymunodd Mr Roberts â'r Swyddfa Bost yng Nghaernarfon ym 1948 a bu'n bostmon yno am y cyfan o'i yrfa.

Mewn cyfarfod o'i gydweithwyr yn Swyddfa Bost Caernarfon ar ddydd Gwener, 20ed Chwefror, fe'i cyflwynwyd gan y Postfeistr â Radio Cassette a Llythyr Ymadawol wedi ei fframio a'i arwyddo gan Reolwr-Gyfarwyddwr y Bwrdd Post. Cyflwynwyd anrheg ariannol a phopty araf (slow oven cooker) iddo ar ran staff y Post yng Nghaernarfon. Dymuniadau gorau'r ardal iddo ar ymdeoliad hapus a dedwydd.

Trwy law Mr Owen, Cae Corniog, Penisarwaun, sy'n 82 oed (tad Ifan, Becwr Waunfawr a thaid Rhian Owen, y gantores ifanc o Lanberis. Hanes ein hen daid a geir yma.

Mae'n debyg nad oes llawer yn cofio Robert Owen, Penbwllch y groes, Llanberis yn gyrru'r fan bost gyda cheffylau o Lanberis i Gaernarfon.

Un o Fôn oedd Robert Owen, a hefyd ei wraig, Mary. Arferai weithio ar fferm yn sir Fôn am chweugain yr wythnos (ac ambell

rwddan). Cafodd gyfle un pentymor i ddod i weithio i'r Crug, Llanfairisgaer am un swllt ar ddeg - swllt yn fwy nag a gai ym Môn! Erbyn hyn, 'roedd ganddynt ddau o blant, a chawsant dŷ yn Saron, Bethel. Wedi byw yno rai blynyddoedd, ac i'r teulu gynyddu o ddau i bump o blant (tri mab a dwy ferch), bu'n rhaid chwilio am dŷ mwy, mwy o gyflog, ac felly, am waith arall. Aeth Robert Owen i'r 'offis fawr' yn chwarel Llanberis a bu'n llwyddiannus, gan ddechrau gweithio ar bonc y 'Swallow'. Daeth i fyw i Benbwllchgroes, Llanberis neu Penygwaith fel y'i gelwir.

Ymhen rhai blynyddoedd, cafodd ddamwain dost iawn yn y chwarel a bu gartref am amser hir. Nid oedd yn bwriadu mynd yn ôl i'r chwarel, a gwelodd hysbyseb yn y papur dyddiol yn nodi fod angen rhywun i ofalu am y 'fan bost'. Rhoddodd ei enw ymlaen, a chafodd alwad i'r Swyddfa Bost yng Nghaernarfon. Yno, ar ôl mynd ar ei lw na chyffyrddai â diod feddwol, cynigiwyd y gwaith iddo. Buan iawn y cafodd afael ar ddau geffyl, a stabal yn y Ceunant, Llanberis ac un arall yn y Balacafa, Caernarfon. 'Roedd llofft uwchben yr olaf hwn lle'r

arferai Robert Owen gysgu dros nos. Rhaid codi am bedwar o'r gloch y bore er mwyn bod yn yr orsaf i gyfarfod y trên cyntaf. Yna, cychwyn yn ôl am Lanberis; gwagio'r fan yn y post a rhoi'r cheffylau yn Stabal Ceunant a'u porthi. Ar ôl gwneud gwely iddynt o lwch lli; cychwyn i fyny am Penygwaith, lle tua 48 acer a gynhaliai rhyw bedair o wartheg. Yn aml byddai'n corddi gyda'r 'hyr-di-gyrdi' ac yna'n gorffwyd hyd tua dau o'r gloch. Ar ôl cinio blasus, byddai'n rhaid cychwyn yn ôl gan alw ar y ffordd yng Nghwmyglo a Llanrug. Byddai Mary ei wraig yn gwneud llond basged o fwyd iddo - digon i de y noson honno ac i frecwast cynnar y bore drannoeth. Nid oedd gan Robert Owen fawr o amser iddo'i hun rhwng y fan bost a'r fferm: ei waith oedd ei brif bleser.

Fo "oedd biau'r ffordd o Lanberis i Gaernarfon" medda fo, "ac felly, canol y ffordd amdani!" Bu wrth y gwaith o gario'r post am 13 o flynyddoedd, heb fethu unwaith er gwaethaf stormydd creulon o eira a rhew. Bu ef a'i wraig farw o fewn ychydig i'w gilydd, ar ddechrau 1917, y gaeaf caled pryd y rhewodd llynoedd Llanberis. Coffa da amdano.

LLUSERN FY NAIN

(sef yddiweddwr Alice Hughes, Hafod) Diolch i Mrs Betty Rees Evans, Minafon, Llanberis am y gerdd isod i'w hen, hen nain, sef y ddiweddar Mrs Alice Hughes, Hafod. Cerdd ydyw gan O.W. Rowlands, o America. 'Roedd Mrs Alice Hughes yn nain i'r bardd.

Yr oedd gan Nain lusern,
Gywreiniad fu 'rioed;
Nid oeddwn yn gwybod
Faint ydoedd ei hoed,
Ei golwg ddywedai
Mai llawer o dro
A welodd yn hanes
Preswylwyr y fro.

Yr ydoedd y llusern
Yn hynod o dlws,
A phlygion i weled
Ei delltan a'i drws,
A'r tŵr yn ei chanol
I ddal kannwyll wen,
A'r fodrwy i'w chario
A'i hongian uwchben.

Yr oedd gan Nain lusern
I'w harwain, wrth law,
Ar noson oer, dywyll,
I'r Capel islaw;
Gosodai hi'n ddestlus
Dan fainc wrth y drws.
Tra fyddai'n addoli
Yr lesu yn lwys.

Yr oedd gan Nain lusern
(Un arall oedd hon)
Ei phris yn fwy gwerthfawr
Na'r ddaear yn gron;
Hen Feibl y teulu
Ddarllenai'n ddibaid.
Ac ynddo ôl bysedd
Fy nain a fy nhaid

Yr oedd gan Nain lusern
Bob amser wrth law,
I'w harwain uwch croesau.
Blinderau a braw;
Gwirionedd yw'r llusern
A'i cadwodd rhag clwy,
Aeth Nain fach i'r nefoedd
Wrth oleu y ddwy.

ALUN GLYN JONES

(Wetton a Thomas)

14 Ffordd Garth, BANGOR. Ffôn: 53705

(ochr draw yr orsaf bysiau)




DEWIS DA

PRISIAU TEG

STAFF PROFIADOL

Dowch i'n gweld,
mi gewch groeso
mawr yn
awyrgylch
gartrefol y siop, a
phob sylw gan
Alun Glyn a'i staff.



CARPEDI

Gostyngiad sylweddol am arian parod
Gosodir pob carped am ddim

Dibynnwch ar ansawdd
lle bo ansawdd yn cyfrif

LLENNI



Cedric



DINORWIG

CYDYMDEIMLIR - Â Mr a Mrs David Jones, 5 Maes Eilian, a'r cysylltiadau teuluol ym marw chwaer Mrs Jones, yn ddiweddar yn Ffestiniog.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL - Nos lau, Ionawr 22 yn y Ganolfan cafwyd noson ddi-ddorol dan lywyddiaeth Mrs Katie L. Hughes, yn gwrandao ar a gweled sleidiau o 'Waith achub ar y mynydd' gan Mr Gwynfor Williams, YH, BEM, Llanberis. Talwyd diolch i'r siaradwr gan Mr John Peris Roberts, Maes Eilian.

Nos lau, Chwefror 5 yn y Ganolfan dan lywyddiaeth Mr John Peris Roberts, Maes Eilian, cafwyd arddangosiad o waith llaw gan Mr Tom Griffith, Caerhun. Treulwyd noson ddiffr yn trin a thrafod gwahanol eitemau mewn ffyn, coed a chortynnau. Talwyd diolch i Mr Griffith gan Mr O.R. Williams, Bro Elidir.

O'R YSBYTY - Da gennym ddeall bod Mr John E. Thomas, Bwlch y Gwynt, wedi dod gartref o Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon. Parhaed i wella.

DIOLCHIADAU - Dymuna Mrs Annie Jones, 5 Maes Eilian, ddiolch o galon i'r Cymdogion a chyfeillion am eu

cydymdeimlad â hi yn ei phrofedigaeth o golli chwaer yn Ffestiniog yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

Dymuna teulu'r ddiweddar Mrs Mary Davies, Bron Myfyr, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn ystod eu profedigaeth ddiweddar. Diolch yn arbennig i holl staff Ysbyty Eryri, Caernarfon, a Phlas Penygwaith, Llanberis am eu gofal tyner a diflino.

YN YR YSBYTY - Aeth Miss Mary E. Davies, Felin Bach, am driniaeth lawfeddygol i Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor. Dymuniadau gorau iddi a phob gwellhad buan yn y dyfodol.

COFION - Ein cofion at amryw sŷn cwyno yn eu cartrefi. Dymuniad am wellhad buan a llwyr.

DIOLCHIADAU - Dymuna Miss Lil Roberts, Fflat 1, Elm Bank, Ffordd Siliwen, Bangor Uchaf (Mae Gwyn gynt) ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag ati gan ei phertnasau a chyfeillion yn ei phrofedigaeth o golli'i brawd ym Mae Colwyn yn ddiweddar, a hefyd yn ystod ei salwch hithau yn ddiweddar.

ELUSENNAU PLWYFOL

Y llynedd gwnaethpwyd arolwg annibynnol o elusennau plwyfol swydd Rhydychen. Daethpwyd i'r canlyniad fod y mwyafrif o'r cyfoeth (yn aml, mwy o lawer nag a ellid ei wario yn ôl termau'r elusen) wedi ei gywasgu i goffrau ychydig iawn o elusennau. Mae'r elusennau cyfoethog sy'n berchen tir yn mynd yn gyfoethocach, a'r rhai tlawd, gyda'u cymunroddion yn cael eu herydu gan chwyddiant, yn mynd yn dlotach.

Mae Humberside a Swydd Rhydychen yn pwyso am ddeddfwriaeth i sefydlu 'Ymddiriedaethau Cymdogaeth' (Neighbourhood Trusts) lle gellir cyplysu elusennau o blwyfi tebyg i roi un gronfa. Daeth cefnogaeth i'r syniad eisoes o Dŷ'r Arglwyddi ac o Dŷ'r Cyffredin. Yn ystod y mis nesaf bydd Janet Fookes, A.S. yn pwyso ar i William Whitelaw, yr Ysgrifennydd Cartref, wella Deddf Elusennau 1960, fel y gellir gwneud gwell defnydd o arian mewn hen elusennau lleol.

Fel y dywedodd Frank Courtney, trefnydd yr arolwg yn Humberside, "dylai elusennau heddiw, fod yn gyfrwng o fewn y gymdeithas i helpu'r rhai anghenus; ond yn ymarferol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithredu fel

cymdeithasau cyfrinachol." - ac eto - "mae'n siŵr fod banciau ledled y wlad yn gori ar arian elusennol na wyr neb fawr amdanynt."

Ychydig o'r ymddiriedolwyr sy'n gwybod yn union beth yw eu cyfrifoldebau; ac y mae llawer, un ai mewn anwybodaeth neu oherwydd nad ydynt eisiau llythyru di-ben-draw â'r Comisynwyr Elusennau ynglŷn â diwygio dogfennau ymddiriedolaethau; yn gweithredu'n groes i'w hymddiriedolaeth.

Gahoddwn sylwadau gan ymddiriedolwyr unrhyw elusen blwyfol.

PENISARWAUN

EGLWYS ST HELEN - Fe fydd gwasanaeth a gweinyddiad o'r Cymun Bendigaidd yn yr eglwys am ddeg o'r gloch dydd Mercher y Lludw, Mawrth 4 ac fe fydd gweinyddiad o'r Cymun bob bore dydd Mawrth am 10 o'r gloch trwy gydol y Grawys. Fe fydd cyfarfod blynyddol Undeb y Mamau, nos Lun, Mawrth 2.

DYMUNIADAU DA - Dymunwn wellhad i Mr H. Williams, 12 Bryntirion, sydd wedi bod yn yr ysbyty. Ac i Mr M. Orrocks, Weirglodd Las ar ôl y ddamwain a gafodd ar ei ffordd yn ôl i'w waith yn Swydd Efrog.

CLWB YR HEULWEN - Bydd Clwb yr Heulwen yn dechrau ar ôl seibiant dros y gaeaf, ar ddydd Mawrth, Mawrth 17.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Fe gafwyd cyfarfod o Sefydliad y Merched nos Fawrth, Ionawr 27. Cafwyd noson iddiffr iawn yng nghwmni Mrs O. Rowlands. Fe soniodd am flwyddyn y methodig ac fe roddodd ychydig o hanes ei gŵr, Mr Arthur Rowlands, ac sut oeddent wedi addasu eu hunain i'r anffawd a ddaeth iddo yn ei swydd fel plismon, ar ôl iddo gael ei saethu a'i ddallu.

Rhodddwyd y te gan Mrs M. Williams a Mrs A. Jones o'r Waun, ac enillwyd y raffl gan Mrs B. Hughes. Diolchodd Mrs N. Jones i bawb.

SYMUD - Dymunwn yn dda i Mr a Mrs Smith, Hafan a'r plant yn eu cartref newydd yn y De.

CROESO - I Mr a Mrs Jeavons a'u tair merch fach sydd wedi dod i fyw i 'Manora' yn y Waun.

DIOLCH - Fe garai Mr Freeman, 11 Llys-y-gwynt, ddiolch yn fawr i bawb am eu caredigrwydd yn ystod ei harhosiad yn yr ysbyty ac ar ôl iddo ddod adref.

LLONGYFARCHIADAU - I Mr a Mrs I. Hughes, Tŷ Newydd, Cae Howell ar fod yn daid a nain.

LLONGYFARCHIADAU - I Rheon Larsen, Llygad yr Haul, ar ennill gwobr am jôc yn un o gylchgronau'r Urdd yn ddiweddar. Beth am yr Eco Rhoen? Gyrrwch rai o'ch jôcs atom ni!

FFARWELIO - Yn y dyfodol agos bydd yn rhaid i ni, fel pentrefwyr, ffarwelio â Mr Bryngwyn Griffith, Bryntirion, sydd yn symud i fyw i Gonwy. 'Rydym yn dymuno'n dda iddo, ac yn diolch iddo am ei waith yn yr eglwys, ar y Cyngor Cymuned, ac ar Bwyllgor yr eisteddfod. Bydd colled aruthrol ar ei ôl yn yr eglwys yn enwedig i'r ffyddloniaid hynny a oedd yn gwerthfawrogi ei wasanaeth yn trefnu'r gyrrfaon chwist yn y

neuadd bob nos Wener. Bu'r ymdrech yma ganddo yn gyfrwng i chwyddo cyfrif atgyweirio'r eglwys i swm sylweddol iawn. Pob lwc, Bryn, a phob bendith yn eich cartref newydd.

YSGOL TAN Y COED - Chwaraewyd dwy gêm bêl-droed gyfeillgar yn ystod y mis, y naill yn erbyn bechgyn (a merched) Ysgol Rhiwlas, a'r llall yn erbyn tîm o Ysgol Dolbadarn. Enillwyd y ddwy gêm a chafwyd tywydd tyner braf ar y ddau achlysur.

YR YSGOL FEITHRIN - Mae'r Ysgol Feithrin wedi dechrau cael ei chynnal yn y pentref ac mae tua dwain o blant bach wedi bod yn dod ynghyd i chwarae ddau fore'r wythnos. Grŵp mam a phlentyn yw, felly mae croeso i unrhyw blentyn bach, o dan oedran dechrau'r ysgol, a'i fam i ymuno â'r grŵp yn Neuadd yr Eglwys am 10 o'r gloch ar fore Mawrth a bore lau.

Bydd y pwyllgor yn cynnal Ffair Wanwyn i godi arian at yr Ysgol Feithrin yn y Neuadd ar nos Wener, Mawrth 20 i ddechrau am 6 o'r gloch. Bydd yno rafflau a gwahanol stondinau gwerthu, cacenau, bwydydd, stonin eliffant gwyn, gwaith llaw a phob math o wahanol bethau eraill.

Bydd aelodau'r pwyllgor yn falch o bob cymorth a chefnogaeth i wneud y noson yn llwyddiannus.

GWELLA - Da gennym ddeall bod Gwen Lloyd Williams, Tanygaer, wedi gwella'n dda ar ôl y driniaeth lawfeddygol a gafodd yn ddiweddar yn Ysbyty Môn ac Arfon.

FAN SGLODION A PHYSYSGOD - Bydd y fan yn y pentref bob dydd Mawrth o 5 o'r gloch hyd 5.30 o'r gloch ac ar ddydd Sadwrn, o hanner dydd hyd 1 o'r gloch.

LLONGYFARCHIADAU - I Miss Marian Jones, Cae Corniog Mawr, a Mr Gareth John Griffiths, 42 Y Glyn, Caernarfon, ar eu dyweddiad.

EISTEDDFOD Y PENTREF - Dyddiad yr Eisteddfod eleni yw Mai 8. Bydd y Rhestr Testunau ar gael yn y dyfodol agos, ac unwaith yn rhagor mae'r Pwyllgor yn apelio am gymorth pawb yn y pentref i hyfforddi cantorion, adroddwyr ac yn y blaen, ac i sicrhau y bydd yr Eisteddfod yn llwyddiant. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch yn fawr iawn am y rhoddion oedd eisoes mewn llaw. Cofiwch y bydd ein trysoryddion, Mr Bryngwyn Griffith a Mrs Eirlys Williams yn ddiolchgar iawn am unrhyw roddion eraill. Dyma enwau'r rhai sydd wedi cyfrannu eisoes. Mawr yw ein dyled a'n diolch iddynt - Mrs E. Porter, Lllys y Gwynt: £1, Mrs M.C. Williams, Bexhill-on-sea: £3.30, Cyngor Cymuned Llanddeiniolen: £20.

**GORS BACH
PANEL
BEATING
SERVICE
Cwm-y-glo**

Ffôn : LLANBERIS 814

**GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR**



O SIAMBR SELWYN

Gwyllo 'Tom and Jerry' roeddwn i a gweld y gath druan yn dod allan o'r sgarmes waetha unwaith eto, pan gofiais yn sydyn fel y bu i minnau achosi cryn ddychryn i hen gath a oedd gen innau ers talwm.

Mwt oedd ei henw. Hen gath lonydd, annwyl iawn a oedd wedi cyd-dyfu â mi. Roeddem yn dipyn o ffrindiau er gwaetha'r ffaith fy mod i wedi ei phryfocio sawl tro drwy glymu pethau'n sownd yn ei chynffon, ei charcharu yng nghrombil yr hen gloc mawr, a'r saethu fwy nag unwaith hefo gwn dŵr. Ond er gwaetha'r pryfocio plentynnaidd, roedd Mwt yn mynnu dod i ganu grwndi ar fy nglin bron bob nos.

Hen ddiwrnod gwyntog, glawog oedd hi, hen ddiwrnod diflas a dweud y lleiaf, pan gefais y syniad y carwn i wneud Mwt yn dipyn o arwr - drwy ei pharatoi ar gyfer ymuno â'r 'Red Devils'.

Gwnes barasiwt allan o hances boced fwy' nhad, a gwnes harnes o llyn a strapiais fy nyfais am gorffyn blewog Mwt. I fyny â fi am y llofft, yn llawn cyffro, a Mwt yn fy mreuchiau, yn gwbwl hyderus y gweithiai fy arbrawf.

Agorais ffenast y llofft. Disgwylais am bwff o wynt go gry, ac yna taflais Mwt druan i ddannedd y ddrycin, gan ddisgwyl ei gweld yn disgyn yn hamddenol a glanio fel pob cath yn ddiogel yn yr ardd islaw ar ei phedair coes.

Ond weithiodd y parasiwt ddim. Disgynnodd Mwt druan fel baw o ben ôl buwch i'r lawnt islaw - ar ei phedair troed mae'n wir. Parlyswyd hi am eiliad, yna edrychodd yn amheus i gyfeiriad ffenast y llofft, ymsythodd, ac i ffwrdd a hi fel cath i gythral dros wal yr ardd ac i'r cae. Gwylais hi'n carlamu'n wyllt i gyfeiriad Tyddyn Andro a'r parasiwt aflwyddiannus yn ei dilyn fel barcud di-adennydd.

Ddaeth Mwt ddim at ei soser bara llefrith y noson honno - yn wir aeth tridiau heibio cyn iddi fentro croesi rhiniog Bryn Alun.

Cafodd groeso cynnes gan Mam. Holwyd hi - ond diolch i'r drefn a fedar cath siarad. Ond edrychiad go amheus a gefais i ganddi, a ddaeth hi byth wedyn i ganu grwndi ar fy nglin. Ac o feddwl dros y peth yn difrifol wela'i fawr o fai arni chwaith, oherwydd wedi'r cyfan doedd gan Mwt yr un awydd i fod yn un o'r Red Devils.

A wyddoch chi be? Mae gen i'r hen deimlad annifyr hwnnw fod pob cath yn edrych yn amheus arna'i byth.

Gyda llaw, bu diflaniad yr hances boced yn ddirgelwch i 'nhad. Chwiliwyd amdani ymhobman, a bu cryn holi. Yn wir fe holwyd pawb, - ond Mwt y gath.

Cefais alwad annisgwyl yn ystod y mis i Eisteddfod flynyddol Trawsfynydd. Y cyfaill y Prifardd Emrys Roberts wedi cael damwain, ac yn methu cadw'r oed. Rwy'n hoffi'r enw swyddogol sydd ar yr hen 'steddfod hon sef Eisteddfod Llawrplwy a Phenstryd. Daeth cystadleuwyr o bob rhan o Gymru i'r Traws, a chafwyd cystadlu brwd a diddorol am yn agos i bymtheng awr. Yr unig ddiplastyd a brofais oedd y niwl trwchus a fynnodd gadw cwmni i mi ar y ffordd adre yn oriau mân bore Sul.

Mae heddiw'n ddydd Sant Falant. Can mlynedd union i heddiw fe aned bachgen ym Methel, bachgen a

ddaeth ymhen blynnyddoedd wedyn, yn un o wŷr enwocaf Cymru. Tyfodd i fyny i fod yn llenor ac yn fardd o fri, enillodd goron yr Eisteddfod Genedlaethol, ac fe erys ei 'Hen Atgofion' yn glasur. Bu'n aelod seneddol am gyfnod hefyd. Ond fel y tystia ei garreg fedd ym mynwent Llanddeiniolen, fel "athro, llenor a bardd" y cofia Cymru amdano. Enw'r bachgen hwnnw oedd William John Gruffydd - yn fwy adnabyddus efallai fel W.J. Gruffydd.

Gyda llaw, yn Llundain y cynhaliwyd y 'Steddfod Genedlaethol pan enillodd W.J. Gruffydd y goron am ei bryddest 'Yr Arglwydd Rhys yn y flwyddyn 1909'.

Fe godir stad o dai union gyferbyn â Gorffwysfa, cartre'r Athro W.J. Gruffydd, cyn bo hir. Onid enw addas ar y stad hon fyddai 'Bro Gryffydd'? Wedi'r cyfan mae'n Fro Syr Ifor yn Nhregarth, a Ffordd Cynan ym Mhorthaethwy.

Cefais lond bwt car o gyfansoddiadau llenyddol Eisteddfod Ffermwyr Ifanc, Meirion i'w beirniadu. Hoffais y gerdd fach hon oedd yn eu plith.

Y DRWS

Ddoe yn llawn chwilyfrydedd
Wrth lamu trothwy'r byd,
Ar ryddid y dyfodol
Yn llwyr y rhown fy myd.

Ond heddiw yn llawn hiraeth
Yn ôl y mynnaf droi
At ddrws yn y gorffennol
Sydd bythol wedi ei gloi.

"Ydw 'dw inna'n licio honna
hefyd" - medda Nain.
Hwyl ichi,
Selwyn.

CYSTADLAETHAU LLYFRAU CYMRAEG GWYNEDD

Dyma enwau'r rhai a fu'n llwyddiannus yn y cystadlaethau uchod y llynedd. Yn y gystadleuaeth llyfr darllen yn cynnwys gwybodaeth fathemategol diddorol ar gyfer plant 8-11 oed dyfarnwyd rhan o'r wobwr i Mr H. Delwyn Richard, Caerdydd. Yn y drydedd gystadleuaeth dyfarnwyd £75 yr un i Mr Eddie C. Lewis, Bangor (am lyfr Gyrfaeodd) a Mr G.E. Thomas, Pwllheli (cyfres o fân brosiectau i blant); £30 yr un i Mr Tudur Aled, Llanelwy (llyfr yn ffilm ar ddefaid) a Mrs Mair W. Hughes, Pentraeth (nofel i blant) a Mrs A. Parry-Jones, Llanrug (cardiau gwaith ail-iaith i blant meithrin); a £15 yr un i Mr T.A. Hughes, Tŷ Croes (llyfr ymarferion a phosau i blant) a Mr Edgar Jones, Llanfachraeth (nofel hanesyddol).

Cofiwch mai 31 Mai yw'r dyddiad cau i'r cystadlaethau eleni. Mae manylion llawn ar gael o'r Swyddfa Addysg.

BETH FYDD EICH ATEB CHI?

Dyma deitl taflen sydd wedi ei pharatoi gan yr Urdd ar gyfer ymgyrch gyhoedduswydd yn gysylltiedig â'r cyfrifiad eleni.

Yn ystod mis Ebrill, cynhelir cyfrifiad poblogaeth drwy wledydd Prydain, fel y gwneir bob deng mlynedd. Ar ffurflenni Cymru bydd cwestiynau ychwanegol:

Ydych chi'n medru siarad Cymraeg?

Ydych chi'n medru darllen Cymraeg?

Ydych chi'n medru ysgrifennu Cymraeg?

Beth yw ystyr y cwestiynau hyn? Yn syml iawn, dydyn nhw ddim yn golygu fod yn rhaid eich bod chi wedi pasio arholiad neu eich bod chi'n cynganeddu, neu'n gweithio i gorff neu fudiad Cymraeg. Os ydych chi'n siarad Cymraeg â phobl yn eich stryd, yn y capel neu'r dafarn, yn darllen papur bro neu'r 'Cymro' neu'n mwynhau 'Pobol y Cwm', 'Ydw' ddylai eich ateb fod i'r cwestiynau uchod. Os ydych chi'n ddysgwyr sydd wedi dysgu digon i gynnal sgwrs neu ddarllen neu mwynhau rhaglenni teledu, mae'r un peth

yn wir. Os ydych chi'n fyfyrwr neu'n weithiwr sy'n gorfod bod i ffwrdd y tu allan i Gymru am gyfnodau, byddwch adre ar nos Sul, Ebrill 5 er mwyn llenwi'ch ffurflen. Cred Urdd Gobaith Cymru ei bod yn bwysig i bawb lenwi'r ffurflen yn gywir er mwyn i bawb weld beth yw'r gwir sefyllfa ynglŷn â'r iaith Gymraeg ym 1981.

Os ydych chi'n medru darllen hwn, ydw yw'r unig ateb gonest i chi.

I gefnogi'r achos mae'r Urdd yn dyfynnu ar y daflen atebion rai o bobl amlwg Cymru. Yn eu plith mae rhai sydd wedi dysgu'r Gymraeg.

Dyma'r enwau: Philip Rosser (Trefnydd Cymru Undeb y Gweithwyr Trafnidiol a Chyffredinol), Dan Damon a Noreen Bray (Darllenwyr), Dai Davies (pêl-droediwr), Ray Gravell (chwaraewr rygbi), Syr Cennydd Treherne (Arglwydd Raglaw De Morgannwg), Phillip Madoc (Actor), Myfyr Isaac (Cerddor roc), Emrys Evans (cadeirydd CBI Cymru, Uwch Gyfarwyddwr Rhanbarthol (Cymru) Banc y Midland).

Wrth droed yr Wyddfa . . .



BWYTY FFERM BRON ERYRI LLANBERIS Ffôn 391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

Bwyty Trwyddedig
A la Carte
Bwyd Basgedi
Bwyd Môr Ffres
Wedi eu paratoi gan ein Chef profiadol iawn
Partion
Ciniawau
Gwleddoedd
Priodasau

Lle i 110 ar y tro
Ffoniwch i fod yn saff o le

TAN-Y-COED

YMDDEOL - Ar Ionawr 3 ymddeolodd Mr Robert Griffith, Llys Meredydd, Tai Trefor, ar ôl bron i bump a deugain o flynyddoedd yng ngwasanaeth Cwmni Crosville. Bu yn dreifio bysiau'r cwmni am chwarter canrif o'r cyfnod yma.

Estynnwn, fel ardal ein dymuniadau da i Mr Griffith. Pob benthid i'r dyfodol, iechyd a hoen i fwynhau seibiant wedi cyfnod hir o wasanaeth ffyddlon i'r un Cwmni.

MARW - Bu Mrs Mary E. Shilton, Tan-y-coed Cottage farw'n sydyn fore Mercher, Chwefror 18 yng nghartref ei merch ym Middlesex. Cyn gorfod symud oherwydd llesgedd a henaint bu Mrs Shilton yn byw yn ein plith am flynyddoedd. Ymddiddorai ym mywyd yr ardal. Bu yn gymdogaes garedig gyfeillgar, yn ffrind i'r plant a diddordeb mawr ganddi ym mhiant yr Ysgol Sul, ac yr oedd plant yn hoff iawn ohoni hithau.

Gwerthfawrogai Mrs Shilton y fraint o gael byw mewn ardal mor brydferth a thawel. Braint iddi oedd mwynhau machlud haul godidog a welir o ddrws ei bwthyn. Hoffai grwydro'r llwybrau, gwyllo'r coed, casglu blodau gwyltiau a'u gosod yn gywain yn ei bwthyn, gwrandao cân yr adar, hyn cyn y dyddiau blin pan ballodd ei golwg, a cholodd ei chlyw.

Meddai Mrs Shilton y ddawn i beintio'r prydferthwch a welai ar ganfas, a gwelir ei gwaith mewn cartrefi yn y cylch heddiw.

Cafodd fyw i oedran teg. Buasai yn 95 oed y mis nesaf a da cael dweud i'w llygaid wella y misoedd diwethaf, gwella yn ddigon da iddi fedru

llythyr a'i chyfeillion a darllen - gweithgareddau hoff iawn ganddi.

Cydymdeimlwn â'i dwy ferch a'r teulu oll yn eu colled.

Y CHWIORYDD - Treuliwyd dwy noson ddifyr o drefniant y Chwiorydd yn Ffestri Tan-y-Coed yn ddiweddar. Nos Wener, Ionawr 30 - paned o de a stondin werthu - yr elwyn mynd tuag at Gronfa Atgyweirio Coleg Diwinyddol Aberystwyth.

Nos Wener, Chwefror 13, cafwyd cyd-gyfarfod arall - paned o de ac adloniant y tro hwn, a'r elw yn mynd tuag at atgyweirio'r Ffestri.

Gwesteion y noson oedd Mrs Lola Butler, a Mrs Megan Williams.

Perfformiwyd comedi, a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer y noson, gan Mrs Lola Butler. Mrs Butler, Mrs Katie Williams a Mrs Megan Williams oedd yr actorion.

Yna cafwyd egwyl gerddorol gyda Mrs Jane Humphreys wrth y piano a'r chwiorydd yn uno i ganu'n hwyliog.

Ymhellach difyrwyd ni gyda storiâu byrion hwyliog gan Mrs Mary Lloyd Williams - noson ddifyr a hwyliog.

Diolchodd Mrs Nansi Roberts, Llywydd y Merched, i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y noson.

Anfonwyd ein cofion a'n dymuniadau da i gleifion yr ardal.

PLANT YR YSGOL SUL - Dyma lun Plant Ysgol Sul Tan-y-Coed yn eu Parti Nadolig gyda Siôn Corn, llun a dynnwyd gan Dditectif Selwyn Jones. Addawyd y byddai'r llun yn y rhifyn hwn o'r Eco, a dyma fo.



Diolch i Mrs Margaret Owen, Isbryn, Tai Trefor am y llun yma o Warchodlu'r Cylch - yr 'Home Guards'. Enwau; hanesion; atgofion os gwelwch yn dda!

DIOLCH I'R ARDAL

Dymuna Alys a Lowri Jones, 78 Heol y Coed, Rhiwbina, Caerydd, a'r teulu i gyd ddiolch i'r llun mawr o gyfeillion ym mro'r Eco o Lanberis i'r Waunfawr a ddangosodd y fath gydymdeimlad a charedigrwydd â hwy yn eu profedigaeth ddisyfyd o gollu Gwyn. Diolch yn fawr iawn i chwi i gyd.

COLLI DARLLENWR FFYDDLON

COLLI DARLLENWR FFYDDLON - Bu farw Mr William Joseph Jones, Noddfa, Overton Avenue, Prestatyn yn ystod y mis. 'Roedd Mr Jones yn wreiddiol o Gwm-y-Glo. Byddai wrth ei fodd yn darllen yr Eco a byddai'n cyfrannu'n gyson yn y papur. Cydymdeimlwn â Dei a Betty (plant) a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Y CYFALL EMYR JONES A'R CI

Yn y rhifyn diwethaf o'r Eco 'roedd llun Mr Emyr Jones, Hafan Elan, Llanrug â'i gi, Gel. 'Roedd gweld y llun, a darllen hanes Gel yn ddigon i ysbrydoli Mr R.H. Jones, Deiniolen i gyfansoddi'r Gerdd isod. 'Roedd raid i ninnau, felly, gynnwys llun arall o Gel a'i feistr, gan ategu'r neges yng ngherdd Mr R.H. Jones. Diolch yn fawr iawn iddo.

Wrth ddarllen Eco'r Wyddfa

Ein papur lleol ni,
Fe welwn ddarlun prydferth
O Emyr Jones a'i gi
Y cathod hefyd welir
Sydd ddwy o bethau del.
Yn rhannu'r aelwyd hapus
Â'r ci o'r enw Gel.

Er mai mewn aelwyd newydd
Y gwelir yr hen gi
Mi wn y caiff o groeso

Bob amser yn y tŷ
Mae Emyr Jones a'r teulu
Yn bobol ddigon clên
Ac fel mae'n edrych yn y llun
Bob amser gyda gwên.

Ar ystad Hafan Elan
Fe welir Gel yn gawr
Yn dal yn ddigon prysur
I fyny ac i lawr.
A diolch i'r trigolion,
Am fod mor ffeind a ffri
A bod mor hoff ohono
Er nad yw Gel ond ci.

Rhown le i garedigrwydd
Fel Emyr i'r hen gi
Os daw na brofiad tebyg
Rhyw dro i'n hanes ni
Ein hymdrech nid â'n ofer
Ai gwneuthur byda gwên
Gan gofio ein bod ninnau oll
Yn brysur fynd yn hen.

R.H. Jones
(Deiniolen)



GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

Gwaith Coffaol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol



BECWS DEINIOLEN


(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

CROESAIR RHIF 40



AR DRAWS:

1. Gwatwar neu ddirmygu (7)
 8. Terfyn neu ymyl (5)
 9. Tywyllu (3)
 10. Iôr (3)
 11. Cerrig mân (3)
 13. Problem ddyrys (3)
 16. Ffrind Pengwyn! (6.3)
 17. Ffordd (3)
 18. Gwg (3)
 23. Gofal (3)
 24. Coed bythwyrd (3)
 25. "Y mae gwedd dy . . . grasol Yn rhagori llawer iawn" (5)
 26. Rhan o'r fraich (7)
- I LAWR:
2. ". . . mae'r mynyddau mawr"

- (4)
3. Cerdd . . . (4)
4. Heb deimlad (3)
5. Tawch dŵr berw (4)
6. Cangen (4)
7. "O ddarn o bren y gwnaed o" (2.5.4)
9. Mawrth y cyntaf (3.4.4)
12. Preswyllo (5)
13. Costrel (5)
14. Un o oleuadau'r nos (5)
15. Pen wisg (5)
19. Cael bywyd (4)
20. Plentyn bach (4)
21. Asgell (4)
22. Gofyniad taer (4)
23. Siawns neu lwc (3)

SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

PÊL-DROED - Ar Chwefror 12 daeth Ysgol Llangefni â phedwar tîm i Lanrug i chwarae yn erbyn yr ysgol. Dyma'r canlyniadau - Bechgyn Hŷn: colli 5-1. Bechgyn Iau: cyfartal 1-1. Dan 13eg: ennill 4-1. Dan 12eg: colli 2-1.

TRAWS GWLAD - Cynhaliwyd Treialon Gwynedd yn ysgol Eithinog Bangor ar 13 o'r mis. Aeth amryw o fechgyn a genethod o'r ysgol i gystadlu, dyma'r goreuon - Petula Williams 2il genethod ieuengaf. Darren Roberts 7ed bechgyn ieuengaf, Haydn Williams 8ed bechgyn ieuengaf, Kirsty McCann 7ed genethod ieuengaf, Mair Williams 5ed genethod ieuengaf, Jaqueline Wager 8ed genethod ieuengaf, Gareth Hughes 2il bechgyn iau, Melanie Sellars 1af a Carol Prydderch 2il genethod iau.

CRICED - Aeth David John Pritchard o Nant Peris a James Spry o Lanberis ar gwrs criced i Fangor ar y 18ed a'r 19eg o Chwefror yng ngofal Bill Clutterbuck y chwaraewr proffesiynol. Y ddau fachgen yma oedd yr unig rai ar y cwrs i ennill gwobr arbennig.

SGŪO - Cystadlueth sgïo Clwb Sgïo Gogledd Cymru. Enillodd y disgyblion canlynol o'r ysgol i gyd y fedal aur yn eu gwahanol adrannau. Matthew Ingle, bechgyn dan 12eg; Kirsty McCann, genethod dan 12eg; Robina McCann, genethod dan 15eg; Tim Lloyd, bechgyn dan 15eg; Chris Lloyd, bechgyn dan 15eg.

TROCHFA - Yn ystod penwythnos Chwefror 13-15 ymwelodd 30 o

aelodau'r flwyddyn gyntaf a'r ail â Gwersyll Glanllyn, Llanuwchllyn. Roeddynt yng ngofal tair aelod o'r 6ed dosbarth, Anwen Owen, Iola Llywelyn a Mair Morgan.

PITI bod Iola wedi disgyn i'r llyn - fel arall cawfyd tywydd sych!

FFILM - Dydd Gwener, Chwefror 20 aeth Mrs Jean Fleming a Mrs Noreen Manning a 100 o blant dosbarthiadau 3 a 4 i Theatr Gwynedd i weld ffilm ar fywyd Francis o Asisi, 'Brother Sun - Sister Moon'.

SIALENS I'R HOGIAU



Mae 'na wyneb â siâp newydd yn nhîm pêl-droed ysgol gynradd Lanrug y dyddiau yma. A dyma hi - Wendy Morris.

Dyma'r tro cyntaf erioed (hyd y gwyddom) i ferch gael ei dewis i unrhyw dîm pêl-droed yn y cylch yma.

Chwaraeodd mewn gêm yn ddiweddar yn erbyn ysgol yr Hendre, Caernarfon.

Pob lwc iddi hi.

DYDDIADUR

MAWRTH

2. Llun: LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30

DEINIOLEN - Noson Lawen gan Sefydliad y Merched

5. Iau: BETHEL - Cinio Gŵyl Dewi Sant Sefydliad y Merched yng Ngwesty'r Foelas, Llanrug

CWM-Y-GLO - Clwb Pobl y Cwm WAUNFAWR - Clwb Gwyrfaï yn ymweld â'r Ysgol Gynradd

Sefydliad y Merched yn dathlu Gŵyl Ddewi

LLANBERIS - Cinio Gŵyl Ddewi Clwb yr Henoed yng Ngwesty Fictoria

LLANRUG - Merched y Wawr yn mynd i weld y ddrama 'Un Nos Ola Leuad' yn Theatr Gwynedd

6. Gwener: LLANBERIS - Te yr Henoed

YR ARDAL - Clwb Eryri yng Ngwesty'r Gwynedd

LLANRUG - Dydd Gweddï Byd Eang y Merched yng Nghapel Tanycoed

WAUNFAWR - Yr Ysgol Feithrin yn dathlu Gŵyl Dewi yng Ngwesty'r Gwynedd, Llanberis

7. Sadwrn: YR ARDAL - Eisteddfod Gylch yr Urdd yn Neuadd Ysgol Brynrefail

CWM-Y-GLO - Sioe Gwningod yn y Ganolfan Gymdeithasol am 1.30

9. Llun: LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30

10. Mawrth: BETHEL - Clwb Bro Bethel

LLANRUG - Merched y Wawr yn croesawu Cangen Bethel i'w plith

12. Iau: CWM-Y-GLO - Clwb Pobl y Cwm

LLANRUG - Noson Goffi Cymdeithas y Chwiorydd Capel Mawr am 7.00

Clwb Blodau'r Grug

LLANBERIS - Ffair Wanwyn dan nawdd Cangen Plaid Cymru yn y Ganolfan am 7.30, yr elw i'w rannu

Cyfrifir y llythrennau canlynol fel UN llythyren: ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th.

Anfoner y cynigion fel arfer i: Myrddin Owen, 32 Stryd Fawr, Llanberis. £1 o wobr i'r enillydd.

ATEBION CROESAIR RHIF 39

AR DRAWS: 1. Coedwig; 8. Dilyw; 9. Her; 10. Bro; 11. Twb; 13. Bod; 16. Tatws Llaeth; 17. Tad; 18. Wyr; 23. Cig; 24. Tŵf; 25. Ysigo; 26. Pererin.

I LAWR: 2. Effro; 3. Wybr; 4. Gro; 5. Odyn; 6. Clwt; 7. Gwobr Gyntaf; 9. Hydref Gwlyb; 12. Tlawd; 13. Brwnt; 14. Dillad; 15. Trechu; 19. Reis; 20. Clod; 21. Ager; 22. Stwr; 23. Cip.

Enillydd Croesair 39:

Mrs E. Hughes, Brynhyfryd, Groeslon.

rhwng Ysgol Pendalar a'r gangen leol YR ARDAL - Cwmni Drama Llanberis yn perfformio 'Twylo Modryb Angelina' yn Theatr Seilo, Caernarfon

13. Gwener: WAUNFAWR - Cyngerdd yng Nghapel Croesywaun am 7.30. Yr artistiaid fydd Trebor Edwards, Margaret a Glenys, Côr Plant Ysgol Waunfawr ac Alma Jones. Y noson dan nawdd Pwyllgor Neuadd Waunfawr

16. Llun: LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30

17. Mawrth: PENISARWAUN - Clwb yr Heulwrn

18. Mercher: CWM-Y-GLO - Merched y Wawr yn dathlu Gŵyl Dewi

19. Iau: CWM-Y-GLO - Clwb Pobl y Cwm

BRYNREFAIL - Sefydliad y Merched

20. Gwener: LLANBERIS - Te yr Henoed

PENISARWAUN - Ffair Wanwyn dan nawdd Pwyllgor yr Ysgol Feithrin yn y Neuadd am 6.00

WAUNFAWR - Noson o Gystadlu Ysgafn. Dewisir Brenhines y Carnifal yn ystod y noson

21. Sadwrn: BETHEL - Swper Clwb y Rhos yng Nghastell Cidwm

23. Llun: LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30

25. Mercher: LLANRUG - Noson o Gawl a Chân yng nghwmni Dafydd Iwan yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. Y noson dan nawdd y Seindorf

26. Iau: CWM-Y-GLO - Clwb Pobl y Cwm

WAUNFAWR - Merched y Wawr

LLANRUG - Cyfarfod Cyffredinol y Seindorf am 7.00

28. Sadwrn: YR ARDAL - Eisteddfod Sir yr Urdd ym Mangor

30. Llun: LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan

DYDDIADAU I'W COFIO

Ebrill 23 a 24 - Eisteddfod Capeli Llanberis a Nant Peris

Mai 8 - Eisteddfod Penisarwaun

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FROI

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NII

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn 202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

CHWARAEON

PEL-DROED

Mae pencampwriaeth Cyngghair Caernarfon a'r Cylch yn raddol lithro o afael Llanberis, a Llanrug sy'n fwyaf tebygol o'i hawlio ar hyn o bryd. Profodd Llanberis aml i gam gwag yn ddiweddar, ond mynd ymlaen o nerth i nerth fu hanes Llanrug. Yn ystadegol, does ar Llanrug angen dim ond 12 pwynt o'r wyth gêm olaf i ennill y bencampwriaeth, ond gallant ennill ar lai o bwytiau, oherwydd mae'r timau islaw iddynt yn y Gynghrair eisiau chwarae â'i gilydd. Yn ychwanegol, mae record sgorio ac amddiffyn Llanrug yn llawer gwell na'r timau eraill - a gallai hynny fod o fantais iddynt pe bai rhyw bosibilrwydd o ddau dîm yn ddiweddar gyda'r un nifer o bwytiau.

Brwydr Bethel bellach fydd ceisio arbed eu hunain rhag diweddu ar waelod y Gyngrair. Mae Talysarn ("yr olaf rai") wedi cryfhau eu tîm yn ddiweddar ac y mae posibl iddynt gamu heibio Bethel ar y funud olaf.

Mewn pwyllgor diweddar o Gynghrair Caernarfon a'r Cylch, etholwyd Dafydd Arfon Jones, rheolwr Llanrug, i fod yn gyfrifol am

dim Cyngrair Caernarfon a'r Cylch yng Nghystadleuaeth Tarian Tucker. Gwahoddir timau'r Gynghrair i anfon enwau chwaraewyr i'w dewis i dîm y Gynghrair, ac yna bydd y Rheolwr yn penderfynu ar y tîm terfynol.

CYNGHRAIR CAERNARFON A'R CYLCH

	Ch	E	Cyf	Colli	O	Bl	Yn	E	Pt
LLANRUG	20	16	3	1	69	19	35		
BANGOR	21	14	4	3	69	32	32		
PWLLHELI	20	13	4	3	54	22	30		
LLANBERIS	18	11	4	3	60	31	26		
BETHEL	19	4	4	11	25	59	12		
C'FON 'A'	15	4	1	10	33	53	9		
TALYSARN	15	1	3	11	16	51	5		

BETHEL

Mis siomedig eto i Fethel. Cael eu hel allan o Gwpan Penrhyn gan Mt. Rangers ar ôl ail-chwarae. Maent bellach wedi colli pob diddordeb yn nhri cwpan y Gynghrair.

Enillwyd pwynt gwerthfawr ym Mhorthmadog ganol y mis - Maldwyn Hughes yn sgorio iddynt. Ond colli eto y Sadwrn diwethaf gartre i dîm Bangor Athletic o 3-1. Unwaith eto, Maldwyn Hughes yn sgorio. Dyma unig galonid Bethel y tymor hwn, sef fod Maldwyn yn sgorio'n rheolaidd iddynt. Mae bellach wedi sgorio 16 o gôls y tymor hwn allan o gyfanswm Bethel o 25. Da iawn yn wir!

LLANBERIS

Ddechrau'r mis, croesawyd Llanberis i'r Drenewydd yng Nghwpan Barrit. Er mai colli o un gôl fu eu hanes, bu'n brofiad i'r hogiau, oherwydd chwaraewyd y gêm dan lif-oleuadau. Sgwn i pa mor hir y bydd yn rhaid i ardal yr Eco ddisgwyl nes gweld gêm gyffelyb yn yr ardal hon?

Collwyd pwynt gwerthfawr yn y Gyngrair pan aeth tîm Y Felinheli gartref ar ôl gêm gynhyrfus a "hanner y wob" ar ôl rhannu wyth gôl. Ond roedd Llanberis yn ôl ar eu

YN EISIAU

Yn ardal Waunfawr/Caeathro - Tŷ ar rent erbyn dechrau mis Mai i weinidog ifanc. Cysyllter â John Glyn Jones. Ffôn: Bangor 2787.

gorau y Sadwrn diwethaf, gan roi curfa iawn i Fethesda o 5-1. Gwilym Williams yn sgorio dwy gôl.

LLANRUG

Mis calonogol iawn i Lanrug, gan gryfhau eu gafael ar safle cyntaf y Gynghrair. Curo'r Felinheli, Nantlle Vale a Thalysarn yn hwylus gan sgorio 15 gôl a dim ond 2 yn eu herbyn. Dic Owen, Hefin Pritchard, Wyn Hughes a Ron Evans yw eu sgorwyr amlycaf gydag 80 o gôl rhyngddynt y tymor hwn.

Dymunwn wellhad buan i Tom Davies ar ôl cyfnod byr yn yr ysbyty. Mae'n un o weithwyr selog y Clwb, ac mae'r tractor yn teimlo'n unig hebddo.!

CWPANAU'R GYNGHRAIR ROWNDIAU 2

CWPAN ALVES

LLANRUG v NEFYN

LLANBERIS v

MT RANGERS

CWPAN PENRHYN

LLANRUG v HIRAEI neu

C'FON 'A'

LLANBERIS neu

FELINHELI

PWLLHELI v neu HARLECH

CWPAN MOORINGS

LLANRUG neu BANGOR

HIRAEI v ATHLETIC

FELINHELI v MT RANGERS

neu LLANBERIS

"RWTSH BABIAIDD"

Annwyl Olygydd Chwaraeon,

Mae pethau wedi mynd yn go fain arnoch mae gen i ofn.

Cyfeirio rydw i at y llith yn y rhifyn diwetha' ar gêm mor fabiaidd â 'Tiddleywinks'. Mae pob plentyn dan 6 oed yn gwybod sut i chwarae'r gêm. Oedd angen gwastraffu gofod gwerthfawr yr 'Eco' i sôn am y fath rwtsh?

Da chi, triwch roi rhywbeth mwy safonol i ni ddarllen amdano'r tro nesaf neu bydd y dudalen yn destun gwawd yr holl fro.

Yr ieddoch yn garedig,

'Cyfaill'

(Cawsom enw a chyfeiriad 'Cyfaill')

GOL: Rwy'n falch iawn fod o leiaf UN cyfaill yn darllen yr erthyglau chwaraeon. Chwarae teg i chwi am fynd i'r drafferth o ddarllen yr erthygl i gyd i ddarganfod mai 'Tiddleywinks' yw Chwidonc. Gyda llaw, gobeithiaf gael sgŵp i'r dudalen

gefn yn ystod yr Hydref pan fydd tymor chwarae marblis yn dechrau ar ddydd Llun Diolchgarwch. Gobeithio hefyd y caf arbenigwr i drafod sut i chwarae colbs (concers) yn iawn.

Ond o ddifrif am funud: y chi'r darllenwyr sydd i benderfynu beth sydd arnoch ei eisiau'n y dudalen chwaraeon. Mae adroddiadau pêl-droed o dri thîm yr ardal yn cael eu hanfon i mi yn rheolaidd a diolch amdanynt. Dyletswyd y trefnwyr chwaraeon eraill - snwcer, dartiau, badminton ac ati - yw anfon adroddiadau am orchestion eu timau hwy.

Y mis hwn bydd Cyfarfod Cyffredinol yr 'Eco'. Apeliar i unrhyw un sydd â diddordeb mewn chwaraeon i fod yn bresennol. Mae gwir angen Golygydd Chwaraeon arnom. Dyma'ch cyfle 'gyfaill' neu unrhyw gyfaill arall.

SNWCER

Nid tîm pêl-droed Llanrug yn unig sy'n arwain eu cynghrair. Mae tîm snwcer y gleision o Lanrug ar frig Cynghrair 'B' - Bangor a'r Cylch. Yn ddiweddar, buont yn llwyddiannus yn erbyn eu prif elynion - Arfon NALGO - gan eu curo o 4 gêm i 2. Mae'r tîm bellach wyth pwynt yn glir ar ben y gynghrair, â dim ond wyth gêm ar ôl iddynt, mae eu siawns o ddyrchafiad i Gynghrair 'A' fel

Dyma'r sefyllfa ar hyn o bryd.

CYNGHRAIR BANGOR A'R CYLCH ADRAN 'B'

	Ch	E	Cyf	Colli	O	Bl	Yn	Erb	Pt
Gleision Llanrug	19	16	3	0	85	29	35		
Arfon NALGO	19	11	5	3	71	43	27		

TYMOR LLWYDDIANNUS I DIMAU YSGOL DOLBADARN

Yn ddiweddar fe enillodd y tîm pêl-rwyd dwrnament i ysgolion Cynradd y Cylch yn ysgol Syr Hugh Owen Caernarfon. Mae'r tîm pêl-droed hefyd wedi cael tymor llwyddiannus. Dim ond un gêm a gollwyd hyd yn hyn. Mae'r ddau dîm wedi cyrraedd rowndiau cyn-derfynol cwpan yr Urdd a dymunwn pob llwyddiant iddynt dros weddill y tymor.



DRAENOG



Clywed fod prinder reffaris yng Ngorllewin Gwynedd, a finau'n gwyllo un penigamp ar gae Ysgol Gynradd Llanrug yn ddiweddar. Mae'n wir ei fod wedi gwisgo'n debycach i escimo nag i reffari, a bod ei ddwy law yn ei bocedi am y rhan fwyaf o'r gêm - ond mi ddysgith, mi ddysgith ...